**Rhif: WG46471**

Llywodraeth Cymru
# Dogfen Ymgynghori

# Ymgynghoriad ar Rwymedi o ran Gwahaniaethu ar Sail Oedran mewn Pensiynau Diffoddwyr Tân yng Nghymru 2023

Dyddiad cyhoeddi: 31 Mawrth 2023

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 23 Mehefin 2023

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

OGL © Hawlfraint y Goron

## Trosolwg

Rydym yn ymgynghori ar ddiwygiadau i gynlluniau pensiwn diffoddwyr tân yng Nghymru i roi rhwymedi ôl-weithredol ar waith, gan roi'r holl aelodau yn ôl yn eu cynlluniau gwaddol ar gyfer y cyfnod 2015-22 a chynnig dewis o nail ai gynllun gwaddol neu fuddion cynllun 2015 i aelodau, yn unol â Deddf Pensiynau'r Sector Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol 2022. Mae hyn yn effeithio ar yr holl ddiffoddwyr tân yng Nghymru oedd yn cael eu cyflogi yn y capasiti hwnnw rhwng 31 Mawrth 2012 a 1 Ebrill 2015.

Mae'r newidiadau yn rhan o becyn o fesurau o dan oruchwyliaeth Llywodraeth y DU i fynd i'r afael â'r gwahaniaethu ar sail oedran mewn cynlluniau pensiwn sector cyhoeddus y mae'r Llysoedd wedi barnu eu bod yn bodoli. Er bod gan Weinidogion Cymru swyddogaethau o ran pensiynau diffoddwyr tân, mae pensiynau galwedigaethol yn gyffredinol yn fater a gadwyd yn ôl, sydd y tu allan i bwerau Senedd Cymru. Felly, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru weithredu'r polisi a adlewyrchir yn y Ddeddf.

## Sut i ymateb

Er mwyn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, llenwch y ffurflen ar-lein sydd ar gael yma:

https://www.llyw.cymru/diwygio-cynlluniau-pensiwn-diffoddwyr-tan-yng-nghymru-2023

Fel arall, gall ymatebwyr ddefnyddio'r ffurflen ymateb ar wahân a ddarperir, a'i hanfon drwy e-bost i
fire@gov.wales neu ei hanfon i'r cyfeiriad isod.

Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw 23 Mehefin 2023.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

## Manylion Cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth:

Y Gangen Gwasanaethau Tân
Llywodraeth Cymru
Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

E-bost: fire@gov.wales

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd: Hypergyswllt

## Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

e-bost:
dataprotectionofficer@llwy.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
Ffôn: 0303 123 1113

Gwefan: https://ico.org.uk/

## Cynnwys


**Cyflwyniad** ... 6

**1. Aelodaeth o gynlluniau** ... 12

**2. Cyfraniadau** ... 16

**3. Dulliau dewis** ... 22

**4. Ymddeol ar sail afiechyd** ... 30

**5. Goroeswyr a buddion i oroeswyr** ... 37

**6. Buddion pensiwn ychwanegol** ... 45

**7. Ysgaru a diddymu** ... 48

**8. Trosglwyddiadau rhwng cynlluniau** ... 55

**9. Materion amrywiol** ... 62

**10. Casgliad** ... 64

**Rhestr Termau** ... 66

## Cyflwyniad

1. Cyflwynodd Deddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 ("Deddf 2013") ddiwygiadau cynhwysfawr i holl bensiynau'r sector cyhoeddus ym Mhrydain Fawr. Y nod cyffredinol oedd lleihau cost y pensiynau hyn i'r pwrs cyhoeddus, drwy gyflwyno cynlluniau newydd ag oedran pensiwn arferol uwch i bob gwas cyhoeddus, a darparu y câi buddion yn y cynlluniau hynny eu cyfrifo ar sail enillion ailbrisiedig cyfartaledd gyrfa (CARE) yn hytrach na chyflog terfynol. Roedd Deddf 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i'r DU neu (fel y bo'n briodol) y llywodraethau datganoledig lunio rheoliadau yn sefydlu cynlluniau newydd o'r fath a fyddai'n weithredol o 1 Ebrill 2015, pan fyddai'r cynlluniau presennol yn cau, fel na allai'r aelodau gronni unrhyw bensiwn ynddynt mwyach (ond gan ystyried yr eithriadau a ddisgrifir gennym isod).

2. Mae pensiynau diffoddwyr tân yng Nghymru yn unigryw am eu bod wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru. Felly, Gweinidogion Cymru oedd yn gyfrifol am lunio rheoliadau i sefydlu cynllun newydd ar gyfer diffoddwyr tân a gyflogir yng Nghymru. Caiff Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015 ("Cynllun 2015") ei lywodraethu gan Reoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015[1] ("Rheoliadau 2015"), a ddaeth i rym ar 1 Ebrill y flwyddyn honno, yn unol â gofynion Deddf 2013.

3. Cyn 2015 roedd dau gynllun pensiwn ar gyfer diffoddwyr tân yng Nghymru ac roedd y ddau ohonynt yn cyfrifo buddion ar sail cyflog terfynol:

    a. Y cynllun a sefydlwyd gan Orchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992[2] ("Cynllun 1992"), a oedd ar agor i unrhyw un a ddechreuodd weithio fel diffoddwr tân cyn 1 Ionawr 2006. Oedran pensiwn arferol y cynllun hwn yw 55 oed a gellir cronni hyd at 30 o flynyddoedd o wasanaeth, ond gall llawer o ddiffoddwyr tân ymddeol o 50 oed ymlaen gan fod y cynllun yn caniatáu *croniad dwbl* o wasanaeth ar ôl 20 mlynedd.

    b. Y cynllun a sefydlwyd gan Orchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007[3] ("Cynllun 2007"), a oedd ar agor i unrhyw un a oedd wedi ymuno ar neu ar ôl 1 Ionawr 2006. Oedran pensiwn arferol y cynllun hwn yw 60 oed ac mae ganddo gyfradd gronni is na Chynllun 1992. Mae hefyd yn cynnwys "cynllun wedi'i addasu" ar gyfer diffoddwyr tân wrth gefn ("yn ôl y galw") sydd, i bob pwrpas, yn efelychu telerau Cynllun 1992 ar gyfer staff o'r fath.

### Diogelwch trosiannol

4. Roedd Adran 18 o Ddeddf 2013 hefyd yn caniatáu i reoliadau eithrio categorïau penodol o weithwyr o'r gofyniad i ymuno â Chynllun 2015 a gadael iddynt aros yn eu cynllun presennol – neu, i ddefnyddio'r jargon, eu bod yn cael "diogelwch trosiannol". Cynigiodd cytundeb rhwng y Trysorlys a Chyngres yr Undebau Llafur y dylai'r diogelwch hwn fod ar gael i'r rhai a oedd agosaf at oedran ymddeol yn eu cynlluniau presennol, am ei bod yn bosibl eu bod eisoes wedi gwneud cynlluniau ar gyfer ymddeol ac y

[1] OS 2015 rhif 622 / Cy.50
[2] OS 1992 rhif 129
[3] OS 2007 rhif 1072 / Cy.110

byddai ganddynt lai o amser i addasu i delerau'r cynlluniau newydd a oedd yn llai manteisiol yn gyffredinol.

5. Yn unol â hynny, darparodd Rheoliadau 2015 y byddai unrhyw un a oedd yn aelod actif o gynllun ar 1 Ebrill 2012 ac yn 45 oed neu'n hŷn ar y dyddiad hwnnw yn aros yn ei gynllun blaenorol yn barhaol ("diogelwch llawn"); ac y byddai unrhyw aelod actif o gynllun a oedd rhwng 41 a 44 oed ar y dyddiad hwnnw'n trosglwyddo'n raddol i mewn i'r cynllun newydd dros gyfnod o bum mlynedd o 2015 ("diogelwch taprog"). Cafwyd darpariaethau tebyg ym mhob un o gynlluniau newydd eraill y sector cyhoeddus ond roedd y meini prawf oedran yn amrywio yn ôl oedrannau pensiwn arferol y cynlluniau presennol.

6. Fodd bynnag, bu'r polisi hwn o ddiogelwch trosiannol yn seiliedig ar oedran yn destun her gyfreithiol. Yn achosion McCloud ac eraill v Yr Arglwydd Ganghellor ac un arall (a gafodd ei ddwyn gan grŵp o farnwyr) a Sargeant ac eraill v Comisiynydd Tân Llundain ac eraill (a gafodd ei ddwyn gan grŵp o ddiffoddwyr tân), dadleuodd yr hawlwyr fod y polisi yn gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol anghyfreithlon ar sail oedran (ac yn achos Sargeant, gwahaniaethu anuniongyrchol ar sail rhyw a hil). Gwrandawodd y Tribiwnlys Cyflogaeth ar yr achosion ar wahân ar ddechrau 2017 ond gwnaethant ymuno â'i gilydd yn ystod camau cyfreithiol dilynol. Er i'r Tribiwnlys Cyflogaeth ddyfarnu o blaid y diffynyddion yn achos Sargeant, cafodd y dyfarniad hwnnw ei wrthdroi'n rhannol gan y Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth a'i wrthdroi'n gyfan gwbl gan y Llys Apêl[4], a ddyfarnodd fod diogelwch trosiannol seiliedig ar oedran, fel y'i rhoddwyd ar waith, yn arwain at wahaniaethu anghyfreithlon.

## Y rhwymedi

7. Cafodd y cwestiwn ynghylch y rhwymedi yr oedd gan yr hawlwyr hawl iddo ei ailgyfeirio at y Tribiwnlys Cyflogaeth gan y Llys Apêl. Mae'r achos hwnnw bellach wedi dirwyn i ben, drwy setliad y tu allan i'r llys ym mis Hydref 2022. Dim ond y colledion uniongyrchol a'r anaf i deimladau yr oedd yr hawlwyr wedi'u dioddef y gwnaeth y setliad hwnnw ymdrin â nhw. Mae gan yr hawlwyr hynny a phawb arall y gwahaniaethwyd yn eu herbyn yr hawl hefyd i rwymedi ehangach, fel a ganlyn:

   a. Mae hawl ganddynt ddychwelyd i'w cynllun blaenorol, a chael eu trin fel pe na baent wedi'i adael ym mis Ebrill 2015.

   b. Bydd y rhwymedi hwnnw ar gael i'r hawlwyr yn yr achos a holl aelodau eraill y cynllun sydd mewn sefyllfa debyg (h.y., y rhai a oedd mewn gwasanaeth ar 1 Ebrill 2012 a 1 Ebrill 2015, ond a oedd yn rhy ifanc ar y dyddiad cyntaf i fod yn gymwys i gael diogelwch llawn). Cyfeiriwn at y rhain fel yr "aelodau yr effeithir arnynt" yng ngweddill y ddogfen hon.

   c. Fodd bynnag, gall Cynllun 2015 fod yn well i rai unigolion, yn dibynnu ar eu hamgylchiadau a'u dewisiadau personol[5]. Felly, rhaid i'r holl aelodau yr effeithir

[4] [2018] EWCA Civ 2844

[5] Er enghraifft, mae gan Gynllun 2015 gyfradd is o gyfraniadau cyflogeion na Chynllun 1992 ac nid oes cap ar bensiwn cronedig. Mae hefyd yn talu buddion i ystod ehangach o oroeswyr aelodau o'r cynllun a fu farw, ond mae ganddo oedran pensiwn arferol uwch a chaiff ei gyfrifo ar sail CARE, nid cyflog terfynol. O gymharu â Chynllun 2007, mae

arnynt gael dewis rhwng Cynllun 2015 a'r cynllun yr oeddent yn aelodau ohono cyn 1 Ebrill 2015 (y cyfeiriwn ato isod fel y “cynllun etifeddol”).

d. Am yr un rhesymau, rhoddir yr un dewis i aelodau yr oedd ganddynt ddiogelwch llawn yn 2015.

e. Ni fydd rhwymedi ar gael i unrhyw un a ddechreuodd weithio ar neu ar ôl 1 Ebrill 2012 gan y byddent neu y dylent fod wedi bod yn ymwybodol o'r newidiadau i'r cynllun pan wnaethant ymuno.  Mae'r un peth yn wir ar gyfer y rhai hynny a adawodd eu swyddi ar neu cyn 31 Mawrth 2015. Nid ydynt wedi profi unrhyw wahaniaethu.

8. Gan fod y broblem yn effeithio ar bob un o gynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus, caiff y fframwaith polisi cyffredinol ei gydlynu gan y Trysorlys. Penderfynodd fod y nod gwreiddiol o leihau cost pensiynau'r sector cyhoeddus yn ddilys o hyd; a bod yn rhaid i holl aelodau cynlluniau (gan gynnwys y rhai yr oedd ganddynt ddiogelwch yn 2015) drosglwyddo i Gynlluniau 2015 o 1 Ebrill 2022.  Yn amlwg, nid oedd unrhyw ddiogelwch trosiannol ar yr achlysur hwn. Mae hyn yn golygu y caiff holl aelodau cynlluniau pensiwn y gwasanaethau cyhoeddus eu trin yn yr un ffordd yn y dyfodol.

9. Felly, ceir “cyfnod rhwymedi” rhwng 1 Ebrill 2015 a 1 Ebrill 2022.  Bydd yr holl aelodau yr effeithir arnynt yn dychwelyd yn awtomatig i'w cynlluniau etifeddol am y cyfnod hwnnw, a chaiff eu hawliadau a'u cyfraniadau pensiwn eu cyfrifo'n unol â hynny.  Fodd bynnag, wrth ystyried y pensiwn a gânt yn y pen draw, bydd hawl ganddynt hefyd i benderfynu a ddylai eu gwasanaeth yn ystod cyfnod y rhwymedi gael ei drin fel gwasanaeth yng Nghynllun 2015 neu eu cynllun etifeddol.

10. Yn ogystal, ymgynghorodd y Trysorlys yn helaeth yn ystod hydref 2020[6] ar y ffordd y gallai aelodau wneud y penderfyniad hwn.  Yr opsiynau oedd “dewis uniongyrchol”, h.y., penderfyniad a wneir ar ôl i'r ddeddfwriaeth berthnasol ddod i rym, a “dewis gohiriedig”, h.y., dewis a wneir wrth ymddeol.  Roedd hi'n amlwg bod yr ymatebwyr yn ffafrio'r opsiwn dewis gohiriedig, am ei fod yn galluogi aelodau cynlluniau i wneud penderfyniadau ar sail sicrwydd am y buddion yr oedd ganddynt hawl iddynt o dan eu cynllun etifeddol a Chynllun 2015.  Byddai dewis uniongyrchol, ar y llaw arall, yn ei gwneud yn ofynnol i ddiffoddwyr tân wneud tybiaethau am eu gyrfaoedd yn y dyfodol a digwyddiadau eraill yn ystod eu bywyd, ac roedd risg y gallai'r opsiwn hwn wahaniaethu yn erbyn diffoddwyr tân ifanc a fyddai'n gorfod gwneud mwy o dybiaethau o'r fath ac a fyddai, felly, yn fwy tebygol o beidio â gwneud y dewis gorau. Dyma hefyd oedd ffafriaeth glir holl aelodau Bwrdd Cynghori ar Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân Cymru[7].  Yn unol â hynny, cyhoeddodd Prif Ysgrifennydd y Trysorlys ym mis Chwefror 2021 y câi'r dewis gohiriedig ei fabwysiadu ar gyfer pob cynllun.

11. Ers hynny, mae Senedd y DU wedi pasio Deddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol 2022 (“Deddf 2022”) er mwyn gweithredu'r diwygiadau hyn, a'i gwneud

---

ganddo gyfradd uwch o gyfraniadau ond mae ganddo hefyd gyfradd gronni uwch, a chyfraddau is o ostyngiadau actiwaraidd ar gyfer pensiynau a gymerwyd cyn oedran pensiwn arferol.

[6] Mae'r ymgynghoriad ar gael yma.

[7] Hynny yw, y tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru; Undeb y Brigadau Tân; Cymdeithas yr Arweinwyr Tân; Cymdeithas y Swyddogion Tân; a Chymdeithas y Gwasanaethau Tân ac Achub.

yn ofynnol i "awdurdodau cyfrifol" (h.y., Gweinidogion Cymru, mewn perthynas â phensiynau diffoddwyr tân yng Nghymru) wneud y newidiadau angenrheidiol i reolau cynlluniau pensiwn, neu eu grymuso i wneud hynny. Mae Deddf 2022 hefyd yn grymuso'r Trysorlys i wneud cyfarwyddiadau ar sut y mae'n rhaid diwygio rheolau cynlluniau o dan lawer o amgylchiadau.

12. Mater i'r Trysorlys a Llywodraeth a Senedd San Steffan yw ffurf gyffredinol y rhwymedi a'r diwygiadau eraill. Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am lunio a diwygio rheolau cynlluniau pensiwn diffoddwyr tân yng Nghymru. Fodd bynnag, mae pensiynau galwedigaethol yn gyffredinol, gan gynnwys y rhai ar gyfer diffoddwyr tân, yn fater a gedwir yn ôl sydd y tu hwnt i gymhwysedd y Senedd (sy'n golygu na all basio deddfwriaeth sylfaenol yn y maes hwnnw). Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru weithredu safbwynt y Trysorlys fel y'i hadlewyrchir yn Neddf 2022 ac mewn cyfarwyddiadau[8] a wneir gan y Trysorlys oddi tani. Ni chânt, er enghraifft, benderfynu na fydd cynlluniau etifeddol yn cau, y dylai'r rhwymedi fod ar gael i'r rhai a ymunodd ar ôl 31 Mawrth 2012, neu y dylai dull dewis arall fod ar gael i'r aelodau yr effeithir arnynt. Nid yw'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar y materion hyn a materion eraill nad oes gan Weinidogion Cymru unrhyw ddisgresiwn yn eu cylch, ac ni fyddai modd i Weinidogion Cymru ystyried unrhyw farn o'r fath a ddaw i law. Cafodd y ddogfen hon ei drafftio cyn i Ganghellor y Trysorlys gyflwyno Cyllideb 2023 ar 15 Mawrth. Roedd y gyllideb honno yn cynnwys rhai newidiadau sylweddol i'r hawl i bensiynau a'r ffordd y codir trethi arnynt. Nid ydym o'r farn ar hyn o bryd bod hyn yn effeithio ar ein cynigion mewn unrhyw ffordd uniongyrchol, ond byddwn yn sicrhau bod ein rheoliadau terfynol yn ystyried y newidiadau yn y Gyllideb fel sy'n briodol.

13. Ar y cyfan, felly, mae tair prif elfen i'r pecyn rhwymedi:

    a. Trosglwyddo'r holl aelodau sydd ar ôl yn y cynlluniau etifeddol i mewn i Gynllun 2015 ar 1 Ebrill 2022. Mae hyn eisoes wedi'i wneud, o dan Reoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Diwygio) 2022, y gwnaethom ymgynghori arnynt yn ystod hydref 2021.
    b. Dychwelyd yr aelodau yr effeithir arnynt i'w cynlluniau etifeddol am gyfnod y rhwymedi, ac ymdrin â chanlyniadau hynny;
    c. Sefydlu'r dulliau y gall aelodau yr effeithir arnynt eu defnyddio, ar adeg ymddeol (neu ar unwaith, os byddant eisoes wedi ymddeol), i ddewis y cynllun sy'n gymwys i'w gwasanaeth yn ystod cyfnod y rhwymedi, a darparu ar gyfer canlyniadau dewisiadau o'r fath.

14. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â'r ail a'r drydedd elfen. Bydd yn effeithio ar bob diffoddwr tân yng Nghymru a gyflogwyd yn y rhinwedd honno rhwng 31 Mawrth 2012 ac 1 Ebrill 2015 gan gynnwys y dyddiadau hynny, neu sydd wedi cael seibiant gwasanaeth o lai na 5 mlynedd sy'n cynnwys un o'r dyddiadau hynny neu'r ddau. Rydym yn cyfeirio at yr unigolion hyn fel **aelodau â hawl** (hynny yw, bod ganddynt yr hawl i'r rhwymedïau a gynigir yn yr ymgynghoriad hwn) ac yn amcangyfrif eu bod yn cynnwys tua 69% o'r diffoddwyr tân sy'n gweithio ar hyn o bryd yng Nghymru. Yn gryno, bydd yr effeithiau fel a ganlyn.

---

[8] Mae Cyfarwyddiadau Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus (Arfer Pwerau, Digolledid a Gwybodaeth) 2022 ar gael yma.

| Dyddiad ymuno | Dyddiad gadael | Oedran ar 1/4/2012 | Aelodaeth yn ystod cyfnod y rhwymedi | Aelodaeth ar ôl cyfnod y rhwymedi | Dewis wrth ymddeol |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyn 1/4/2012 | Ar neu ar ôl 1/4/2015 (“aelodau â hawl”) | 45 neu'n hŷn (“aelodau a ddiogelir yn llawn”) | Cynllun etifeddol (heb newid) | Cynllun 2015 (drwy drosglwyddiad rhagolygol) | ***Opsiwn o fod yn aelod o Gynllun 2015 neu'r cynllun etifeddol yn ystod cyfnod y rhwymedi*** |
| Cyn 1/4/2012 | Ar neu ar ôl 1/4/2015 (“aelodau â hawl”) | 44 neu'n iau (“aelodau yr effeithir arnynt”) | ***Cynllun etifeddol (drwy ddychwelyd yn ôl-weithredol)*** | Cynllun 2015 (heb newid) | ***Opsiwn o fod yn aelod o Gynllun 2015 neu'r cynllun etifeddol yn ystod cyfnod y rhwymedi*** |
| Ar neu ar ôl 1/4/2012 | Unrhyw oed | Unrhyw oed (“aelodau nas effeithir arnynt”) | Cynllun 2015 (heb newid) | Cynllun 2015 (heb newid) | Dim |
| Unrhyw oed | Cyn 1/4/2015 | Unrhyw oed (“aelodau nas effeithir arnynt”) | Cynllun etifeddol (heb newid) | Cynllun etifeddol (heb newid) | Dim |

15. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â'r cynigion a ddangosir mewn coch yn y tabl uchod. Mae gweddill y ddogfen hon yn nodi'r cynigion hynny yn fanwl. Mewn llawer o achosion, dim ond adlewyrchu'r hyn sy'n ofynnol i Weinidogion Cymru ei wneud o dan Ddeddf 2022 neu gyfarwyddiadau'r Trysorlys oddi tani y mae ein cynigion; ac er ein bod yn disgrifio'r cynigion hynny yn llawn, nid ydym yn gofyn am sylwadau arnynt gan nad oes modd i ni eu newid. Mae cwestiynau'r ymgynghoriad yn canolbwyntio ar y materion hynny lle rydym yn cynnig arfer y pwerau disgresiwn y mae Deddf 2022 yn eu rhoi i Weinidogion Cymru.

## Rheoliadau drafft

16. Mae copi drafft o'r rheoliadau a fyddai'n gweithredu rhai o'r cynigion hyn wedi'i atodi i'r ymgynghoriad hwn, ac mae gweddill yr ymgynghoriad hwn yn cyfeirio at ddarpariaethau penodol ynddynt fel y bo'n briodol. Er mai dim ond fersiwn Saesneg sydd ar gael o'r rheoliadau drafft, bydd y rheoliadau terfynol ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

17. Ni fu'n bosibl cwblhau'r broses o ddrafftio'r rheoliadau hyn yn llawn cyn dechrau'r ymgynghoriad hwn, a hynny o ganlyniad i gymhlethdod a chwmpas sylweddol y rhwymedi a gynigir gennym, ac oherwydd bod y polisi manwl mewn perthynas â rhai materion yn parhau i gael ei drin a'i drafod ymhell i mewn i 2023. Credwn ei bod hi'n well rhoi rhybudd priodol ymlaen llaw o'n cynigion i aelodau cynlluniau, rheolwyr cynlluniau a phartïon eraill â diddordeb, a chyfle llawn i'w hystyried, nag oedi dechrau ein hymgynghoriad. Byddai hynny'n golygu cynnig cyfnod ymgynghori llawer byrrach er

mwyn bodloni'r amserlen statudol ar gyfer cyflwyno'r rheoliadau (gweler isod).

18. Yn unol â hynny, mae'r rheoliadau drafft amgaeedig yn ymdrin â'r rhan fwyaf o'n cynigion, gan gynnwys pob mater a fydd yn effeithio, neu a allai effeithio, ar bob aelod neu'r rhan fwyaf o aelodau sydd â hawl i'r rhwymedi, megis aelodaeth o gynlluniau, cyfraniadau a dulliau dewis. Nid yw'n ymdrin â'n cynigion ar gyfer ysgaru na throsglwyddiadau rhwng cynlluniau, ond mae'r bwriad polisi ar gyfer y meysydd hwn wedi ei nodi ym mhenodau 7 ac 8. Ar ôl cwblhau'r broses o ddrafftio'r rheoliadau hynny, byddwn yn eu rhannu ag aelodau ein Bwrdd Cynghori'r Cynllun.

19. Caiff yr ymgynghoriad hwn ei rannu yn uniongyrchol ag aelodau o Fwrdd Cynghori'r Cynllun yn unol â'n datganiad[9] a wnaed mewn cydymffurfiaeth ag adran 21(2) o Ddeddf 2013.

20. Mae Deddf 2022 yn ei gwneud yn ofynnol bod yn rhaid i'r rheoliadau ddod i rym erbyn 1 Hydref 2023 fan bellaf. Bydd hyn yn golygu y bydd angen eu llunio a'u gosod ger bron Senedd Cymru erbyn 10 Medi 2023 fan bellaf. Bydd y fersiwn derfynol yn ystyried y sylwadau a ddaw i law mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

## Y sefyllfa yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon

21. Dim ond i ddiffoddwyr tân sydd wedi'u cyflogi ar hyn o bryd yng Nghymru, neu a gyflogwyd ddiwethaf yn y rhinwedd honno yng Nghymru cyn iddynt ymddeol neu cyn iddynt adael eu swydd fel diffoddwr tân yn llwyr y mae'r cynigion hyn yn gymwys. Mae'r Swyddfa Gartref yn ymgynghori ar gynigion cymharol debyg i ddiffoddwyr tân yn Lloegr[10], ac mae Llywodraeth yr Alban yn gwneud yr un peth i ddiffoddwyr tân yn yr Alban, felly hefyd Adran Iechyd Gogledd Iwerddon i ddiffoddwyr tân yng Ngogledd Iwerddon. Dylai diffoddwyr tân a wnaeth weithio yng Nghymru yn y gorffennol ond sydd bellach wedi'u cyflogi (neu a oedd wedi'u cyflogi ddiwethaf) fel diffoddwyr tân yn rhan arall o'r DU gyfeirio at yr ymgyngoriadau hyn yn lle hynny.

---

[9] Gellir gweld y datganiad hwn ar wefan Bwrdd Cynghori ar Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân Cymru yma.

[10] Rhwymedi ôl-weithredol Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân - GOV.UK (www.gov.uk)

## 1. Aelodaeth o gynlluniau

22. Rhan annatod o'r rhwymedi yw y bydd pob un o'r aelodau â hawl yn dod yn aelodau o'u cynlluniau etifeddol am gyfnod cyfan y rhwymedi, yn ôl-weithredol. Mae'r broses hon yn awtomatig ac nid oes angen i ddiffoddwyr tân unigol wneud unrhyw benderfyniadau yn ei chylch. Mae Adran 2 o Ddeddf 2022 yn darparu'n uniongyrchol ar gyfer hyn, a bod angen gweithredu fel petai mai dyma fu'r achos erioed.

23. Ar gyfer diffoddwyr tân yr oedd ganddynt ddiogelwch llawn yn 2015, nid yw hyn yn gwneud unrhyw wahaniaeth gan nad oeddent erioed wedi gadael eu cynlluniau etifeddol hyd nes y cafodd pob diffoddwr tân ei drosglwyddo i Gynllun 2015 ar 1 Ebrill 2022. Fodd bynnag, ar gyfer y rhai hynny a gafodd eu trosglwyddo yn 2015, mae hyn yn golygu y byddant yn dychwelyd yn ôl-weithredol i fod yn aelod o'u cynllun etifeddol am gyfnod cyfan y rhwymedi. Mae hyn yn cynnwys aelodau y rhoddwyd diogelwch taprog iddynt yn 2015; mae hyn yr un mor anghyfreithlon â diogelwch llawn, a chaiff ei ddisodli gan aelodaeth lawn o'r cynllun etifeddol am gyfnod y rhwymedi.

24. Mae adran 2 o Ddeddf 2022 yn darparu'n uniongyrchol ar gyfer “dychwelyd yn ôl-weithredol” at gynlluniau etifeddol yn y fath fodd. Mae’r rheoliadau drafft yn diwygio rheolau'r cynllun i fodloni’r bwriad hwn drwy ehangu'r diogelwch llawn i bob aelod â hawl, o'r adeg y cafodd ei gymhwyso gyntaf ar 31 Mawrth 2015 hyd at ddiwedd cyfnod y rhwymedi. Mae’r rheoliadau drafft yn gwneud hyn drwy gyflwyno’r cydsyniad o “aelod rhwymedi” yn ogystal â gwneud diwygiadau canlyniadol fel y darperir ar eu cyfer yn Atodlen 2 o’r rheoliadau drafft.

25. Mae dod yn aelod o'r cynllun etifeddol perthnasol yn ôl-weithredol yn cynnig yr holl hawliadau a dyletswyddau sy'n gysylltiedig ag aelodaeth o'r fath hefyd. Mae hynny'n cynnwys materion fel cyfraddau cyfrannu a chronni, oedrannau pensiwn arferol a'r rheolau sy'n gymwys i ymddeol ar sail afiechyd, setliadau ysgaru a throsglwyddo rhwng cynlluniau. Ymdrinnir â chanlyniadau hynny, a sut rydym yn bwriadu ymateb iddynt, yng ngweddill y ddogfen hon.

26. Yn gyffredinol, caiff y sefyllfa hon ei chreu'n uniongyrchol gan Ddeddf 2022, felly nid ydym yn gofyn am sylwadau yn hyn o beth. Fodd bynnag, mae dau gategori o achosion arbennig yr ydym yn cyflwyno cynigion penodol yn eu cylch, fel a ganlyn.

### Contractau lluosog

27. Mae sefyllfaoedd lle mae gan ddiffoddwyr tân gontractau cyflogaeth lluosog â'r un cyflogwr yn gyffredin. Gallai hyn gynnwys contractau ar wahân ar gyfer dyletswyddau amser cyflawn a dyletswyddau wrth gefn; neu gontract sylfaenol fel diffoddwr tân a chontract ar wahân ar gyfer dyletswyddau arbenigol, er enghraifft fel cyfarwyddwr hyfforddi neu dechnegydd chwilio ac achub trefol (USAR).

28. Gallem ymdrin ag effeithiau hyn ar yr hawl i rwymedi mewn dwy ffordd wahanol. Yn gyntaf, gallem drin pob contract ar wahân, gan nodi mai dim ond y contractau hynny a oedd yn gymwys (h.y. y rhai hynny a oedd ar waith rhwng 31 Mawrth 2012 ac 1 Ebrill 2015 gan gynnwys y dyddiadau hynny) a fyddai'n rhoi hawl i'r rhwymedi. Fel arall, gallem nodi ei fod yn gymwys i bob unigolyn, bod gan unrhyw un a oedd wedi'i gyflogi'n

ddiffoddwr tân yn ystod y cyfnod hwn yr hawl i rwymedi, a bod y rhwymedi hwnnw yn gymwys i bob contract â'r un cyflogwr a oedd yn digwydd bod gan yr unigolyn hwnnw ar unrhyw adeg yn ystod cyfnod y rhwymedi.

29. Rydym o'r farn bod yr ail ddull yn decach, a dyma'r dull a gynigir gennym. Mae hyn gan fod achosion o wahaniaethu yn cael eu profi gan unigolion; ni chaiff achosion o'r fath eu cyfyngu gan ba bynnag drefniadau cytundebol y bydd cyflogwr yn dewis eu mabwysiadu. Mae hyn hefyd yn dileu'r risg y bydd cyflogwyr yn trin unigolion yn wahanol, a hynny'n amhriodol, yn seiliedig ar wahaniaethau yn y trefniadau hynny. Er enghraifft, gallai cyflogwyr ddewis talu am ddyletswydd ychwanegol drwy ddiwygio contract presennol yn hytrach na llunio contract ar wahân.

30. Er enghraifft, ystyriwch fod Diffoddwr Tân A wedi ymuno â'r Gwasanaeth yn ddiffoddwr tân amser cyflawn yn 2010. Ymrwymodd i ail gontract ar gyfer dyletswyddau wrth gefn â'r un cyflogwr yn 2016; ac mae'r ddau gontract yn gyfredol o hyd. O dan ein cynigion, byddai diffoddwr tân A yn dychwelyd i'w gynllun etifeddol (Cynllun 2007 yn yr achos hwn) mewn perthynas â'i gontract amser cyflawn a'i gontract wrth gefn, er mai dim ond yn 2016 y dechreuodd yr ail gontract. Yn fwy penodol, byddai gwasanaeth o dan y ddau gontract yn wasanaeth rhwymediadwy at ddibenion Deddf 2022 a'n rheoliadau. Rhaid i hynny ddigwydd oherwydd pe byddai cyflogwr Diffoddwr Tân A wedi diwygio ei gontract presennol er mwyn cynnwys y dyletswyddau wrth gefn hefyd yn lle hynny, ni fyddai unrhyw amheuaeth fod ei wasanaeth o dan y contract cyfan yn wasanaeth rhwymediadwy.

31. Fodd bynnag, ni fyddai'r cynigion hyn yn effeithio ar unrhyw gontractau nad oes unrhyw gyflog pensiynadwy yn gysylltiedig â nhw, am y rheswm amlwg nad yw aelodaeth o gynllun pensiwn yn berthnasol iddynt. Yn gyffredinol, mae hyn yn berthnasol i gontractau cyfnod penodol byr, y dyfarnwyd nad yw taliadau oddi tanynt yn bensiynadwy[11]. Ni fyddai'n berthnasol ychwaith i gontractau lluosog â gwahanol gyflogwyr. Er enghraifft, pe byddai Diffoddwr Tân A wedi ymrwymo i gontract ar gyfer dyletswyddau wrth gefn ag Awdurdod Tân ac Achub gwahanol yn 2016, yna ni fyddai'r contract hwnnw wedi dychwelyd i'r cynllun etifeddol.

> ***Cwestiwn 1 yr ymgynghoriad***
>
> I ba raddau rydych chi'n cytuno â'n cynnig lle roedd gan aelod â hawl gontractau cyflogaeth lluosog â'r un cyflogwr yn ystod cyfnod y rhwymedi, y dylai'r rhwymedi fod yn berthnasol i'r holl gontractau hynny, ni waeth pryd yr ymrwymwyd iddynt?

## Aelodau sydd wedi optio allan

32. Mae gan unrhyw aelod o gynllun pensiwn diffoddwyr tân yr hawl i optio allan o fod yn aelod ohono ar unrhyw adeg. Mae hyn yn dileu'r rhwymedigaeth i dalu cyfraniadau i mewn i'r cynllun ond mae hefyd yn golygu'n naturiol na fydd yr unigolyn yn cronni

[11] Gweler Booth ac eraill v Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, [2019] EWHC 790 (Ch)

unrhyw fuddion pellach yn y cynllun y mae wedi'i adael.

33. Gall diffoddwyr tân optio allan o fod yn aelod o gynllun am unrhyw reswm, ac mae hynny'n digwydd. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol bod rhai aelodau yr effeithiodd yr achos o wahaniaethu ar sail oedran a nodwyd yn achos Sargeant arnynt wedi dewis optio allan o fod yn aelod o Gynllun 2015 ar ôl iddynt gael eu trosglwyddo'n amhriodol iddo yn 2015, gan eu bod o'r farn bod telerau'r cynllun hwnnw yn annigonol neu'n annheg. Yn ystod cyfnod y rhwymedi, dewisodd dros 300 o ddiffoddwyr tân i optio allan o fod yn aelod o Gynllun 2015, yr oedd gan tua 30 ohonynt, yn ôl pob tebyg, ddigon o wasanaeth i fod yn gymwys ar gyfer y rhwymedi ac i fod â'r hawl i optio i mewn eto.

34. Mae Adran 5 o Ddeddf 2022 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth yn rheolau'r cynllun i ganiatáu i bobl o'r fath optio i mewn i fod yn aelod o'u cynlluniau etifeddol eto yn ôl-weithredol, o'r adeg y gwnaethant optio allan hyd at ddiwedd cyfnod y rhwymedi. Byddai hyn yn eu dychwelyd i'r sefyllfa y byddent wedi bod ynddi pe na fyddent wedi cael eu trosglwyddo'n amhriodol yn 2015. Yn amlwg, mae optio i mewn eto yn creu rhwymedigaeth i dalu'r cyfraniadau a fyddai wedi bod yn daladwy pe na fyddai'r unigolyn wedi optio allan.

35. Rhaid i ddiffoddwr tân sydd wedi optio allan o dan yr amgylchiadau hyn benderfynu a ddylai optio i mewn eto ai peidio; nid oes unrhyw broses ddychwelyd awtomatig fel y broses ar gyfer aelodau na wnaethant optio allan. Er mwyn llywio'r penderfyniad hwnnw, rhaid i reolwyr cynlluniau anfon “datganiad o wasanaeth rhwymediadwy” (gweler hefyd baragraffau 184 i 185 isod) yn nodi eu buddion pe byddent yn optio i mewn, a'r cyfraniadau a fyddai'n daladwy os byddant yn dewis gwneud hynny. Wedyn, byddai gan bob unigolyn hyd at flwyddyn o ddyddiad y datganiad hwnnw i benderfynu a ddylai arfer yr hawl honno, drwy hysbysu rheolwr y cynllun yn ysgrifenedig. Ar ôl blwyddyn, byddai'r hawl yn dod i ben pe na fyddai'r unigolyn wedi ei harfer.

36. Mae'r cynigion hyn wedi'u llywio'n uniongyrchol gan y gofynion yn Adran 5 o Ddeddf 2022; a byddai rheoliadau 5 i 9 o'n drafft yn eu gweithredu. Mae Deddf 2022 hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru osod amodau a chyfyngiadau ar yr hawl i optio i mewn eto (ond nid yw'n ei gwneud yn ofynnol iddynt wneud hynny). Yn arbennig, mae'n caniatáu i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i'r rhai hynny sy'n awyddus i optio i mewn eto brofi bod eu rhesymau gwreiddiol dros optio allan yn gysylltiedig â'r gwahaniaethu a brofwyd ganddynt.

37. Nid ydym yn cynnig y dylid creu unrhyw ofyniad o'r fath. Nid oes rhaid i ddiffoddwyr tân roi unrhyw reswm dros optio allan, ac mae llawer yn dewis peidio â gwneud. Felly byddai'n anodd iddynt brofi'n ôl-weithredol eu bod wedi optio allan oherwydd achos o wahaniaethu ar sail oedran, a'r unig ffordd o wneud hynny fyddai gwneud datganiad syml mai dyna a ddigwyddodd. Yn yr un modd, byddai'n anodd os nad yn amhosibl i reolwr cynllun wrthbrofi datganiad o'r fath. Felly byddai angen amser ac adnoddau i roi'r broses hon ar waith, heb unrhyw fudd amlwg. Yn hytrach, rydym yn cynnig yn syml y dylid rhoi'r hawl i unrhyw aelod yr effeithir arno a optiodd allan o fod yn aelod o Gynllun 2015 yn ystod cyfnod y rhwymedi optio i mewn eto i fod yn aelod o'i gynllun etifeddol, heb fod angen dangos y rhesymau dros y penderfyniad gwreiddiol.

38. Nid ydym yn cynnig ychwaith y dylid gwneud unrhyw ddarpariaeth arbennig ar gyfer y rhai hynny a optiodd allan cyn i Gynllun 2015 ddod i rym, boed hynny am nad oeddent yn cytuno â'i delerau ai peidio. Mae hynny oherwydd bod pawb sy'n optio allan o gynllun pensiwn galwedigaethol yn cael eu hailgofrestru yn y cynllun hwnnw neu gynllun dilynol 3 blynedd yn ddiweddarach, o dan Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol a Phersonol (Cofrestru Awtomatig) 2010[12]. Ar yr adeg honno, gallant ddewis optio allan eto os byddant am wneud hynny, a byddai hynny bellach yn sbarduno'r hawl i optio i mewn i'r cynllun etifeddol eto yn ôl-weithredol, fel y cynigir gennym uchod. Er enghraifft, byddai rhywun a optiodd allan o fod yn aelod o'i gynllun etifeddol ddiwedd 2014, gan nad oedd yn fodlon ar delerau Cynllun arfaethedig 2015, yn cael ei ailgofrestru'n awtomatig yng Nghynllun 2015 ddiwedd 2017. Pe byddai'n dewis optio allan eto, byddai gan yr unigolyn hwnnw bellach yr hawl i optio i mewn i'w gynllun etifeddol eto am gyfnod cyfan y rhwymedi, ond nid am unrhyw gyfnod cyn hwnnw.

***Cwestiwn 2 yr ymgynghoriad***

I ba raddau rydych chi'n cytuno â'n cynnig y dylai fod gan bob aelod yr effeithir arno a optiodd allan o fod yn aelod o Gynllun 2015 yn ystod cyfnod y rhwymedi yr hawl i optio i mewn i'w cynlluniau etifeddol yn ôl weithredol eto, heb orfod dangos pam y gwnaeth optio allan yn wreiddiol?

[12] O.S. 2010 rhif 772

## 2. Cyfraniadau

39. Mae'n ofynnol i bob aelod actif o bob cynllun pensiwn diffoddwyr tân dalu cyfraniadau i mewn i'r cynlluniau hynny, yn gyfnewid am y buddion y byddant yn eu cael adeg ymddeol. Fel arfer, telir cyfraniadau o'r fath drwy ddidyniadau awtomatig o gyflog yr aelod. Mae'r cyfraddau yn amrywio yn ôl lefel cyflogau, felly bydd aelodau ar gyflogau uwch yn talu cyfran uwch o'u cyflog mewn cyfraniadau.

40. Mae cyfraddau cyfraniadau cyflogeion hefyd yn amrywio rhwng y tri chynllun. Cynllun 1992 (a'r cynllun wedi'i addasu ar gyfer diffoddwyr tân wrth gefn) sydd â'r cyfraddau cyfraniadau uchaf a Chynllun 2007 sydd â'r rhai isaf, ac mae Cynllun 2015 yn agosach at yr un cyntaf na'r ail un.

41. Oherwydd hynny, mae dychwelyd aelodau yr effeithir arnynt yn ôl-weithredol i'w cynlluniau etifeddol o reidrwydd yn golygu y bydd pob un ohonynt wedi talu'r lefel anghywir o gyfraniadau yn ystod cyfnod y rhwymedi. Bydd y rhai hynny sy'n dychwelyd i Gynllun 1992 wedi talu cyfradd cyfraniadau rhy isel, ond bydd y rhai hynny sy'n dychwelyd i Gynllun 2017 wedi talu cyfradd rhy uchel.

42. Er enghraifft, mae aelod actif amser cyflawn ar radd diffoddwr tân cymwys yn ennill £32,244 y flwyddyn ar hyn o bryd[13]. Mae hynny'n cyfateb i gyfradd cyfraniadau o 12.9% yng Nghynllun 2015, 14.7% yng Nghynllun 1992 a 10.9% yng Nghynllun 2007. Gan dybio at y dibenion hyn na wnaeth y cyflog na'r cyfraddau cyfraniadau newid yn ystod cyfnod y rhwymedi (nad yw'n wir, ond nad yw'n newid egwyddor y broses gyfrifo), byddai diffoddwr tân a gafodd ei drosglwyddo'n amhriodol o Gynllun 1992 wedi tandalu tua £4,062.74[14] o gyfraniadau yn ystod cyfnod y rhwymedi. Ar y llaw arall, byddai diffoddwr tân a gafodd ei drosglwyddo'n amhriodol o Gynllun 2007 wedi gordalu tua £4,514.16[15] o gyfraniadau.

43. Fel egwyddor gyffredinol, y nod yw dileu'r anomaleddau hyn, er mwyn sicrhau bod aelodau yn talu'r cyfraniadau y byddent wedi'u talu pe na fyddent erioed wedi gadael y cynllun etifeddol. Lle ceir diffyg mewn cyfraniadau, bydd angen i'r aelod ad-dalu'r swm hwnnw i reolwr y cynllun; a lle ceir gwarged, bydd angen i reolwr y cynllun ad-dalu'r swm hwnnw i'r aelod. Fel gyda phob swm sy'n ddyledus o ganlyniad i'r rhwymedi, bydd llog yn daladwy ar y symiau hyn, a gaiff ei gyfrifo'n unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys.

44. Fodd bynnag, mae dau ffactor sy'n cymhlethu pethau wrth gyfrifo'r llog hwn. Yn gyntaf, ni chodir treth incwm ar gyfraniadau pensiwn; cânt eu didynnu o'r cyflog cyn cymhwyso trethiant. Mae hyn yn golygu y bydd unrhyw un sydd wedi tandalu eu cyfraniadau yn ystod cyfnod y rhwymedi (e.e., y rhai hynny sy'n dychwelyd i Gynllun 1992) wedi gordalu eu treth incwm, gan y bydd eu hincwm trethadwy wedi'i orddatgan. Yn yr un modd, bydd unrhyw un sydd wedi gordalu eu cyfraniadau (e.e., y rhai hynny sy'n dychwelyd i Gynllun 2007) wedi tandalu eu treth incwm. Felly bydd angen addasu

[13] Nid yw hyn yn ystyried canlyniad negodiadau cyflog 2022 i ddiffoddwyr tân, a oedd yn mynd rhagddynt o hyd ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon.
[14] Mae cyfradd cyfraniadau Cynllun 2015 1.8% yn is na chyfradd Cynllun 1992 ar gyfer y rhai hynny ar radd diffoddwr tân cymwys. Felly, byddai'r tandaliad dros 7 mlynedd yn cyfateb i £32,244 x 0.018 x 7, neu £4.062.74.
[15] Mae cyfradd cyfraniadau Cynllun 2015 2% yn uwch na chyfradd Cynllun 2007 ar gyfer y rhai hynny ar radd diffoddwr tân cymwys. Felly, byddai'r gordaliad dros 7 mlynedd yn cyfateb i £32,244 x 0.02 x 7, neu £4,514.16.

gwarged neu ddiffyg y cyfraniadau yn ôl y gwahaniaeth rhwng y rhyddhad treth a gafodd pob aelod mewn gwirionedd a'r rhyddhad treth y dylai fod wedi'i gael. Mae adrannau 18 a 23 o Ddeddf 2022 a Chyfarwyddiadau'r Trysorlys yn darparu ar gyfer y dull hwn ar gyfer aelodau gohiriedig ac aelodau sy'n bensiynwyr. Nodwch pan fydd diffyg cyfraniadau mewn cysylltiad ag aelodau actif, nad oes angen gwneud cywiriad at ddibenion rhyddhad treth gan y bydd yr ad-daliadau y bydd yr aelod yn eu gwneud ar gyfer y diffyg eu hunain yn gymwys i gael rhyddhad treth.

45. Mae'n bosibl y bydd angen gwneud cywiriadau hefyd os bydd aelod wedi mynd y tu hwnt i'r terfyn ar gynilion pensiwn blynyddol '(sef y "lwfans blynyddol"') yn ystod cyfnod y rhwymedi, gan olygu y bydd yn atebol i newid treth ychwanegol, ond ni fydd hynny'n wir unwaith y bydd wedi dychwelyd yn ôl-weithredol i'w gynllun etifeddol. Yn yr un modd, efallai y bydd angen gwneud cywiriadau yn y sefyllfa gyferbyniol pan nad oedd aelod wedi mynd y tu hwnt i'r terfyn ar gynilion pensiwn yn ystod cyfnod y rhwymedi ond y bydd yn gwneud hynny pan gaiff ei symud yn ôl i'r cynllun etifeddol o fis Ebrill 2023. Bydd rheoliadau treth a wneir gan Cyllid a Thollau EF yn darparu ar gyfer y diwygiadau sydd eu hangen er mwyn cywiro'r sefyllfa honno ar gyfer y blynyddoedd treth sydd o fewn y cyfnod dan sylw (sef y pedair blynedd cyn gweithredu McCloud ym mis Hydref 2023). Rydym yn cynnig diwygio rheolau'r cynllun er mwyn caniatáu i aelodau ddefnyddio trefniadau taliadau'r Cynllun ar gyfer unrhyw gostau treth Lwfans Blynyddol sy'n gysylltiedig â'r blynyddoedd treth yn y cyfnod dan sylw. Ni wneir cywiriadau ar gyfer aelodau nad ydynt wedi talu'r holl Lwfans Blynyddol sy'n dyledus mewn perthynas â blynyddoedd treth nad ydynt yn y cyfnod dan sylw, ond rydym yn cynnig y byddai iawndal yn cael ei roi ar gyfer unrhyw ordaliadau a wnaed gan aelod yn ystod blynyddoedd nad ydynt yn y cyfnod dan sylw. Gallai hyn fod ar ffurf iawndal arian parod pan fo'r atebolrwydd treth wedi ei dalu yn uniongyrchol yn wreiddiol, neu drwy addasiad i'w bensiwn pan fo aelod wedi defnyddio taliadau'r Cynllun yn wreiddiol.

46. Yn ail, mae Cynllun 1992 (a dim ond y cynllun hwnnw) yn cynnwys nodwedd lle y mae gan unrhyw un sy'n cyrraedd 30 o flynyddoedd o wasanaeth pensiynadwy cyn cyrraedd 50 oed yr hawl i wyliau rhag cyfraniadau (h.y. ni fydd yn talu unrhyw gyfraniadau o gwbl) rhwng y dyddiad y bydd yn cyrraedd 30 o flynyddoedd o wasanaeth a'i ben-blwydd yn 50 oed. Mae hyn oherwydd mai'r uchafswm gwasanaeth pensiynadwy yng Nghynllun 1992 yw 30 o flynyddoedd, ond nid oes modd ymddeol cyn 50 oed, felly ni fyddai'r cyfraniadau rhwng y dyddiadau hynny o unrhyw fudd i'r aelod. Byddai wedi bod gan rai o'r unigolion hynny a ddychwelodd i Gynllun 1992 yr hawl i'r gwyliau hwn rhag cyfraniadau pe na fyddent erioed wedi ei adael, a rhaid ei chymhwyso nawr wrth gyfrifo'r sefyllfa briodol o ran cyfraniadau mewn achosion o'r fath. Gan ddibynnu ar hyd y gwyliau, gall droi diffyg cyfraniadau yn warged.

47. Felly, bydd angen i reolwyr y cynllun gyfrifo'r sefyllfa briodol o ran cyfraniadau ar gyfer pob aelod yr effeithir arno, a gwneud trefniadau i dalu'r gwarged i bob aelod neu i'r aelod ad-dalu'r diffygion. Mae hyn yn debygol o effeithio ar aelodau actif ac aelodau gohiriedig yn arbennig, y bydd pob un ohonynt wedi talu'r gyfradd cyfraniadau anghywir pan fyddant yn dychwelyd i'w cynlluniau etifeddol. Dim ond os byddant yn gwneud dewis uniongyrchol (gweler pennod 3) i ddod yn aelod o gynllun sy'n wahanol i'r cynllun y maent wedi ymddeol ohono y bydd effaith ar aelodau a wnaeth ymddeol yn ystod cyfnod y rhwymedi ac sydd bellach yn cael buddion pensiwn (neu y mae eu goroeswyr yn cael buddion pensiwn). Mewn achosion o'r fath, dylid ailgyfrifo'r cyfraniadau a'r taliadau dilynol ochr yn ochr â dewis uniongyrchol pob aelod, gan netio balans y ddau

yn erbyn ei gilydd. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd aelod a wnaeth ymddeol ar delerau Cynllun 2015 ac sy'n gwneud dewis uniongyrchol i ddychwelyd i Gynllun 1992 yn atebol i ad-dalu diffyg cyfraniadau ond byddai’n gymwys i gael rhyddhad treth ar y cyfraniadau hynny ac mae'n bosibl y bydd hefyd yn dod yn gymwys i gael cyfandaliad uwch adeg ymddeol. Dylid netio'r symiau hyn yn erbyn ei gilydd a thalu'r balans i'r aelod o'r cynllun neu ofyn iddo ei dalu.

48. Os bydd aelod yn gwneud dewis gohiriedig (gweler pennod 3) i fod yn aelod o Gynllun 2015 ar gyfer cyfnod y rhwymedi, yna byddai'n rhaid gwrthdroi'r sefyllfa uchod. Byddai diffyg mewn cyfraniadau y mae'r aelod wedi gwneud iawn amdano yn cael ei ad-dalu i'r aelod, a byddai'n rhaid ad-dalu gwarged a gafodd ei ad-dalu'n wreiddiol i'r aelod i reolwr y cynllun – yn ogystal â llog yn y ddau achos. Fodd bynnag, gweler isod o dan “dewis dangosol” ar gyfer yr amgylchiadau lle nad yw hyn yn gymwys.

49. Mae'r darpariaethau hyn oll yn ofynion uniongyrchol o dan adrannau 14 i 18 o Ddeddf 2022, ac nid ydym yn gofyn am sylwadau yn eu cylch. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau eglurder, rydym wedi eu hailadrodd yn Rhan 7 o'n drafft.

## Cyfraniadau cyflogwyr

50. Mae pob un sy'n cyflogi diffoddwyr tân (h.y. Awdurdodau Tân ac Achub) hefyd yn cyfrannu at gynlluniau pensiwn, unwaith eto ar gyfraddau sy'n amrywio rhwng y tri chynllun. Fodd bynnag, caiff effeithiau'r rhwymedi ar hyn eu hadlewyrchu wrth gynnal prisiadau o Gynllun 2015 yn y dyfodol, a fydd yn ei dro yn ysgogi newidiadau i gyfraddau cyfraniadau cyflogwyr. Nid oes angen yn awr i gywiro cyfraniadau cyflogwyr yn ôl-weithredol ar gyfer aelodau sy'n dychwelyd i'w cynlluniau etifeddol.

## Gwneud ad-daliadau

51. Felly bydd gan y rhan fwyaf o aelodau actif ac aelodau gohiriedig, os nad pob aelod o'r fath, naill ai warged cyfraniadau neu ddiffyg cyfraniadau mewn perthynas â chyfnod y rhwymedi, a gaiff ei gyfrifo fel y nodir uchod. Y naill ffordd neu'r llall, mae angen ei ddileu.

52. Pan fydd gwarged cyfraniadau (h.y. bydd aelod wedi gordalu ei gyfraniadau pensiwn, gan ystyried rhyddhad treth ac unrhyw wyliau rhag cyfraniadau), rydym yn cynnig y dylai fod yn rhaid i reolwr y cynllun ad-dalu'r swm hwnnw, ynghyd â llog, i'r aelod fel cyfandaliad. Byddem yn disgwyl i reolwyr cynlluniau wneud hynny'n brydlon ond nid ydym yn cynnig unrhyw derfyn amser penodol yn hyn o beth. Ni fyddai gan reolwyr cynlluniau yr hawl i ad-dalu gwarged mewn rhandaliadau, nac i'w drin fel gwyliau rhag cyfraniadau neu gredyd pensiwn. Mae hyn oherwydd bod y rhai hynny â hawl i'r rhwymedi wedi profi achos o wahaniaethu ac y dylai fod ganddynt yr hawl i gael y rhwymedi hwnnw cyn gynted â phosibl. Fodd bynnag, o dan rai amgylchiadau, gall yr aelod o'r cynllun ddewis hepgor y cynnig i ad-dalu'r gwarged – gweler isod o dan “dewis dangosol”.

53. Nodwch mai math o iawndal yw gwneud ad-daliadau i aelodau o dan yr amgylchiadau hyn fel y rhagwelwyd gan adran 23 o Ddeddf 2022. Mae darpariaethau'r adran honno, a chyfarwyddiadau'r Trysorlys a roddir mewn perthynas â nhw (sydd i'w gweld yma) yn gosod rhwymedigaeth uniongyrchol ar reolwyr cynlluniau. Nid ydym yn ymgynghori ar y gofynion hynny gan nad ydynt yn fater i Weinidogion Cymru; ond byddwn yn ystyried â rheolwyr cynlluniau a fyddai canllawiau pellach ar eu heffeithiau o fudd.

***Cwestiwn 3 yr ymgynghoriad***

I ba raddau rydych chi'n cytuno â'n cynnig y dylai fod yn ofynnol i reolwyr cynlluniau ad-dalu gwargedion mewn cyfraniadau fel cyfandaliad unigol yn unig?

54. Lle ceir diffyg cyfraniadau, mae'r sefyllfa yn fwy cymhleth. Gall y diffyg hwnnw fod yn filoedd o bunnoedd yn hawdd, ac mae risg y byddwn yn creu caledi go iawn drwy ei gwneud yn ofynnol i aelodau ad-dalu diffygion mawr fel cyfandaliad unigol. Yn hytrach, rydym yn cynnig y dylai fod gan aelodau yr hawl i ad-dalu diffygion naill ai fel cyfandaliad neu mewn rhandaliadau, fel y mynnant. Byddai agen iddynt gytuno ar delerau trefniant ar gyfer ad-dalu mewn rhandaliadau â rheolwr y cynllun, ond ym mhob achos, ni allai'r cyfnod ad-dalu fod yn fwy na 10 mlynedd. Dyma'r un dull gweithredu a'r un amserlen a ddefnyddiwyd gennym adeg cyflwyno'r cynllun wedi'i addasu ar gyfer diffoddwyr tân wrth gefn: roedd gan y rhai hynny a oedd am brynu gwasanaeth yn y gorffennol yn y cynllun hwnnw yr hawl i dalu'r cyfraniadau angenrheidiol mewn rhandaliadau dros gyfnod o hyd at 10 mlynedd. Fodd bynnag, er mwyn lleihau'r beichiau gweinyddol, rydym yn cynnig y dylai fod yn rhaid i'r aelod ad-dalu diffygion o lai na £100 fel cyfandaliad yn unig.

55. Lle bydd yr aelod â diffyg cyfraniadau yn ymddeol ar unrhyw sail (neu'n marw) cyn pen diwedd y cyfnod ad-dalu mewn rhandaliadau, byddai'r balans sy'n ddyledus o hyd yn cael ei ddidynnu o'i gyfandaliad adeg ymddeol neu adeg marwolaeth. Fodd bynnag, nid ydym yn cynnig y byddai gan aelodau unrhyw hawl arall neu hawl fwy cyffredinol i ad-dalu diffyg cyfraniadau o'u cyfandaliadau ymddeol, nac i'w drin fel debyd pensiwn. Byddai hyn, i bob pwrpas, yn rhoi hawl iddynt fasnachu cyfraniadau is am bensiwn is, nad yw'n opsiwn a gynigir i aelodau nas effeithir arnynt o unrhyw gynllun. Gallai ond caniatáu i aelodau yr effeithir arnynt yn unig wneud hynny arwain at honiadau newydd o wahaniaethu ar sail oedran.

***Cwestiwn 4 yr ymgynghoriad***

I ba raddau rydych chi'n chi'n cytuno â'n cynigion y dylid caniatáu i aelodau o gynlluniau â diffyg cyfraniadau ddewis i'w ad-dalu fel cyfandaliad neu (os bydd y diffyg yn £100 o leiaf) mewn rhandaliadau dros gyfnod o hyd at 10 mlynedd?

## Dewis dangosol

56. Fel y nodwyd uchod, mae dychwelyd i gynlluniau etifeddol yn golygu y bydd rhai aelodau wedi gordalu eu cyfraniadau yn ystod cyfnod y rhwymedi. Bydd hyn yn arbennig o wir am y rhai hynny sy'n dychwelyd i Gynllun 2007, y mae ganddo gyfraddau cyfraniadau cyflogeion is na Chynllun 2015. I lawer o aelodau o'r fath, gallai'r gwarged mewn cyfraniadau fod yn filoedd o bunnoedd.

57. Byddai'r cynigion a nodwyd gennym uchod yn golygu y byddai'n rhaid i reolwr y cynllun ad-dalu'r gwarged hwnnw i bob aelod. Fodd bynnag, byddai hyn yn golygu, pe byddai aelod adeg ymddeol yn dewis gosod ei wasanaeth yn ystod cyfnod y rhwymedi yng Nghynllun 2015, y byddai'n rhaid iddo wedyn ad-dalu'r ad-daliad, ynghyd â llog, i reolwr y cynllun. Wrth gwrs, gall aelodau wneud penderfyniadau o'r fath – gweler Pennod 3 ar ddulliau dewis – ond rydym yn disgwyl y bydd llawer o gyn-aelodau Cynllun 2007 yn dewis gosod eu gwasanaeth yn ystod cyfnod y rhwymedi yng Nghynllun 2015, gan ei fod yn gyffredinol yn cynnig buddion pensiwn gwell na Chynllun 2007 i'r rhai hynny y tu allan i raddau uwch-reolwyr. Wedi dweud hynny, credwn y dylai fod ganddynt yr hawl i hepgor eu had-daliad cyfraniadau er mwyn osgoi gorfod ei ad-dalu pan fyddant yn ymddeol ac yn dewis bod yn aelod o Gynllun 2015. Gelwir hyn weithiau yn “ddewis dangosol”, gan fod aelod mewn gwirionedd yn nodi ei fod yn debygol o wneud penderfyniad adeg ymddeol i ddewis gosod ei wasanaeth yn ystod cyfnod y rhwymedi yng Nghynllun 2015.

58. Mae'n bosibl hefyd y bydd gan y rhai hynny sy'n dychwelyd i fod yn aelod o Gynllun 1992 warged mewn cyfraniadau, yn enwedig os bydd ganddynt yr hawl i wyliau 2 flynedd llawn rhag cyfraniadau fel y disgrifir uchod. Efallai eu bod yn llai tebygol o ddewis bod yn aelod o Gynllun 2015 yn ystod cyfnod y rhwymedi, gan fod Cynllun 1992 yn gyffredinol yn fwy buddiol. Ond ni allwn ddiystyru'r posibilrwydd hwnnw yn llwyr – yn y pen draw, penderfyniad unigol i bob aelod fydd hynny.

59. Felly, rydym yn cynnig ym mhob achos lle y bydd aelodau wedi gordalu cyfraniadau yn ystod cyfnod y rhwymedi, y dylai rheolwr y cynllun eu hysbysu o hynny ac o swm yr ad-daliad (gan ystyried trethiant a llog) y mae ganddynt yr hawl iddo. Dylai rheolwr y cynllun hefyd esbonio y byddai derbyn yr ad-daliad nawr yn creu dyletswydd i'w ad-dalu adeg ymddeol, ynghyd â llog, os gwnaeth yr aelod ddewis gosod ei wasanaeth yn ystod cyfnod y rhwymedi yng Nghynllun 2015. Wedyn byddai gan bob aelod o'r fath hyd at flwyddyn i benderfynu a ddylai dderbyn neu hepgor yr ad-daliad; pe na fyddai'n gwneud penderfyniad o fewn y cyfnod hwnnw, byddai'r ad-daliad yn cael ei dalu. Mae rhwymedigaeth ar reolwyr cynlluniau i dderbyn penderfyniad pob aelod; ni fyddai angen iddynt ei gymeradwyo. Ni allai rheolwyr cynlluniau ei gwneud yn ofynnol i aelodau hepgor ad-daliad ychwaith.

60. Byddai gan aelodau a fyddai'n penderfynu hepgor yr ad-daliad ddewis cwbl rydd o hyd adeg ymddeol o ran bod yn aelod o'u cynllun etifeddol; ni fyddai eu “dewis dangosol” yn rhoi unrhyw rwymedigaeth arnynt o gwbl. Pe byddai aelod sy'n ymddeol a oedd wedi hepgor ad-daliad yn dewis bod yn aelod o Gynllun 2015, yna ni fyddai angen unrhyw gamau pellach mewn perthynas â chyfraniadau, gan y byddai wedi talu'r gyfradd gywir drwy gydol y cyfnod. Ar y llaw arall, pe byddai aelod o'r fath yn dewis bod yn aelod o Gynllun 2007 adeg ymddeol, yna byddai'r hawl ganddo i gael ad-daliad o'i gyfraniadau,

ynghyd â llog.

61. Er enghraifft, cafodd Diffoddwr Tân B ei drosglwyddo'n amhriodol o Gynllun 2007 i Gynllun 2015 yn 2015. Yn ystod cyfnod y rhwymedi, talodd £5,000 yn fwy mewn cyfraniadau i Gynllun 2015 nag y byddai wedi'i dalu i Gynllun 2007. Gallai gymryd yr ad-daliad o £5,000 nawr (llai cywiriad ar gyfer rhyddhad treth ynghyd â llog), ond mae'n penderfynu ei hepgor ar y sail ei bod yn debygol o ddewis gosod cyfnod y rhwymedi yng Nghynllun 2015 adeg ymddeol ac nad yw'n awyddus i orfod ad-dalu'r ad-daliad bryd hynny. Adeg ymddeol, bydd ganddi'r hawl i wneud dewis gohiriedig. Os bydd y dewis hwnnw, fel y rhagwelodd, o blaid Cynllun 2015, yna bydd yn derbyn pensiwn Cynllun 2015, ac ni fydd angen unrhyw gywiriad i'w chyfraniadau. I'r gwrthwyneb, os bydd yn newid ei meddwl ac yn dewis Cynllun 2007, yna bydd ganddi'r hawl i'r un ad-daliad o £5,000 o gyfraniadau gormodol, unwaith eto llai'r rhyddhad treth ac ynghyd â swm sylweddol uwch o log.

62. Caiff y cynigion hyn eu caniatáu gan adran 18(8) o Ddeddf 2022 (ond nid ydynt yn ofynnol ganddi), ac ymdrinnir â nhw gan reoliad 64 yn ein drafft.

***Cwestiwn 5 yr ymgynghoriad***

I ba raddau rydych chi'n cytuno â'n cynigion y dylai fod gan aelodau o gynlluniau y mae'r hawl ganddynt i gael ad-daliad o gyfraniadau cyfnod y rhwymedi yr hawl i'w hepgor, er mwyn osgoi gorfod ei ad-dalu adeg ymddeol?

## 3. Dulliau dewis

63. Dim ond rhan o'r rhwymedi a gynigir gennym yw'r cyfle i ddychwelyd i gynlluniau etifeddol ar gyfer cyfnod y rhwymedi. I lawer o ddiffoddwyr tân, bydd yn cynnig pensiwn uwch nag y byddent wedi'i gael drwy aros yng Nghynllun 2015. Fodd bynnag, mae gan bob cynllun diffoddwyr tân lawer o wahanol baramedrau ac amodau, a bydd gan wahanol unigolion wahanol safbwyntiau o ran pa gynllun sy'n cynnig y canlyniad gorau iddynt, yn seiliedig ar amgylchiadau eu bywyd a'u dewisiadau. Er enghraifft, Cynllun 1992 sydd â'r gyfradd gronni fwyaf buddiol o blith y tri chynllun, a'r oedran pensiwn arferol isaf. Ond y cynllun hwn hefyd sydd â'r gyfradd cyfraniadau uchaf a dyma'r unig gynllun o blith y tri chynllun nad yw'n talu buddion i bartneriaid sy'n cyd-fyw os bydd yr unigolyn sy'n aelod o'r cynllun yn marw. Mae pwyso a mesur y nodweddion hynny, yn ogystal â nodweddion eraill, a phenderfynu pa opsiwn sydd orau yn naturiol yn benderfyniad personol.

64. Felly byddai'n anghywir tybio mai dychwelyd i fod yn aelod o gynllun etifeddol ar gyfer cyfnod y rhwymedi fydd y canlyniad mwyaf buddiol neu'r canlyniad a ffefrir ym mhob achos; a'r unig ffordd o sicrhau'r canlyniad gorau i bob aelod o'r cynllun yw cynnig dewis iddynt. Mae hynny wedi bod yn rhan allweddol o'r broses rhwymedi ers amser.

65. Mae Deddf 2002 yn ei gwneud yn ofynnol cynnig dau fath o ddewis:

    a. **Dewis uniongyrchol**, a wneir yn fuan ar ôl i'r rheoliadau hyn ddod i rym, ar gyfer aelodau â hawl sydd eisoes wedi ymddeol erbyn 1 Hydref 2023 (neu sydd eisoes wedi marw);

    b. **Dewis gohiriedig** ar gyfer aelodau actif neu aelodau gohiriedig â hawl. Ar gyfer aelodau actif, gwneir y dewis hwn adeg ymddeol; ar gyfer aelodau gohiriedig, caiff ei wneud pan ddaw buddion eu cynllun yn daladwy – fel arfer pan fyddant yn cyrraedd oedran pensiwn y wladwriaeth.

66. Yn y ddau achos, bydd angen i aelodau ddewis a ydynt am osod eu gwasanaeth yn ystod cyfnod y rhwymedi yn eu cynllun etifeddol neu yng Nghynllun 2015. Fodd bynnag, ni waeth pa fuddion y bydd aelod yn eu dewis, cânt eu talu drwy gynllun etifeddol yr aelod. Yn ogystal â swm y pensiwn y bydd ganddynt yr hawl i'w gael, bydd hyn hefyd yn effeithio ar swm y cyfandaliad adeg ymddeol, swm y cyfraniadau a ordalwyd neu a dandalwyd a'r ffordd y caiff materion eraill a allai fod wedi codi yn ystod cyfnod y rhwymedi eu trin, fel setliadau ysgaru, trosglwyddiadau i mewn ac allan o gynllun, a phrynu pensiwn ychwanegol. Er y dylid rhoi dewis cwbl rydd i aelodau rhwng yr opsiynau sydd ar gael iddynt, mae'n amlwg yn bwysig eu bod yn deall holl ganlyniadau'r dewis hwnnw yn llawn. Dyna pam, ym mhob achos, y mae Deddf 2022 yn ei gwneud yn ofynnol i'r dewis gael ei lywio gan **ddatganiad gwasanaeth rhwymediadwy** (RSS) gan reolwr y cynllun yn nodi hawliau a rhwymedigaethau pob aelod o dan bob cynllun. Mae pennod 9 yn esbonio ein cynigion mewn perthynas â datganiadau gwasanaeth rhwymediadwy yn fanylach.

## Dewisiadau uniongyrchol

67. Mae Adran 6 o Ddeddf 2022 yn ei gwneud yn ofynnol cynnig dewis uniongyrchol i aelodau â hawl sydd eisoes wedi ymddeol pan ddaw'r rheoliadau hyn i rym rhwng gosod eu gwasanaeth yn ystod cyfnod y rhwymedi yng Nghynllun 2015 neu yn eu cynllun etifeddol. Mae hyn yn effeithio ar y rhai hynny sydd wedi ymddeol ar sail oedran neu afiechyd, er bod pennod 4 yn esbonio ein cynigion pellach mewn perthynas ag ymddeol ar sail afiechyd. Ar gyfer aelodau â hawl sydd eisoes wedi marw (p'un a oeddent wedi ymddeol ai peidio), rhaid cynnig yr un dewis i'w goroeswyr – gweler pennod 5.

68. Bydd effeithiau dewis uniongyrchol yn amlwg yn dibynnu ar y dewis a wneir. Os bydd aelod yn gwneud dewis uniongyrchol o blaid cynllun sy'n wahanol i'r cynllun yr oedd yn aelod ohono (neu'n aelod, heb ystyried y ffaith ei fod wedi dychwelyd yn ôl-weithredol i'r cynllun etifeddol), yna bydd angen ailgyfrifo ei bensiwn i adlewyrchu ei ddewis. Os oes unrhyw gyfrifiadau sy’n dibynnu ar ffactorau actiwaraidd (megis ffactorau sy’n ymwneud â chyfnewid neu ymddeol yn hwyr/yn gynnar), dylid seilio’r cyfrifiadau ar y ffactorau priodol a oedd yn gymwys ar y pryd. Bydd angen cywiro ei gyfraniadau yn ystod cyfnod y rhwymedi hefyd, fel yr esbonnir ym Mhennod 2. Ar y llaw arall, ni fyddai unrhyw newid i fuddion pensiwn na chyfraniadau aelodau sy'n gwneud dewis uniongyrchol o blaid y cynllun y gwnaethant ymddeol ohono.

69. Er enghraifft:

    a. Ymddeolodd Diffoddwr Tân C yn 2020. Roedd yn aelod a ddiogelir o Gynllun 1992 yn 2015, ac ymddeolodd â phensiwn o dan Gynllun 1992. Os bydd yn gwneud dewis uniongyrchol o blaid Cynllun 1992, ni fydd unrhyw newidiadau. Fodd bynnag, os bydd yn gwneud dewis o blaid Cynllun 2015, yna byddai ei bensiwn yn cael ei ailgyfrifo'n unol â hynny; a byddai ganddo'r hawl i gael ad-daliad o'r cyfraniadau gormodol a wnaeth rhwng 2015 a 2020.

    b. Ymddeolodd Diffoddwr Tân D yn 2021. Nid oedd ganddi ddiogelwch yn 2015 a throsglwyddodd bryd hynny o Gynllun 1992 i Gynllun 2015, gan ymddeol fel aelod o'r ail gynllun. Os bydd yn gwneud dewis uniongyrchol o blaid Cynllun 2015, yna ni fydd unrhyw newidiadau. Fodd bynnag, os bydd yn dewis Cynllun 1992, yna byddai ei phensiwn yn cael ei ailgyfrifo'n unol â thelerau Cynllun 1992; ond byddai'n atebol i wneud iawn am y diffyg mewn cyfraniadau rhwng 2015 a 2021.

    c. Ymddeolodd Diffoddwr Tân E ar ddiwedd 2022. Roedd yn aelod a ddiogelir o Gynllun 2007 hyd nes iddo gael ei drosglwyddo i Gynllun 2015 ym mis Ebrill 2022, ac ymddeolodd â phensiwn o dan Gynllun 2015 gan gynnwys ei wasanaeth yn ystod cyfnod y rhwymedi yng Nghynllun 2007. Os bydd yn gwneud dewis uniongyrchol o blaid Cynllun 2015, yna byddai ei bensiwn yn cael ei ailgyfrifo i gynnwys ei wasanaeth yn ystod cyfnod y rhwymedi yn y Cynllun hwnnw, a byddai'n atebol i wneud iawn am y diffyg mewn cyfraniadau rhwng 2015 a 2022. Ond os bydd yn dewis Cynllun 2007 yna ni fydd unrhyw newidiadau.

d. Ymddeolodd Diffoddwr Tân F ar ddechrau 2023. Nid oedd ganddi ddiogelwch yn 2015 a throsglwyddodd bryd hynny o Gynllun 2007 i Gynllun 2015. Ymddeolodd â phensiwn o dan Gynllun 2015. Os bydd yn gwneud dewis uniongyrchol o blaid Cynllun 2007, yna byddai ei phensiwn yn cael ei ailgyfrifo i gynnwys ei gwasanaeth yn ystod cyfnod y rhwymedi yn y Cynllun hwnnw, a byddai hawl ganddi i gael ad-daliad o'r cyfraniadau gormodol a wnaeth yn ystod cyfnod y rhwymedi. Ond os bydd yn dewis Cynllun 2015, yna ni fydd unrhyw newidiadau.

70. Yn gryno, mae'r newidiadau o ganlyniad i ddewis uniongyrchol fel y nodir yn y tabl canlynol.

| **Dyddiad ymddeol** | **Diogelwch yn 2015?** | **Dewis uniongyrchol** | **Canlyniad** |
|---|---|---|---|
| Ar neu cyn 31 Mawrth 2022 | Oedd | Cynllun etifeddol | Pensiwn o dan y cynllun etifeddol (dim newid) |
| Ar neu cyn 31 Mawrth 2022 | Oedd | Cynllun 2015 | Pensiwn o dan Gynllun 2015<br>Cywiro buddion a chyfraniadau |
| Ar neu cyn 31 Mawrth 2022 | Nac oedd | Cynllun etifeddol | Pensiwn o dan y cynllun etifeddol<br>Cywiro buddion a chyfraniadau |
| Ar neu cyn 31 Mawrth 2022 | Nac oedd | Cynllun 2015 | Pensiwn o dan Gynllun 2015 (dim newid) |
| Rhwng 1 Ebrill 2022 a 30 Medi 2023 | Oedd | Cynllun etifeddol | Pensiwn o dan Gynllun 2015 gan gynnwys cyfnod rhwymedi yn seiliedig ar wasanaeth yn y cynllun etifeddol (dim newid). |
| Rhwng 1 Ebrill 2022 a 30 Medi 2023 | Oedd | Cynllun 2015 | Ailgyfrifo'r pensiwn o dan Gynllun 2015 i gynnwys gwasanaeth yn ystod cyfnod y rhwymedi yng Nghynllun 2015.<br>Cywiro cyfraniadau |
| Rhwng 1 Ebrill 2022 a 30 Medi 2023 | Nac oedd | Cynllun etifeddol | Ailgyfrifo'r pensiwn o dan Gynllun 2015 i gynnwys gwasanaeth yn ystod cyfnod y rhwymedi yn y cynllun etifeddol.<br>Cywiro cyfraniadau |
| Rhwng 1 Ebrill 2022 a 30 Medi 2023 | Nac oedd | Cynllun 2015 | Pensiwn o dan Gynllun 2015 (dim newid) |

71. Rhaid gwneud dewis uniongyrchol o fewn blwyddyn i'r adeg y bydd yr aelod (neu'r goroeswr o bosibl) yn cael y Datganiad Gwasanaeth Rhwymediadwy perthnasol, er y gall rheolwr y cynllun ymestyn y terfyn amser hwnnw os bydd yn ymddangos yn rhesymol gwneud hynny (er enghraifft, os bydd yr aelod yn marw ar ôl cael y datganiad,

a bod bellach yn rhaid i'r goroeswr cymwys wneud y penderfyniad yn lle'r aelod). Os na chaiff dewis uniongyrchol ei wneud cyn y terfyn amser, yna bydd y darpariaethau diofyn a nodir isod yn gymwys.

72. Mae'r darpariaethau hyn oll yn ofynnol o dan adrannau 6 a 7 o Ddeddf 2022. Maent wedi'u hadlewyrchu yn rheoliadau 11 i 13 o'n drafft.

73. Mae Deddf 2022 hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ynghylch y broses ar gyfer gwneud dewis uniongyrchol, ond nid yw'n ei gwneud yn ofynnol iddynt wneud hynny. Rydym yn cynnig darparu bod yn rhaid cyflwyno dewis uniongyrchol yn ysgrifenedig – boed ar ffurf copi caled neu'n electronig. Nid ydym yn cynnig mynnu templed neu ffurf geiriau safonol ar ei gyfer, er y gall rheolwyr cynlluniau ddatblygu templed neu ffurf o'r fath os byddant am wneud hynny. Byddwn hefyd yn gwneud darpariaeth ynghylch pwy all wneud dewis uniongyrchol mewn perthynas ag aelod sydd wedi marw – gweler pennod 5.

74. Rydym hefyd yn cynnig darparu na ellir dirymu dewis uniongyrchol dilys, h.y., ni all yr aelod newid ei feddwl [oni allai ddangos bod y Datganiad Gwasanaeth Rhwymediadwy a gafodd yn anghywir neu'n gamarweiniol]. Mae hyn gan y bydd canlyniad dewis uniongyrchol yn arwain yn syth at dalu buddion pensiwn sy'n adlewyrchu'r dewis hwnnw; a gallai caniatáu iddo gael ei wrthdroi greu baich gweinyddol sylweddol.

***Cwestiwn 6 yr ymgynghoriad***

I ba raddau rydych chi'n cytuno â'n cynigion bod yn rhaid cyflwyno dewisiadau uniongyrchol yn ysgrifenedig, ac na fydd modd eu dirymu?

## Dewisiadau gohiriedig

75. Bydd aelodau â hawl sy'n aelodau actif neu'n aelodau gohiriedig pan ddaw'r rheoliadau i rym ar 1 Hydref 2023 yn gwneud dewis gohiriedig adeg ymddeol (ar gyfer aelodau â hawl) neu pan fyddant yn cyrraedd oedran pensiwn gohiriedig[16] (ar gyfer aelodau gohiriedig). Unwaith eto, byddant yn dewis rhwng gosod eu gwasanaeth yn ystod cyfnod y rhwymedi yng Nghynllun 2015 neu yn eu cynllun etifeddol.

76. Mae effaith dewis gohiriedig yn fwy syml nag effaith dewis uniongyrchol, gan nad oes pensiwn eisoes yn cael ei dalu y gallai fod angen ei newid, a gan y bydd y cywiriad i'r cyfraniadau yn ystod cyfnod y rhwymedi eisoes wedi'i wneud. At hynny, bydd unrhyw un sy'n gwneud dewis gohiriedig yn ymddeol fel aelod o Gynllun 2015 â phensiwn a chyfandaliad o dan Gynllun 2015. Dim ond llywodraethu sut y caiff y buddion hynny eu cyfrifo ar gyfer cyfnod y rhwymedi y mae'r dewis gohiriedig, h.y., a gafodd y pensiwn ei gronni yn ystod y cyfnod hwnnw yn unol â thelerau Cynllun 2015 neu'r cynllun etifeddol.

[16] 60 yw'r oedran pensiwn gohiriedig yng Nghynllun 1992 a'r Cynllun wed'i Addasu, 65 yw'r oedran yng Nghynllun 2007 a 65 yw Oedran Pensiwn y Wladwriaeth yng Nghynllun 2015.

77. Bydd angen cywiriadau pellach i'r cyfraniadau os bydd aelod dewis gohiriedig yn dewis gosod ei wasanaeth yn ystod cyfnod y rhwymedi yng Nghynllun 2015. Mae hyn gan y bydd y broses o ddychwelyd i'r cynlluniau etifeddol eisoes wedi arwain at gywiro cyfraniadau fel y disgrifir ym mhennod 2. Fodd bynnag, ni fydd hyn yn digwydd os bydd aelod wedi gwneud “dewis dangosol” fel y disgrifir yn y bennod honno, gan hepgor ei hawl i ad-daliad o'r cyfraniadau, ac y bydd wedyn yn gwneud dewis gohiriedig o blaid Cynllun 2015. Er enghraifft:

   a. Mae Diffoddwr Tân G yn ymddeol yn 2030. Dychwelodd i fod yn aelod o Gynllun 1992 ar gyfer cyfnod y rhwymedi, ad-dalodd y diffyg mewn cyfraniadau yn deillio o hynny, ac mae'n gwneud dewis gohiriedig i gadw'r statws hwnnw. Bydd yn ymddeol ar bensiwn o dan Gynllun 2015, ond caiff y pensiwn a gronnodd yn ystod ei wasanaeth yn ystod cyfnod y rhwymedi ei gyfrifo'n unol â thelerau Cynllun 1992; ni fydd ei sefyllfa o ran cyfraniadau yn newid.

   b. Mae Diffoddwr Tân H yn ymddeol yn 2035. Dychwelodd i fod yn aelod o Gynllun 2007 ar gyfer cyfnod y rhwymedi, ond hepgorodd ei hawl i ad-daliad o'r cyfraniadau gan ei bod yn disgwyl gwneud dewis gohiriedig o blaid Cynllun 2015. Os bydd yn gwneud dewis o'r fath adeg ymddeol, yna bydd yn cael pensiwn o dan Gynllun 2015 a chaiff ei gwasanaeth yn ystod cyfnod y rhwymedi ei gyfrifo'n unol â thelerau Cynllun 2015, ac ni fydd ei sefyllfa o ran cyfraniadau yn newid. Ond os bydd yn dewis gosod ei gwasanaeth yn ystod cyfnod y rhwymedi yng Nghynllun 2007, yna byddai ei phensiwn yn cael ei gyfrifo'n unol â hynny, a byddai'n gymwys i gael ad-daliad o'r cyfraniadau gormodol a dalodd mewn perthynas â chyfnod y rhwymedi.

78. Mae'r darpariaethau hyn yn ofynnol gan Ddeddf 2022 (yn adrannau 10 ac 11) ac nid ydym yn gofyn am sylwadau yn eu cylch. Maent wedi'u hadlewyrchu yn rheoliadau 15 i 19 o'n drafft.

79. Ond unwaith eto, mae Deddf 2022 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ynghylch amseru dewisiadau gohiriedig, a'r broses ar eu cyfer. O ran amseru, rydym yn cynnig y dylid bod yn rhaid gwneud dewis gohiriedig erbyn yr hwyraf o blith (a) blwyddyn cyn y daw'r buddion pensiwn yn daladwy, a (b) yr aelod yn rhoi rhybudd o dan reolau rheoliad 67(4) o Gynllun 2015 o'i hawliad am fuddion pensiwn – gan, i bob pwrpas, roi rhybudd o'i fwriad i ymddeol. Rydym yn disgwyl yn y mwyafrif helaeth o achosion mai'r dyddiad olaf fydd yn gymwys, gan mai dim ond ychydig fisoedd o rybudd y bydd y rhan fwyaf o bobl yn ei roi cyn ymddeol. Mae'n amlwg yn gwneud synnwyr cyfleu penderfyniad ar ba fuddion pensiwn i'w hawlio ar yr un pryd ag y bydd yr aelod yn rhoi rhybudd o'r fath, neu cyn hynny. Ond ni fyddai'n synhwyrol gwneud dewis gohiriedig fwy na blwyddyn cyn ymddeol, gan ei bod hi'n ddigon posibl y gallai'r buddion newid yn ystod y cyfnod hwnnw.

80. Rydym hefyd yn cynnig y gellir dirymu dewis gohiriedig a'i ail-wneud os bydd aelod yn newid ei feddwl cyn i fuddion pensiwn ddechrau cael eu talu. Mae hyn gan nad yw'r dewis ynddo'i hun yn arwain yn syth at dalu unrhyw fuddion, felly nid oes unrhyw reswm dros atal aelod rhag gwneud penderfyniad gwahanol, ar yr amod y bydd yn gwneud hynny cyn i'r broses o dalu buddion pensiwn ddechrau.

81. Fel gyda dewisiadau uniongyrchol, rydym hefyd yn cynnig y dylid bod yn rhaid cyflwyno dewis gohiriedig yn ysgrifenedig, ond nid ydym o'r farn bod angen rhagnodi templed penodol neu ffurf benodol o eiriau yn hyn o beth.

***Cwestiwn 7 yr ymgynghoriad***

I ba raddau rydych chi'n cytuno â'n cynigion canlynol ar gyfer dewisiadau gohiriedig:

- bod yn rhaid eu cyflwyno'n ysgrifenedig;
- bod yn rhaid eu cyflwyno cyn pen blwyddyn cyn y daw'r buddion yn daladwy, a'r dyddiad y bydd yr aelod yn rhoi rhybudd o'i hawliad am fuddion pensiwn, pa ddyddiad bynnag yw'r hwyraf;
- y gall yr aelod eu dirymu a'u hail-wneud cyn dechrau'r broses o dalu

## Achosion trosiannol

82. Fodd bynnag, bydd angen trefniadau arbennig i aelodau sy'n awyddus i ymddeol yn fuan ar ôl i'r rheoliadau hyn ddod i rym ar 1 Hydref 2023. Byddant yn dod yn aelodau dewis gohiriedig ar y dyddiad hwnnw, ond ni fydd amser iddynt wneud dewis gohiriedig yn unol â'r cynigion uchod: mae'n debygol iawn y byddant eisoes wedi rhoi rhybudd o'u bwriad, felly bydd y terfyn amser ar gyfer gwneud dewis o'r fath wedi mynd heibio. Ond yn amlwg, ni fyddai'n briodol eu hatal rhag ymddeol er mwyn rhoi amser iddynt wneud dewis o'r fath.

83. Felly, rydym yn cynnig y bydd gan aelodau dewis gohiriedig y mae'r terfyn amser uchod ar eu cyfer wedi mynd heibio ar 1 Hydref 2023 (e.e., sydd eisoes wedi rhoi rhybudd o hawliad am fuddion pensiwn) yr hawl i ymddeol ar unwaith, heb wneud dewis gohiriedig, gyda'r dybiaeth bod eu gwasanaeth yn ystod cyfnod y rhwymedi yn wasanaeth o dan eu cynllun etifeddol. Mae hyn yn gyson â'n darpariaethau diofyn a nodir isod. Ar ôl ymddeol, byddai ganddynt yr hawl i wneud dewis tebyg i ddewis uniongyrchol, â'r un canlyniadau ar gyfer eu buddion pensiwn a'u cyfraniadau.

84. Caiff hyn ei adlewyrchu yn rheoliad 20 o'n drafft.

***Cwestiwn 8 yr ymgynghoriad***

I ba raddau rydych chi'n cytuno â'n cynigion y dylai aelodau dewis gohiriedig sy'n awyddus i ymddeol yn fuan ar ôl 1 Hydref 2023, ac y mae'r dyddiad terfyn ar gyfer gwneud dewis gohiriedig eisoes wedi mynd heibio ar y dyddiad hwnnw, allu ymddeol ar sail y dybiaeth bod eu gwasanaeth yn ystod cyfnod y rhwymedi yn eu cynllun etifeddol; ac y dylent allu gwneud dewis uniongyrchol eu hunain ar ôl ymddeol?

## Contractau lluosog

85. Fel y nodwyd gennym ym mhennod 1, mae'n gymharol gyffredin i ddiffoddwyr tân ymrwymo i gontractau lluosog â'r un cyflogwr ar gyfer gwahanol fathau o ddyletswyddau. Gwnaethom gynnig yn y bennod honno y dylai'r rhwymedi fod yn berthnasol i bob contract o'r fath a oedd ar waith yn ystod cyfnod y rhwymedi, ni waeth pryd yr ymrwymwyd iddo.

86. Rydym yn cynnig y dylai pob contract o'r fath fod yn destun dewis uniongyrchol neu ddewis gohiriedig ar wahân gan yr aelod dan sylw – sy'n golygu y bydd angen nodi'r hawliadau o dan bob contract ar wahân ar Ddatganiad Gwasanaeth Rhwymediadwy yr aelod hwnnw. Mae hynny'n gyson â'r egwyddor o roi'r canlyniad gorau posibl i aelodau â hawl drwy rwymedi. Mewn llawer o achosion, mae'n bosibl y bydd yr aelodau yn gwneud yr un dewis ar gyfer pob contract; ond eu dewis nhw yw hynny. Fodd bynnag, fel ym Mhennod 1, ni fyddai unrhyw ddewis i'w wneud mewn perthynas â chontractau cyfnod penodol byr nad oedd unrhyw daliadau pensiynadwy yn gysylltiedig â nhw.

> ***Cwestiwn 9 yr ymgynghoriad***
>
> I ba raddau rydych chi'n cytuno â'n cynigion y dylai aelodau â chontractau lluosog â'r un cyflogwr wneud dewisiadau uniongyrchol neu ddewisiadau gohiriedig ar wahân mewn perthynas â phob contract?

## Y dull diofyn

87. Mae'n bosibl, am ba reswm bynnag, na fyddai aelod yn gallu gwneud dewis uniongyrchol neu ddewis gohiriedig erbyn y terfynau amser a nodir uchod. Ar gyfer dewis uniongyrchol yn unig, gall rheolwr y cynllun ymestyn y terfyn amser os yw'n rhesymol gwneud hynny o ystyried yr holl amgylchiadau. Ond bydd angen darparu o hyd ar gyfer achosion lle na fydd aelodau neu eu goroeswyr yn arfer eu hawliau i wneud dewis. Mae Adran 8 (dewis uniongyrchol) ac Adran 11 (dewis gohiriedig) o Ddeddf 2022 yn caniatáu i reolau cynlluniau wneud hyn.

88. Byddai'n bosibl dychwelyd y penderfyniad o dan yr amgylchiadau hyn at reolwr y cynllun; ac rydym yn ymwybodol bod y cynigion ar gyfer rhai cynlluniau eraill yn y sector cyhoeddus yn debyg. Fodd bynnag, credwn y byddai hynny'n rhoi rheolwyr cynlluniau mewn sefyllfa anodd. Fel y nodwyd gennym ar ddechrau'r bennod hon, mae cynlluniau pensiwn yn cynnwys llawer o baramedrau a hawliau allweddol, ac yn anochel, mae'r dewis o ran pa gynllun sydd fwyaf buddiol i aelod yn ddewis personol. Yn benodol, mae gan gynlluniau diffoddwyr tân – a hynny'n unigryw yn y sector cyhoeddus – gyfraddau cyfraniadau gwahanol, felly bydd hawl i bensiwn uwch fel arfer yn creu rhwymedigaeth i dalu cyfradd cyfraniadau uwch, ac o bosibl i ad-dalu diffyg cyfraniadau. Ni ellir disgwyl i reolwyr cynlluniau wybod beth y byddai'n well gan aelod penodedig o dan yr amgylchiadau hyn, felly ni ellir gofyn iddynt yn rhesymol wneud penderfyniad a fydd yn effeithio ar ymddeoliad cyfan yr aelod hwnnw, ac yn wir hawliadau pensiwn unrhyw unigolion sy'n goroesi'r aelod hwnnw.

89. Felly, rydym yn cynnig yn syml lle na fydd aelod yn gwneud dewis uniongyrchol neu ddewis gohiriedig erbyn y terfyn amser penodedig, yr ystyrir ei fod wedi dewis gosod ei wasanaeth yn ystod cyfnod y rhwymedi yn ei gynllun etifeddol, ac y caiff ei fuddion pensiwn a'i gyfraniadau eu cyfrifo'n unol â hynny. Mae hyn yn unol â'r sefyllfa ddiofyn o ganlyniad i adran 2 o Ddeddf 2022. Ni fyddai angen i reolwr y cynllun wneud penderfyniad. Mae hyn yn ei gwneud hi'n bwysig iawn hysbysu aelodau bod ganddynt yr hawl i wneud unrhyw ddewis a fynnant; ond os na fyddant yn gwneud dewis o gwbl, yna ystyrir eu bod wedi dewis eu cynlluniau etifeddol.

***Cwestiwn 10 yr ymgynghoriad***

I ba raddau rydych chi'n cytuno â'n cynnig y dylid ystyried yn awtomatig bod aelodau neu eu goroeswyr nad ydynt yn gwneud dewis uniongyrchol neu ddewis gohiriedig erbyn y terfyn amser penodedig wedi dewis gosod eu gwasanaeth yn ystod cyfnod y rhwymedi yn eu cynllun etifeddol?

## 4. Ymddeol ar sail afiechyd

90. Mae diffodd tân yn waith peryglus a chorfforol ac, yn anffodus, mae diffoddwyr tân yn gymharol aml yn gorfod ymddeol yn gynnar oherwydd afiechyd. Mae'r tri chynllun pensiwn yn gwneud darpariaeth yn hyn o beth drwy roi mynediad cynnar i'r rhai hynny sy'n ymddeol yn gynnar ar sail afiechyd i'w pensiynau, yn aml ar delerau gwell. Ym mhob achos, dim ond ar ôl cael cyngor gan ymarferydd meddygol cymwysedig annibynnol (IQMP) – meddyg sy'n arbenigo mewn iechyd galwedigaethol fel arfer – y caniateir i unigolyn ymddeol ar sail afiechyd. Mae swm y pensiwn ar sail afiechyd a geir o dan bob cynllun hefyd yn dibynnu ar faint o analluogrwydd y mae unigolyn wedi'i brofi: telir pensiwn "haen uwch" i'r rhai hynny na allant ymgymryd ag unrhyw gyflogaeth, a thelir pensiwn "haen is" i'r rhai hynny na allant ymgymryd â dylestwyddau diffoddwr tân, ond y gallent wneud gwaith arall o hyd.

91. Fodd bynnag, mae darpariaethau afiechyd allweddol y tri chynllun yn wahanol. Ar y cyfan, Cynllun 1992 yw'r cynllun mwyaf hael, am ddau reswm:

    a. O dan Gynllun 1992, byddai aelod yn cael ei ystyried fel unigolyn ag "anabledd parhaol" (ac felly byddai ganddo'r hawl i bensiwn ar sail afiechyd haen is o leiaf) pe byddai ei analluogrwydd yn debygol o bara tan o leiaf oedran pensiwn arferol y Cynllun hwnnw, sef 55 oed. O dan Gynllun 2007 a Chynllun 2015, rhaid bod yr analluogrwydd yn debygol o bara tan o leiaf oedran pensiwn arferol y Cynlluniau hynny, sef 60 oed.

    b. Mae cymhwystra ar gyfer pensiwn ar sail afiechyd haen uwch yng Nghynllun 1992 yn dibynnu'n llwyr ar anallu'r aelod i ymgymryd ag unrhyw gyflogaeth ar yr adeg y caiff asesiad, ond yng nghynlluniau 2007 a 2015 rhaid bod yr analluogrwydd yn debygol o bara tan o leiaf 60 oed.

92. Mae swm y pensiwn ar sail afiechyd sy'n daladwy o dan y cynlluniau unigol hefyd yn amrywio, yn benodol oherwydd eu cyfraddau cronni gwahanol.

93. Mae'r gwahaniaethau hyn yn golygu y bydd angen ailystyried unrhyw unigolion a wnaeth ymddeol ar sail afiechyd yn ystod cyfnod y rhwymedi. Mae dychwelyd aelodau yr effeithir arnynt yn ôl-weithredol i'w cynlluniau etifeddol yn golygu y dylid bod wedi asesu achosion a ddigwyddodd yn erbyn meini prawf ymddeol ar sail afiechyd y cynllun etifeddol yn hytrach na meini prawf Cynllun 2015. At hynny, rhoddir dewis i bob aelod (gan gynnwys y rhai hynny yr oedd ganddynt ddiogelwch llawn) o ran a ddylid gosod ei wasanaeth yn ystod cyfnod y rhwymedi yn ei gynllun etifeddol neu yng Nghynllun 2015. Mae hynny hefyd yn effeithio ar y meini prawf ar gyfer ymddeol ar sail afiechyd a'r hawliau a ddylai fod yn gymwys.

94. Nodwch mai dim ond i aelodau â hawl a wnaeth ymddeol ar sail afiechyd yn ystod cyfnod y rhwymedi y mae hyn yn gymwys. Bydd yn rhaid ymdrin ag unrhyw achosion o'r fath a gododd ar ôl diwedd cyfnod y rhwymedi ond cyn i'r rheoliadau hyn ddod i rym ar 1 Hydref 2023 yn briodol yn unol â thelerau Cynllun 2015, ac nid oes angen eu hailystyried. Serch hynny, bydd gan yr aelodau hynny yr hawl o hyd i wneud dewis uniongyrchol o ran p'un a ddylid gosod eu gwasanaeth yn ystod cyfnod y rhwymedi yng Nghynllun 2015 neu yn eu cynllun etifeddol, fel y nodir ym Mhennod 3.

95. Yn gyffredinol, mae tri chanlyniad posibl i achos sy'n ymwneud ag ymddeol ar sail afiechyd, y mae'r cynigion ar gyfer rhwymedi yn effeithio ar bob un ohonynt yn wahanol. Mae'r canlyniadau hyn fel a ganlyn:

a. Gellid caniatáu i'r unigolyn ymddeol ar sail afiechyd h.y., bydd yr aelod yn ymddeol â phensiwn ar sail afiechyd;

b. Gellid gwrthod i'r unigolyn ymddeol ar sail afiechyd, a bydd yr aelod yn parhau i weithio;

c. Gellid gwrthod i'r unigolyn ymddeol ar sail afiechyd, a chaiff yr aelod ei ddiswyddo ar sail diffyg ffitrwydd gweithredol neu bresenoldeb gwael, er enghraifft, (er nad ydym yn disgwyl y bydd llawer o achosion o'r fath).

## Achosion lle y caniatawyd i'r unigolyn ymddeol ar sail afiechyd

96. Lle bydd aelod â hawl wedi ymddeol ar sail afiechyd yn ystod cyfnod y rhwymedi, rydym yn cynnig y dylid ailystyried yr achos er mwyn penderfynu a fyddai'r aelod wedi gallu ymddeol ar sail afiechyd o dan reolau'r cynllun ac eithrio'r cynllun yr oedd wedi ymddeol ohono ar y pryd. Ar gyfer aelodau yr effeithir arnynt, a gafodd eu trosglwyddo'n amhriodol i Gynllun 2015 yn 2015, eu cynllun etifeddol fydd y cynllun hwn; ac ar gyfer yr aelodau hynny yr oedd ganddynt ddiogelwch llawn yn 2015, Cynllun 2015 fydd y cynllun hwn. Os mai Cynllun 1992 yw'r cynllun etifeddol, bydd angen ailatgyfeirio'r achos at ymarferydd meddygol cymwysedig annibynnol fel rhan o'r broses ailystyried, er mwyn ystyried y dystiolaeth feddygol a oedd ar gael adeg asesiad gwreiddiol yr ymarferydd meddygol yn erbyn meini prawf ymddeol ar sail afiechyd y cynllun arall. Os mai Cynllun 2007 yw'r cynllun etifeddol, ni fydd angen ailatgyfeirio'r achos at ymarferydd meddygol cymwysedig annibynnol gan fod y meini prawf ar gyfer ymddeol ar sail afiechyd fwy neu lai yn union debyg ar gyfer Cynllun 2007 a Chynllun 2015.

97. Gallai canlyniad proses ailystyried o'r fath nodi naill ai bod gan aelod yr hawl i bensiwn ar sail afiechyd o dan Gynllun 2015 ac o dan y cynllun etifeddol, neu fod ganddo'r hawl i bensiwn ar sail afiechyd o dan y cynllun y gwnaeth ymddeol ohono, ond mai dim ond pensiwn gohiriedig y byddai ganddo'r hawl iddo o dan y cynllun arall, yn daladwy pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn y wladwriaeth. Rydym yn cynnig y dylai rheolwyr cynlluniau gyfrifo'r hawliau hyn a chynnig dewis uniongyrchol i aelodau rhyngddynt, er y bydd y dewis, fel yn achos pensiwn ar sail afiechyd a phensiwn gohiriedig, yn aml iawn o blaid y cyntaf.

98. Gallai dwy enghraifft helpu i egluro'r senarios hyn:

a. Cafodd Diffoddwr Tân I ei anafu'n ddifrifol ar ôl cwympo yn 2021, yn 50 oed ar ôl cael ei drosglwyddo'n amhriodol i Gynllun 2015 o Gynllun 1992. Y prognosis oedd y byddai angen cyfnod adsefydlu o 12 mis arno, ac na fyddai Diffoddwr Tân I yn gallu gweithio o gwbl yn ystod y cyfnod hwnnw, ond ar ôl hynny, y byddai'n debygol o allu ddychwelyd i weithio (ond y byddai ganddo namau symudedd parhaol a fyddai'n ei atal rhag gweithio fel diffoddwr tân ar unrhyw adeg yn y dyfodol). Aseswyd ei fod yn gymwys i gael pensiwn ar sail afiechyd haen is o dan Gynllun 2015, gan na fyddai'n gallu dychwelyd i weithio fel diffoddwr tân ar ôl adsefydlu ond y gallai ymgymryd â gwaith arall cyn cyrraedd yr oedran pensiwn arferol, sef 60 oed. Fodd bynnag, o'i

ailasesu o dan Gynllun 1992, byddai Diffoddwr Tân I yn gymwys i gael pensiwn ar sail afiechyd haen uwch, gan fod ei gyflwr yn ei atal rhag gweithio o gwbl adeg yr asesiad, a'i fod yn debygol o bara y tu hwnt i oedran pensiwn arferol y cynllun hwnnw, sef 55 oed. Felly mae gan Ddiffoddwr Tân I ddewis uniongyrchol rhwng pensiwn ar sail afiechyd haen is o dan Gynllun 2015 a phensiwn ar sail afiechyd haen uwch o dan Gynllun 1992.

b. Cafodd Diffoddwr Tân J ddiagnosis o ganser yn 2020, yn 54 oed ac yn aelod a ddiogelir yn llawn o Gynllun 1992. Ei phrognosis oedd y byddai'n gwella'n llwyr ar ôl dwy flynedd o driniaeth ymosodol, ac na fyddai'n gallu gweithio fel diffoddwr tân yn ystod y cyfnod hwnnw (ond y gallai ymgymryd â gwaith arall). Nododd asesiad o dan Gynllun 1992 ei bod yn gymwys i gael pensiwn ar sail afiechyd haen is, gan na fyddai'n gallu gweithio fel diffoddwr tân tan ar ôl oedran pensiwn arferol y cynllun, sef 55 oed, ond y gallai fod wedi ymgymryd â gwaith arall, ac ymddeolodd yn unol â hynny. Yn dilyn asesiad arall o dan reolau Cynllun 2015, ni fyddai ganddi'r hawl i ymddeol ar sail afiechyd o gwbl, gan y gallai fod wedi dychwelyd i weithio fel diffoddwr tân cyn cyrraedd 60 oed. Felly mae gan Ddiffoddwr Tân J ddewis uniongyrchol rhwng pensiwn ar sail afiechyd haen is o dan Gynllun 1992 a phensiwn gohiriedig o dan Gynllun 2015 y gall ei hawlio pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn y wladwriaeth.

99. Weithiau, bydd y dewisiadau hyn o bosibl yn ymddangos yn amlwg: yn aml iawn, gall pensiwn ar sail afiechyd sy'n daladwy nawr fod yn ddewis amlwg llawer gwell na phensiwn gohiriedig sy'n daladwy ymhen sawl blwyddyn. Fodd bynnag, credwn ei bod hi'n bwysig cadw at yr egwyddor y dylai aelodau cynlluniau ddewis drostynt eu hunain ym mhob achos. Er enghraifft, mae'n bosibl y byddai'n well ganddynt bensiwn o dan Gynllun 2015 gan ei fod yn cynnig telerau mwy hael i oroeswyr (gweler Pennod 5).

100. Mewn rhai achosion (fel yn achos Diffoddwr Tân J uchod), gellid dadlau na ddylai aelod fod wedi ymddeol ar sail afiechyd o gwbl, gan y byddai wedi parhau i weithio pe byddai wedi cael ei asesu o dan feini prawf y cynllun arall. Ond nid ydym o'r farn bod unrhyw ffordd ymarferol y gallai fod gan aelodau o'r fath yr hawl i gael eu cyflogi eto. Gallai sawl blwyddyn fod wedi mynd heibio, â'r aelod yn cael buddion pensiwn yn ystod y cyfnod hwnnw; ac mae'n bosibl na fyddai'r aelod yn cyrraedd y safon ofynnol o ran ffitrwydd, hyfforddiant na gwybodaeth i weithio fel diffoddwr tân, hyd yn oed pe byddai swyddi gwag ar gael. Er y gall rheolwr cynllun gynnig opsiwn ailgyflogi i'r aelod os yw'n briodol, nid ydym o'r farn y byddai'n synhwyrol ceisio gwarantu'r hawl honno.

101. Nid yw darpariaethau penodol o’r fath yn uniongyrchol ofynnol gan Ddeddf 2022, ond mae Deddf 2022 yn cynnwys pwerau i wneud darpariaethau ar gyfer achosion arbennig o’r fath. Felly, credwn fod eu hangen er mwyn cynnal dull o gynnig rhwymedi mewn achosion lle bydd aelodau wedi ymddeol ar sail afiechyd, sy'n gyson â'r dull a fabwysiedir ar gyfer aelodau yr effeithir arnynt yn gyffredinol. Maent wedi'u hadlewyrchu yn rheoliadau 53 i 56 o'n drafft.

> ***Cwestiwn 11 yr ymgynghoriad***
>
> I ba raddau rydych chi'n cytuno â'n cynnig y dylid ailasesu aelodau â hawl a wnaeth ymddeol ar sail afiechyd yn ystod cyfnod y rhwymedi yn erbyn meini prawf eu cynllun etifeddol neu Gynllun 2015, pa un bynnag sy'n berthnasol, ac y dylid cynnig dewis uniongyrchol iddynt rhwng yr hawliau sy'n deillio o hynny; ond na ddylid rhoi hawl awtomatig iddynt gael eu hailgyflogi?

## Achosion lle na chaniatawyd i'r unigolyn ymddeol ar sail afiechyd ac y parhaodd mewn cyflogaeth

102. Mae'n bosibl y gellid bod wedi gwrthod i aelod ymddeol ar sail afiechyd pan gafodd ei asesu yn erbyn meini prawf y cynllun yr oedd yn aelod ohono, ond y byddai wedi bod yn gymwys petai wedi cael ei asesu yn erbyn meini prawf ei gynllun etifeddol (yn ymarferol, dim ond os mai Cynllun 1992 oedd y cynllun hwnnw). Yn gyffredinol, byddai hynny'n golygu y byddai'r aelod wedi parhau mewn cyflogaeth. Pe na fyddai Diffoddwr Tân J uchod wedi bod yn aelod a ddiogelir yn llawn, er enghraifft, dyma fyddai wedi digwydd iddi gan na fyddai wedi bodloni meini prawf Cynllun 2015 ar gyfer ymddeol ar sail afiechyd.

103. Gellid dweud fod gan aelodau o'r fath hawl ôl-weithredol i ymddeol ar sail afiechyd petai eu hachosion wedi cael eu hailarchwilio yn erbyn meini prawf Cynllun 1992 a phe dangoswyd y gellid cyfiawnhau ymddeol ar sail afiechyd o dan y cynllun hwnnw. Fodd bynnag, nid ydym o'r farn bod modd darparu ar gyfer hyn. Bydd aelodau o'r fath wedi parhau i weithio, i ennill cyflog ac i wneud cyfraniadau pensiwn i Gynllun 2015 yn y cyfamser, a byddai fwy neu lai'n amhosibl gwrthdroi'r sefyllfa honno nawr. Felly rydym yn cynnig na fydd unrhyw ofyniad i reolwyr cynlluniau ailarchwilio'r achosion hyn, nac i gynnig unrhyw rwymedi ac eithrio'r cyfle i ddychwelyd yn ôl-weithredol a'r dewis gohiriedig neu uniongyrchol sydd ar gael i bob aelod.

> ***Cwestiwn 12 yr ymgynghoriad***
>
> I ba raddau rydych chi'n cytuno â'n cynnig na ddylai fod yn ofynnol i reolwyr cynlluniau ailarchwilio achosion lle na chaniatawyd i aelodau â hawl ymddeol ar sail afiechyd ac y gwnaethant barhau wedi'u cyflogi?

## Achosion lle na chaniatwyd i'r unigolyn ymddeol ar sail afiechyd ac y cafodd yr aelod ei ddiswyddo

104. Yn olaf, mae'n ddamcaniaethol bosibl o leiaf y byddai aelod wedi bod yn destun trafodaethau o ran a ellid cyfiawnhau caniatáu i'r unigolyn hwnnw ymddeol ar sail afiechyd, ac y daethpwyd i'r casgliad na ellid cyfiawnhau hynny, ond o ganlyniad i bryderon am ffitrwydd neu bresenoldeb yr aelod, ei fod wedi cael ei ddiswyddo yn lle hynny. Gallai hyn ddigwydd, er enghraifft, drwy ganfod bod problemau iechyd posibl yn

gysylltiedig â deiet a dewisiadau o ffordd o fyw gwael yn hytrach nag unrhyw analluogrwydd parhaol o fewn ystyr rheolau'r cynllun perthnasol. Byddai hynny'n arwain at hawl i bensiwn gohiriedig pan fyddai'r aelod yn cyrraedd oedran pensiwn y wladwriaeth, yn hytrach na phensiwn ar sail afiechyd a fyddai'n daladwy ar unwaith. Rydym yn disgwyl y bydd achosion o'r fath yn anghyffredin iawn, gan y dylai Awdurdodau Tân ac Achub helpu diffoddwyr tân i gynnal eu ffitrwydd gweithredol, a'u bod yn gwneud hynny, ac mai dim ond pan fetho popeth arall y dylid eu diswyddo ar y sail hon. Ond ni allwn ddiystyru'r posibilrwydd.

105. Os bydd achosion o'r fath yn codi, mae'n bosibl y gallai ailarfarniad yn erbyn meini prawf Cynllun 1992 (lle mai hwnnw yw'r cynllun etifeddol perthnasol) arwain at ganfyddiad y byddai wedi bod hawl gan yr aelod i ymddeol ar sail afiechyd o dan y Cynllun hwnnw. Byddai hynny'n arwain at ddewis uniongyrchol rhwng pensiwn ar sail afiechyd o dan Gynllun 1992 a phensiwn gohiriedig o dan Gynllun 2015. Felly rydym yn cynnig ei gwneud yn ofynnol i reolwyr cynlluniau ailarchwilio unrhyw achosion o'r fath, gan gynnwys eu hailatgyfeirio at ymarferydd meddygol cymwysedig annibynnol, ac y dylid cynnig dewis o'r fath i unrhyw aelod a fyddai wedi bod yn gymwys i ymddeol ar sail afiechyd o dan Gynllun 1992. Fodd bynnag, fel uchod, nid ydym o'r farn y byddai'n ymarferol gwarantu hawl i unigolion a gafodd eu diswyddo mewn achosion o'r fath gael eu hailgyflogi.

***Cwestiwn 13 yr ymgynghoriad***

I ba raddau rydych yn cytuno â'n cynnig y dylai fod yn ofynnol i reolwyr cynlluniau wneud y canlynol:

- ailarchwilio achosion lle na chaniatawyd i aelodau yr effeithir arnynt lle mai Cynllun 1992 yw eu cynllun etifeddol ymddeol ar sail afiechyd ond y cawsant eu diswyddo ar sail cysylltiedig yn ymwneud â ffitrwydd a/neu bresenoldeb gwael?; a
- chynnig dewis uniongyrchol rhwng pensiwn ar sail afiechyd o dan Gynllun 1992 a phensiwn gohiriedig ar sail Cynllun 2015 i unrhyw aelod a fyddai wedi bod yn gymwys i ymddeol ar sail afiechyd o dan y Cynllun blaenorol?

106. Gan fod ymddeol ar sail afiechyd yn agwedd arbennig o gymhleth o'n cynigion, ceir crynodeb o'r amrywiol sefyllfaoedd posibl yn y tabl isod.

## Crynodeb o gynigion ar sail afiechyd a'u canlyniadau

| Cynllun etifeddol | Diogelwch yn 2015? | Penderfyniad gwreiddiol o ran ymddeol ar sail afiechyd | Ailystyried yr achos? | Ailatgyfeirio at ymarferydd meddygol cymwysedig annibynnol? | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|---|
| 1992 | Oedd | Ymddeol | Ie | Ie | Dewis uniongyrchol ar gyfer pensiwn ar sail afiechyd o dan Gynllun 1992/2015 os oedd yn gymwys i ymddeol ar sail afiechyd o dan yr ail. Os na, dim camau gweithredu. |
| 1992 | Oedd | Parhau wedi'i gyflogi | Na | Na | Dewis gohiriedig adeg ymddeol. |
| 1992 | Oedd | Diswyddo | Na | Na | Dewis gohiriedig wrth gyrraedd oedran pensiwn gohiriedig. |
| 1992 | Nac oedd | Ymddeol | Ie | Ie | Dewis uniongyrchol ar gyfer pensiwn ar sail afiechyd o dan Gynllun 1992/2015 os oedd yn gymwys i ymddeol ar sail afiechyd o dan y cyntaf. Os na, dim camau gweithredu. |
| 1992 | Nac oedd | Parhau wedi'i gyflogi | Na | Na | Dewis gohiriedig adeg ymddeol. |
| 1992 | Nac oedd | Wedi'i ddiswyddo | Ie | Ie | Dewis uniongyrchol ar gyfer pensiwn ar sail afiechyd o dan Gynllun 1992/pensiwn gohiriedig o dan Gynllun 2015 os oedd yn gymwys i ymddeol ar sail afiechyd o dan y cyntaf. Os na, dewis gohiriedig wrth gyrraedd oedran pensiwn gohiriedig. |
| 2007 | Oedd | Ymddeol | Ie | Na | Dewis uniongyrchol ar gyfer pensiwn ar sail afiechyd o dan Gynllun 2007/2015 |
| 2007 | Oedd | Parhau wedi'i gyflogi | Na | Na | Dewis gohiriedig adeg ymddeol. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 2007 | Oedd | Diswyddo | Na | Na | Dewis gohiriedig wrth gyrraedd oedran pensiwn gohiriedig. |
| 2007 | Nac oedd | Ymddeol | Ie | Na | Dewis uniongyrchol ar gyfer pensiwn ar sail afiechyd o dan Gynllun 2007/2015 |
| 2007 | Nac oedd | Parhau wedi'i gyflogi | Na | Na | Dewis gohiriedig adeg ymddeol. |
| 2007 | Nac oedd | Diswyddo | Na | Na | Dewis gohiriedig wrth gyrraedd oedran pensiwn gohiriedig. |

## 5. Goroeswyr a buddion i oroeswyr

107. Mae pob cynllun pensiwn diffoddwyr tân yn cynnig buddion i berthnasau agos aelodau o'r cynllun sy'n marw, boed hynny yn ystod cyfnod gwasanaeth actif neu ar ôl hynny. Fel arfer, bydd buddiolwyr o'r fath yn cynnwys priod, partner neu blant dibynnol yr aelod o'r cynllun, a chyfeirir atynt gyda'i gilydd fel "goroeswyr".

108. Mae'r rhwymedi a gynigir gennym yn yr ymgynghoriad hwn yn effeithio ar oroeswyr a'u buddion mewn ffyrdd tebyg i aelodau'r cynllun eu hunain. Fodd bynnag, mae cymhlethdodau pellach yn deillio o wahanol delerau a meini prawf cymhwysedd y tri chynllun. Yn arbennig, nid yw Cynllun 1992 yn talu buddion goroeswr i bartneriaid sy'n cyd-fyw, dim ond i unigolion priod a phartneriaid sifil, ond mae Cynllun 2007 a Chynllun 2015 yn talu i oroeswyr hefyd. Mae pob cynllun yn talu buddion i blant dibynnol sy'n goroesi, ond mae'r telerau a'r cyfraddau yn wahanol. Mae'r un peth yn wir am "grantiau marwolaeth" sy'n daladwy os bydd aelod actif yn marw: ar gyfer aelodau Cynllun 1992, mae'r swm ddwywaith cyflog yr aelod adeg ei farwolaeth, a dim ond i briod neu bartner sifil y mae'n daladwy, neu i ystad yr aelod sydd wedi marw, ond ar gyfer aelodau Cynllun 2007 a Chynllun 2015, mae'r grant marwolaeth deirgwaith y cyflog ac yn daladwy i unrhyw un a enwebwyd gan yr aelod sydd wedi marw.

109. Yn gyffredinol, bydd marwolaeth aelod o gynllun â hawl yn arwain at dalu buddion pensiwn (i oroeswyr cymwys) mewn ffordd debyg i ymddeol. Felly, mewn egwyddor, dylid trin goroeswyr yn yr un ffordd â'r rhai hynny sy'n ymddeol. Mae hynny'n cynnwys (a) dewis rhwng buddion o dan y cynllun etifeddol a'r cynllun diwygiedig ar gyfer cyfnod y rhwymedi (ar yr amod nad yw'r aelod sydd wedi marw eisoes wedi gwneud dewis o'r fath); ac, yn seiliedig ar y dewis hwnnw, (b) ailgyfrifo'r pensiwn a buddion eraill; a (c) cywiro'r cyfraniadau a fyddai wedi bod yn ddyledus yn ystod cyfnod y rhwymedi yn ôl-weithredol. Mae gweddill y ddogfen hon yn nodi sut rydym yn cynnig y dylai'r darpariaethau hyn weithio ar gyfer aelodau actif, aelodau gohiriedig ac aelodau sydd wedi ymddeol; mewn egwyddor, gellir cymhwyso'r un darpariaethau at eu goroeswyr hefyd, a dylid gwneud hynny.

### Yr unigolyn cymwys sy'n gwneud penderfyniadau

110. Fodd bynnag, mae'r rhwymedi yn dibynnu yn y bôn ar yr aelod o'r cynllun yn gwneud dewis uniongyrchol neu ohiriedig i osod ei wasanaeth yn ystod cyfnod y rhwymedi yn y cynllun etifeddol neu yng Nghynllun 2015. Yn amlwg, ni all hynny ddigwydd os bydd yr aelod yn marw cyn iddo wneud dewis o'r fath. Yn hytrach, byddai angen i un o oroeswyr aelod y cynllun y mae'r hawl ganddo i gael buddion goroeswr wneud y dewis.

111. Mae'n ddigon posibl y bydd mwy nag un goroeswr o'r fath, er enghraifft priod ac un neu fwy o blant. Ond yn amlwg, dim ond un dewis y gellir ei wneud, felly dim ond un "unigolyn cymwys sy'n gwneud penderfyniadau" sydd â'r hawl i wneud y dewis yn lle'r aelod o'r cynllun sydd wedi marw. Er mwyn sicrhau cysondeb, rydym yn cynnig y dylid pennu'r unigolyn cymwys sy'n gwneud penderfyniadau fel a ganlyn:

a. Lle mai dim ond un oedolyn sydd â'r hawl i gael pensiwn goroeswr (ni waeth p'un a oes unrhyw blant â hawl debyg ai peidio), yr oedolyn hwnnw fydd yr unigolyn cymwys sy'n gwneud penderfyniadau;

b. Lle bydd gan ddau oedolyn neu fwy yr hawl i gael pensiwn goroeswr (ni waeth p'un a oes gan unrhyw blant hawl debyg ai peidio), yr unigolyn cymwys sy'n gwneud penderfyniadau yw'r unigolyn a oedd yn briod, yn bartner sifil neu'n bartner a oedd yn cyd-fyw (os oes unigolyn o'r fath) i'r aelod sydd wedi marw ar adeg ei farwolaeth; neu os nad oes unrhyw unigolyn o'r fath, pa un bynnag y byddant i gyd yn cytuno y dylai ymgymryd â'r rôl.

c. Lle mai un plentyn sydd â'r hawl i gael pensiwn goroeswr, neu blant lluosog sy'n byw yn yr un cartref (ond nad oes gan unrhyw oedolion hawl), yr unigolyn cymwys sy'n gwneud penderfyniadau fydd rhiant neu warcheidwad y plentyn neu'r plant.

d. Lle bydd gan fwy nag un plentyn yr hawl i gael pensiwn goroeswr yn byw mewn o leiaf ddau wahanol gartref (ond nad oes unrhyw oedolion â hawl debyg), yr unigolyn cymwys sy'n gwneud penderfyniadau fydd pa riant neu warcheidwad bynnag y bydd pob un o'r rhieni neu warcheidwaid yn cytuno y dylai ymgymryd â'r rôl.

e. Lle nad oes unrhyw gytundeb o dan (b) neu (d) uchod, ni fyddai unrhyw unigolyn cymwys sy'n gwneud penderfyniadau, a byddai ein darpariaethau diofyn a nodir ym mharagraff 116 isod yn gymwys.

112. Fel yn (b) neu (d) uchod, lle bo angen i fwy nag un unigolyn gytuno ar yr unigolyn cymwys sy'n gwneud penderfyniadau, rydym yn cynnig y dylai fod yn ofynnol i reolwyr cynlluniau geisio nodi pob unigolyn o'r fath ac anfon datganiad gwasanaeth rhwymediadwy i bob un ohonynt mewn perthynas â gwasanaeth yr aelod sydd wedi marw. Wedyn byddai gan yr unigolion hynny chwe mis i benderfynu ymysg eu hunain pwy fyddai'r unigolyn cymwys sy'n gwneud penderfyniadau, ac i gyfleu'r penderfyniad hwnnw'n unfrydol ac yn ysgrifenedig i reolwr y cynllun. Wedyn, byddai gan yr unigolyn cymwys sy'n gwneud penderfyniadau hyd at flwyddyn i wneud dewis uniongyrchol h.y., penderfynu a ddylid gosod gwasanaeth yr aelod sydd wedi marw yn ystod cyfnod y rhwymedi yng Nghynllun 2015 neu yn y cynllun etifeddol.

113. Ond mae cymhlethdod ychwanegol, fodd bynnag. Mae'r meini prawf cymhwysedd gwahanol ar gyfer pensiynau goroeswyr rhwng y cynlluniau a nodwyd gennym ym mharagraff 108 uchod yn golygu fod manylion y buddiolwr neu'r buddiolwyr (ac felly'r unigolion cymwys sy'n gwneud penderfyniadau) yn dibynnu ar reolau'r cynllun a gaiff eu cymhwyso. Yn arbennig, mae gan bartner sy'n cyd-fyw yr hawl i gael buddion goroeswr o dan Gynlluniau 2015 a 2007, ond nid o dan Gynllun 1992. Mae hyn yn creu'r paradocs posibl y gallai'r unigolyn cymwys sy'n gwneud penderfyniadau, mewn rhai achosion, ddibynnu ar y dewis, fel sy'n wir rhwng cynlluniau etifeddol a chynlluniau diwygiedig – ond y bwriad yw mai'r unigolyn cymwys sy'n gwneud penderfyniadau ei hun fydd yn gwneud y dewis hwnnw.

114. Ar gyfer aelodau a fu farw ar neu ar ôl 1 Ebrill 2022, neu a fydd yn marw yn y dyfodol, nid yw hyn yn broblem: roeddent neu byddant yn aelodau actif, yn aelodau sydd wedi ymddeol neu'n aelodau gohiriedig o Gynllun 2015 ar adeg eu marwolaeth, a bydd rheolau Cynllun 2015 yn amlwg yn gymwys wrth nodi goroeswyr cymwys. Fodd bynnag, ar gyfer aelodau yr effeithir arnynt a fu farw yn ystod cyfnod y rhwymedi, mae'r broblem yn broblem wirioneddol. Bydd pob un ohonynt wedi dychwelyd yn ôl-weithredol i fod yn aelod o'u cynlluniau etifeddol (neu byddant wedi bod yn aelodau a ddiogelir o'r cynlluniau hynny erioed), sy'n golygu bod y rheolau hynny o bosibl yn gymwys, gan

ddibynnu ar y dewis y bydd yr unigolyn cymwys sy'n gwneud penderfyniadau yn ei wneud.

115. Er enghraifft, beth petai Diffoddwr Tân K, a gafodd ei drosglwyddo'n amhriodol o Gynllun 1992 yn 2015, wedi marw yn 2020 pan oedd wedi bod yn cyd-fyw â Ms L ers cyfnod hir. Roedd gan K hefyd ddau blentyn yn eu harddegau o berthynas flaenorol, a a b, sy'n byw gyda'u mam X (yr oedd K wedi ysgaru wrthi). O dan Gynllun 2015, L fyddai'r unigolyn cymwys sy'n gwneud penderfyniadau gan mai hi yw'r unig oedolyn â'r hawl i gael buddion goroeswr o dan Gynllun 2015. Fodd bynnag, o dan Gynllun 1992, nid oes hawl ganddi i unrhyw beth, er y byddai gan a a b yr hawl i fuddion uwch gan nad oes unrhyw oedolyn cymwys wedi goroesi; a'r unigolyn cymwys sy'n gwneud penderfyniadau fyddai X, fel eu rhiant sydd wedi goroesi. Yn amlwg, os mai L fydd yn gwneud penderfyniadau, bydd, fwy na thebyg, yn dewis Cynllun 2015, gan mai hwn yw'r unig un a fydd yn talu pensiwn iddi; ond os mai X fydd yn gwneud penderfyniadau, mae'n bosibl y bydd hi'n dewis Cynllun 1992, gan y byddai'n rhoi mwy o fuddion i'w phlant (ond yn gwadu unrhyw beth i L). Ond nid yw hynny'n helpu wrth nodi pwy yw'r unigolyn cymwys sy'n gwneud penderfyniadau i ddechrau.

116. Rydym yn cynnig y dylid datrys y cyfyng-gyngor hwn drwy ddarparu y dylid defnyddio meini prawf cymhwysedd Cynllun 2015 i nodi'r unigolion cymwys sy'n gwneud penderfyniadau. Mae hyn yn golygu yn arbennig y gall partner sy'n cyd-fyw (sy'n gymwys i gael buddion goroeswr o dan Gynllun 2015) fod yn unigolyn cymwys sy'n gwneud penderfyniadau, ni waeth pa gynllun yr oedd yr unigolyn sydd wedi marw yn aelod ohono. Mae hyn gan ein bod yn credu bod cwmpas ehangach Cynllun 2015 yn fwy tebygol o arwain at ganlyniad teg a fydd yn fwy cydnaws â realiti amgylchiadau domestig yr aelod sydd wedi marw ar yr adeg y bu farw. Er enghraifft, yn yr achos uchod, ymddengys yn decach i L, sef partner tymor hir K ar yr adeg y bu farw, wneud penderfyniadau am y buddion goroeswr sy'n gysylltiedig â phensiwn K nag i X, yr oedd wedi ysgaru wrthi, wneud hynny. Fodd bynnag, ni fyddai'r penderfyniad hwn i ddefnyddio Cynllun 2015 yn cyfyngu ar ddewis yr unigolyn cymwys sy'n gwneud penderfyniadau: gallai ddewis gosod gwasanaeth yr aelod yn ystod cyfnod y rhwymedi yn y cynllun etifeddol o hyd.

117. Nid yw darpariaethau penodol o’r fath yn uniongyrchol ofynnol gan Ddeddf 2022, ond mae Deddf 2022 yn cynnwys pwerau i wneud darpariaethau o’r fath. Felly, credwn bod eu hangen er mwyn gallu dyrannu buddion goroeswr yn briodol a chynnig dull teg i oroeswyr wneud dewisiadau yn hynny o beth. Mae’r rheoliadau yn gwneud darpariaethau ar gyfer unigolion cymwys sy’n gwneud penderfyniadau ym mhob achos pan fo angen cael unigolyn sy’n gwneud penderfyniadau. Mae Atodlen 1 yn darparu pwy yw unigolyn cymwys sy’n gwneud penderfyniadau o dan wahanol amgylchiadau.

***Cwestiwn 14 yr ymgynghoriad***

I ba raddau rydych chi'n cytuno â'n cynnig, pan fydd aelod o gynllun sydd â hawl yn marw heb wneud dewis uniongyrchol neu ohiriedig:

- y dylai "unigolyn cymwys sy'n gwneud penderfyniadau" fel y diffinnir ym mharagraff 111 uchod wneud y dewis hwnnw;
- y dylid defnyddio meini prawf Cynllun 2015 ym mhob achos i nodi'r unigolyn cymwys sy'n gwneud penderfyniadau.

## Amgylchiadau lle nad oes angen unrhyw benderfyniad

118. O dan rai amgylchiadau, ni fydd y materion hyn yn codi, neu dylid eu datrys gan unigolyn ac eithrio'r unigolyn cymwys sy'n gwneud penderfyniadau. Yn fwyaf syml, pan fydd aelod yn marw heb adael unrhyw un sydd â'r hawl i bensiwn goroeswr (h.y., dim priod, partner sifil, partner sy'n cyd-fyw na phlant dibynnol), nid oes angen unigolyn cymwys sy'n gwneud penderfyniadau gan na fydd unrhyw fuddion goroeswr i'w talu. Fodd bynnag, bydd grant marwolaeth yn daladwy os bydd yr aelod yn marw pan fydd yn dal wedi'i gyflogi fel diffoddwr tân neu'n fuan wedi hynny – gweler paragraff 127 isod.

119. Mae ein cynigion uchod yn cynnwys amgylchiadau lle y bydd yn rhaid i unigolion sydd o bosibl yn gymwys i wneud penderfyniadau gytuno ymysg eu hunain pwy fydd yn ymgymryd â'r rôl honno. Byddai'r sefyllfa hon yn codi, er enghraifft, pa na fyddai gan yr unigolyn sydd wedi marw unrhyw briod neu bartner, ond bod ganddo ddau blentyn dibynnol a oedd yn byw mewn gwahanol gartrefi, lle mai un o rieni neu warcheidwaid y plant hynny fyddai'r unigolyn cymwys sy'n gwneud penderfyniadau. Os na allant benderfynu pwy ddylai ymgymryd â'r rôl, yna rydym yn cynnig y dylai fod yn rhaid i reolwr y cynllun fwrw ati fel pe bai dewis wedi'i wneud i osod gwasanaeth yr aelod yn ystod cyfnod y rhwymedi yng Nghynllun 2015, gan gyfrifo a thalu buddion goroeswr yn unol â hynny. Mae hyn yn wahanol i'n cynigion diofyn ar gyfer dewisiadau gohiriedig ac uniongyrchol (gweler paragraff 89), lle byddai'r sefyllfa ddiofyn yn golygu ystyried y gwnaed dewis o blaid y cynllun etifeddol. Ond credwn y byddai'n fwy priodol mewn achosion lle mae'r aelod wedi marw i ddefnyddio Cynllun 2015 fel y dewis diofyn, gan ei fod yn talu buddion i amrywiaeth ehangach o oroeswyr a hynny'n aml ar gyfradd uwch. Bydd hyn yn arbennig o bwysig i oroeswyr aelodau a fu farw yn ystod cyfnod y rhwymedi, y gallai eu hawliau newid yn sylweddol gan ddibynnu p'un a ystyriwyd bod yr aelod sydd wedi marw yn aelod o Gynllun 2015 neu'n aelod o gynllun etifeddol adeg ei farwolaeth.

120. Byddai'r un peth yn gymwys pe byddai unigolyn cymwys sy'n gwneud penderfyniadau wedi cael ei nodi ond y methodd yr unigolyn hwnnw â gwneud dewis o fewn blwyddyn i gael y Datganiad Gwasanaeth Rhwymediadwy. Wedyn byddai rheolwr y cynllun yn ystyried bod y penderfyniad hwnnw wedi'i wneud o blaid Cynllun 2015.

121. Rydym hefyd yn cynnig pe byddai'r aelod sydd wedi marw wedi gwneud dewis uniongyrchol neu ddewis gohiriedig dilys cyn iddo farw, yna y dylai'r dewis hwnnw fod yn gymwys o hyd. Ni fyddai gan unrhyw oroeswr yr hawl i ailystyried y dewis o dan unrhyw amgylchiadau. Mae hyn gan mai dewis yr aelod o'r cynllun yw'r dewis yn

gyffredinol, ac nid dewis ei oroeswyr, ac y credwn y dylid anrhydeddu'r dewis hwnnw.

122. Unwaith eto, nid yw cynigion o’r fath yn uniongyrchol ofynnol gan Ddeddf 2022, ond mae Deddf 2022 yn cynnwys pwerau i wneud darpariaethau o’r fath a chredwn bod eu hangen er mwyn gallu dyrannu buddion goroeswr mewn ffordd briodol a phrydlon.

> ***Cwestiwn 15 yr ymgynghoriad***
>
> I ba raddau rydych chi'n cytuno â'n cynigion canlynol:
>
> - Os na fydd unrhyw gytundeb o ran pwy yw'r unigolyn cymwys sy'n gwneud penderfyniadau, neu os bydd yr unigolyn cymwys sy'n gwneud penderfyniadau yn methu â gwneud penderfyniad o fewn y terfyn amser, rhaid i reolwr y cynllun ystyried y gwnaed penderfyniad o blaid gosod gwasanaeth yr aelod yn ystod cyfnod y rhwymedi yng Nghynllun 2015;
> - Os bydd aelod o gynllun yn gwneud dewis uniongyrchol neu ddewis gohiriedig dilys cyn iddo farw, y caiff y dewis hwnnw ei anrhydeddu ac ni fydd gan unrhyw oroeswr yr hawl i'w ailystyried.

## Addasu pensiynau a chyfraniadau hanesyddol

123. Mewn egwyddor, unwaith bydd yr unigolyn cymwys sy'n gwneud penderfyniadau wedi gwneud y dewis y mae'r cynigion hyn yn ei ragweld, yna dylai'r canlyniadau fod yr un peth â'r canlyniadau ar gyfer aelod o gynllun sy'n fyw. Os bydd pensiwn goroeswr eisoes yn cael ei dalu, yna mae'n bosibl y bydd angen ei addasu i adlewyrchu'r dewis; ac y bydd angen cywiro'r cyfraniadau a wnaed gan yr aelod yn ystod cyfnod y rhwymedi.

124. Fodd bynnag, bydd dewis yr unigolyn cymwys sy'n gwneud penderfyniadau yn effeithio ar fuddion pob goroeswr, nid dim ond buddion yr unigolyn hwnnw. O dan rai amgylchiadau, gallai hynny arwain at sefyllfa lle y bydd y buddion goroeswr a dalwyd yn rhy uchel. Lle mai'r unigolyn cymwys sy'n gwneud penderfyniadau sydd wedi cael lefel rhy uchel o fuddion, credwn y dylid adennill y buddion hynny, gan fod hynny'n deillio'n naturiol o benderfyniad yr unigolyn cymwys sy'n gwneud penderfyniadau ei hun (a bydd yr un peth yn digwydd yn achos aelodau sydd wedi ymddeol sy'n gwneud dewis uniongyrchol). Ond nid ydym yn credu y byddai'n briodol i'r un peth fod yn wir ar gyfer buddiolwyr eraill, gan na fyddant wedi cael lleisio unrhyw farn mewn perthynas â'r penderfyniad. Mae hyn yn cynnwys yn arbennig unrhyw bensiynau a fydd yn daladwy i blant dibynnol (na allant byth ymgymryd â rôl yr unigolyn cymwys sy'n gwneud penderfyniadau). Mewn achosion o'r fath, rydym yn cynnig y dylai rheolwr y cynllun ddiystyru unrhyw daliadau gormodol a wnaed yn hanesyddol. Rydym hefyd yn cynnig, ym mhob achos pan fo aelod o gynllun eisoes wedi marw, na fydd taliadau i oroeswyr sy’n blant sy’n byw mewn aelwydydd gwahanol yn newid. Caiff hyn ei ganiatáu (ond nid yw'n ofynnol) gan adrannau 18(1) a 22(2)e o Ddeddf 2022.

125. Er enghraifft, bu farw Diffoddwr Tân M yn 2017 ar ôl cael ei drosglwyddo'n amhriodol o Gynllun 1992 i Gynllun 2015. Ar adeg ei marwolaeth, roedd yn briod â Mr N. Mae

gan M hefyd un plentyn, c, o berthynas flaenorol sy'n byw yn yr un cartref ag M ac N. O dan Gynllun 2015, yr oedd M yn aelod ohono adeg ei marwolaeth, cafodd N bensiwn goroeswr oedolyn gwerth £10,000 y flwyddyn a chafodd c bensiwn plentyn gwerth 25% o bensiwn N, neu £2,500. N yw'r unigolyn cymwys sy'n gwneud penderfyniadau gan mai N yw'r unig oroeswr sy'n oedolyn, ac mae'n dewis Cynllun 1992 gan y byddai'r cynllun hwn yn rhoi pensiwn goroeswr o £11,000 y flwyddyn iddo. Ond byddai hyn yn lleihau pensiwn W i £2,062.50 y flwyddyn (neu 18.75% o bensiwn N), fel sy'n ofynnol gan reolau Cynllun 1992. Byddai pob newid yn cael ei ôl-ddyddio i adeg marwolaeth M, ond byddai'r swm gormodol a dalwyd i c yn deillio o hynny yn cael ei ddiystyru gan reolwr y cynllun.

126. Rydym yn cynnig defnyddio dull tebyg ar gyfer gwargedion a diffygion cyfraniadau sy'n deillio o ddewis yr unigolyn cymwys sy'n gwneud penderfyniadau. Dim ond yr unigolyn cymwys sy'n gwneud penderfyniadau ei hun y dylent fod yn daladwy iddo neu'n ad-daladwy ganddo; ni fyddai unrhyw rwymedigaeth na hawl yn gysylltiedig â buddiolwyr eraill. Unwaith eto, credwn fod hyn yn ganlyniad teg a rhesymol yn deillio o ddewis yr unigolyn cymwys sy'n gwneud penderfyniadau, yn yr un ffordd ag ar gyfer aelodau o gynlluniau sy'n gwneud dewisiadau o'r fath eu hunain.

***Cwestiwn 16 yr ymgynghoriad***

I ba raddau rydych chi'n cytuno â'n cynigion, sef:

- Dylid adennill gordaliadau hanesyddol buddion goroeswr i oroeswyr sy'n unigolion cymwys sy'n gwneud penderfyniadau gan yr unigolion hynny, ond dylid diystyru gordaliadau i oroeswyr eraill;
- Dim ond yr unigolyn cymwys sy'n gwneud penderfyniadau fyddai'n gymwys i gael gwarged cyfraniadau, neu'n atebol i ad-dalu diffyg cyfraniadau, yn deillio o'i ddewis.

## Cyfandaliadau marwolaeth

127. Mae pob cynllun yn darparu, pan fydd aelod actif yn marw, y daw cyfandaliad (y cyfeirir ato'n aml fel “cyfandaliad marwolaeth” neu “grant marwolaeth”) yn daladwy yn ogystal ag unrhyw bensiwn goroeswr. Yng Nghynllun 1992, mae'r swm hwn ddwywaith tâl pensiynadwy'r aelod ar adeg y farwolaeth, ac yn daladwy i briod neu bartner sifil yr aelod (neu i ystad yr aelod os nad oes unigolyn o'r fath). Yng Nghynlluniau 2007 a 2015, mae'r cyfandaliad deirgwaith y tâl pensiynadwy, a gall rheolwr y cynllun ddewis y derbynnydd – er y gall aelodau enwebu unrhyw dderbynyddion y mynnant (gan gynnwys perthnasau, ffrindiau neu endidau corfforaethol fel elusennau) a'r arfer cyffredinol yw anrhydeddu'r enwebiadau hynny.

128. Ar gyfer aelodau a fu farw ar neu ar ôl 1 Ebrill 2022, neu a fydd yn marw yn y dyfodol, nid oes unrhyw broblemau yn deillio o hynny. Bydd pob un ohonynt wedi bod yn aelodau o Gynllun 2015 adeg eu marwolaeth, a chaiff y cyfandaliad ei gyfrifo a'i dalu yn unol â hynny. Gan fod y cyfandaliad hwnnw yn lluosydd syml o'r tâl adeg marwolaeth, nid yw gwasanaeth yr aelod yn ystod cyfnod y rhwymedi yn berthnasol.

Fodd bynnag, ar gyfer aelodau o Gynllun 1992[17] a fu farw yn ystod cyfnod y rhwymedi, bydd angen ailystyried y cyfandaliad marwolaeth ac o bosibl ei ailgyfrifo yn seiliedig ar y dewis a wneir gan yr unigolyn cymwys sy'n gwneud penderfyniadau.

129. Os bydd yr unigolyn cymwys sy'n gwneud penderfyniadau yn dewis gosod gwasanaeth yr aelod yn ystod cyfnod y rhwymedi yn y cynllun yr oedd yn aelod ohono adeg ei farwolaeth, unwaith eto, ni fydd unrhyw broblemau yn codi, gan y byddai'r cyfandaliad marwolaeth wedi cael ei gyfrifo a'i dalu'n briodol ar y pryd. Fodd bynnag, os bydd yr unigolyn cymwys sy'n gwneud penderfyniadau yn dewis y cynllun arall (h.y., y cynllun etifeddol ar gyfer aelodau yr effeithir arnynt, neu Gynllun 2015 ar gyfer aelodau yr oeddent wedi'u diogelu), yna mae dwy senario bosibl:

a. Bydd y cyfandaliad yn cynyddu (o 2x i 3x y cyflog) os oedd yr aelod sydd wedi marw yn aelod o Gynllun 1992 adeg ei farwolaeth, ond bod yr unigolyn cymwys sy'n gwneud penderfyniadau yn dewis Cynllun 2015. Dylid talu'r cynnydd yn unol â rheolau Cynllun 2015, h.y., yn ôl disgresiwn rheolwr y cynllun. Nid yw'n debygol y bydd yr unigolyn sydd wedi marw wedi gwneud enwebiad, gan nad oedd unrhyw hawl i aelodau o Gynllun 1992 wneud hynny, felly mae'n bosibl y bydd rheolwr y cynllun yn gwneud dewis syml i dalu'r cynnydd i'r unigolyn cymwys sy'n gwneud penderfyniadau.

b. Bydd y cyfandaliad yn lleihau (o 3x i 2x y cyflog) os oedd yr aelod sydd wedi marw yn aelod o Gynllun 2015 adeg ei farwolaeth, ond bod yr unigolyn cymwys sy'n gwneud penderfyniadau yn dewis Cynllun 1992. Rydym yn cynnig y dylid adennill y gwarged hwnnw os cafodd y cyfandaliad gwreiddiol ei dalu i'r unigolyn cymwys sy'n gwneud penderfyniadau, naill ai fel cyfandaliad neu fel didyniadau rheolaidd o daliadau pensiwn, fel y bydd yn well gan yr unigolyn cymwys sy'n gwneud penderfyniadau. Ond yn unol â'n cynigion uchod, os mai rhywun arall oedd y derbynnydd, neu endid corfforaethol, neu ystad yr aelod sydd wedi marw, yna dylid diystyru'r gwarged.

130. Mae'n bosibl y bydd aelod yr effeithir arno wedi marw yn ystod cyfnod y rhwymedi ac na fydd wedi gadael unrhyw un sydd â'r hawl i bensiwn goroeswr, ond y bydd wedi enwebu rhywun i gael cyfandaliad o dan Gynllun 2015 (brawd neu chwaer, er enghraifft). Mewn achosion o'r fath, rydym yn cynnig y dylai rheolwr y cynllun dalu'r cyfandaliad o dan Gynllun 2015, os nad yw eisoes wedi gwneud hynny. Ni fyddai unrhyw ddiben cynnig dewis i'r enwebai hwnnw rhwng cyfandaliad o dan Gynllun 2015, a chyfandaliad o dan Gynllun 1992, llai o bosibl ddiffyg cyfraniadau, lle bo'r cyntaf siŵr o fod yn uwch ym mhob achos. Nid oes angen pennu unigolyn cymwys sy'n gwneud penderfyniadau mewn achosion o'r fath, ac nid oes angen gwneud darpariaeth yn hyn o beth yn ein rheoliadau.

[17] Nid oes unrhyw broblemau yn codi i aelodau lle mai Cynllun 2007 yw eu cynllun etifeddol, gan fod y cynllun hwnnw yn talu cyfandaliadau marwolaeth ar delerau sy'n union debyg i delerau Cynllun 2015.

131. Mae darpariaethau sy'n ymdrin â chyfandaliadau marwolaeth yn ofynnol gan adran 14 o Ddeddf 2022. Maent wedi'u cynnwys yn rheoliad 66 o'n drafft.

***Cwestiwn 17 yr ymgynghoriad***

I ba raddau rydych chi'n cytuno â'n cynigion canlynol:

- Dylid ailgyfrifo cyfandaliadau marwolaeth i aelodau a fu farw yn ystod cyfnod y rhwymedi yn unol â dewis yr unigolyn cymwys sy'n gwneud penderfyniadau, a dylid adennill unrhyw ostyngiad mewn cyfandaliad a dalwyd i'r unigolyn cymwys sy'n gwneud penderfyniadau ganddo; ond
- Dylid diystyru gwargedion mewn cyfandaliadau marwolaeth a dalwyd i unigolion ac eithrio'r unigolyn cymwys sy'n gwneud penderfyniadau, neu i ystad yr aelod sydd wedi marw.
- Lle bu farw aelod yr effeithir arno yn ystod cyfnod y rhwymedi ac na fydd gan neb hawl i bensiwn goroeswr, ond ei fod wedi enwebu unigolyn dilys i gael cyfandaliad marwolaeth o dan Gynllun 2015, dylai rheolwr y cynllun dalu'r swm hwnnw heb fod angen cynnig dewis i'r enwebai.

## 6. Buddion pensiwn ychwanegol

132. Mae pob cynllun pensiwn diffoddwyr tân yn caniatáu i aelodau brynu buddion pensiwn ychwanegol os byddant am wneud hynny. Unwaith eto, mae'r telerau yn hyn o beth, a'r hawliau i wneud hynny, yn amrywio rhwng y tri chynllun. Yng Nghynlluniau 1992 a 2007, gall aelodau brynu blynyddoedd ychwanegol o wasanaeth pensiynadwy, mewn unedau o 1/60 o'r tâl pensiynadwy (gan mai dyna'r gyfradd gronni ar gyfer y cynlluniau hyn). Yng Nghynllun 2015, gall aelodau brynu buddion pensiwn ychwanegol yn uniongyrchol (gan gynyddu cyfradd eu cyfraniadau i bob pwrpas), am unrhyw swm a ddewisir ganddynt hyd at uchafswm. Ym mhob achos, gellir talu am fuddion pensiwn ychwanegol mewn rhandaliadau, neu (yn amodol ar rai cyfyngiadau) fel cyfandaliad.

### Prynu pensiwn ychwanegol yn ystod cyfnod y rhwymedi

133. Ein dull gweithredu cyffredinol mewn perthynas â'r rhwymedi yw gosod yr aelodau yr effeithir arnynt yn y sefyllfa y byddent wedi bod ynddi pe na fyddent wedi cael eu trosglwyddo'n amhriodol i mewn i Gynllun 2015. Felly, mewn egwyddor, byddem yn anelu at drin unrhyw bensiwn ychwanegol a brynwyd yn ystod cyfnod y rhwymedi fel petai wedi cael ei brynu yn y cynllun etifeddol. Felly byddai aelod a brynodd bensiwn ychwanegol o dan Gynllun 2015 yn 2020 (er enghraifft), yn cael y pensiwn hwnnw wedi'i drosi i flynyddoedd ychwanegol o dan y cynllun etifeddol pan fyddai'n dychwelyd i'w gynllun etifeddol.

134. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl gwneud trosiad uniongyrchol rhwng pensiwn ychwanegol a brynwyd yng Nghynllun 2015 a blynyddoedd ychwanegol o wasanaeth pensiynadwy yng Nghynllun 1992 neu Gynllun 2007 ym mhob achos. Dim ond ar gyfer trosi rhwng buddion o “werth cyfatebol” y mae Adran 20 o Ddeddf 2022 yn caniatáu i reolau cynlluniau ddarparu ar ei gyfer; ac nid yw'n bosibl dweud bod swm o bensiwn ychwanegol o “werth cyfatebol” i nifer o flynyddoedd ychwanegol o wasanaeth, gan mai dim ond pan fydd aelod yn ymddeol y bydd gwerth y blynyddoedd ychwanegol hynny yn hysbys. Rydym wedi ystyried a fyddai'n bosibl defnyddio ffyrdd eraill o greu buddion ychwanegol yn y cynlluniau etifeddol, fel trin gwerth y pensiwn ychwanegol yng Nghynllun 2015 fel ychwanegiad dros dro i'r tâl pensiynadwy mewn cynllun etifeddol. Ond ni chredwn y byddai'n deg i'r aelodau nas effeithir arnynt na'r aelodau yr oedd diogelwch ganddynt, nad oes ganddynt hawliau o’r fath.

135. Felly, yn lle hynny, rydym yn cynnig y bydd aelodau yr effeithir arnynt a brynodd bensiwn ychwanegol o dan Gynllun 2015 yn ystod cyfnod y rhwymedi yn cael ad-daliad gan reolwr y cynllun, ynghyd â llog. Fodd bynnag, mae un eithriad i hyn. Ni fydd yr aelodau hynny sydd â'r hawl i wneud dewis uniongyrchol (h.y., sydd eisoes wedi ymddeol pan ddaw'r rheoliadau hyn i rym ar 1 Hydref 2023) yn cael yr ad-daliad hwn hyd nes y byddant wedi gwneud y dewis hwnnw, a dim ond os byddant bryd hynny yn dewis gosod eu gwasanaeth yn ystod cyfnod y rhwymedi yn eu cynllun etifeddol. Os byddant yn dewis Cynllun 2015, yna caiff y pensiwn ychwanegol a brynwyd ganddynt ei ychwanegu at eu pensiwn yn y cynllun hwnnw yn y ffordd arferol.

136. Mae adran 20 o Ddeddf 2022 yn galluogi rheoliadau'r cynllun i wneud darpariaethau o'r fath. Maent wedi'u hadlewyrchu yn rheoliadau 31 a 32 o'n drafft.

***Cwestiwn 18 yr ymgynghoriad***

I ba raddau rydych chi'n cytuno â'n cynigion, sef:

- Gall aelodau yr effeithir arnynt a brynodd bensiwn ychwanegol o dan Gynllun 2015 yn ystod cyfnod y rhwymedi gael ad-daliad o gost hynny, ynghyd â llog; ond
- Ni all aelodau a fydd yn gwneud dewis uniongyrchol gael yr ad-daliad hwnnw os byddant yn gwneud dewis uniongyrchol o blaid Cynllun 2015.

## Prynu buddion pensiwn ychwanegol yn ôl-weithredol

137. Mae dychwelyd aelodau yr effeithir arnynt i'w cynlluniau etifeddol hefyd yn creu hawl ôl-weithredol i brynu buddion pensiwn ychwanegol yn y cynlluniau hynny. Hynny yw, byddai aelodau o'r fath wedi gallu prynu buddion o'r fath ar y pryd, a dylai fod ganddynt yr hawl i wneud hynny nawr. Mae Adran 25 o Ddeddf 2022 yn galluogi rheoliadau'r cynllun i roi'r hawl honno, ac rydym yn cynnig gwneud hynny: caiff ei adlewyrchu yn rheoliadau 33 o'n drafft.

138. Yn naturiol, byddai unrhyw benderfyniad o'r fath i brynu'n ôl-weithredol wedi'i lywodraethu gan reolau'r cynllun etifeddol. Er enghraifft, dim ond drwy gyfandaliad ac o fewn tair blynedd i ymuno â'r cynllun y mae Cynllun 1992 yn caniatáu i aelodau brynu blynyddoedd ychwanegol; ni fyddai'r opsiwn hwnnw ar gael yn ôl-weithredol i aelodau yr effeithir arnynt gan na fyddai wedi bod ar gael iddynt ar y pryd pe na fyddent wedi trosglwyddo. Rydym yn cynnig y byddai'n rhaid gwneud unrhyw benderfyniad ôl-weithredol i brynu buddion pensiwn ychwanegol o fewn blwyddyn i'r dyddiad y bydd yr aelod yn cael ei ddatganiad gwasanaeth rhwymediadwy cychwynnol. Byddai cost buddion pensiwn ychwanegol a brynwyd yn ôl-weithredol hefyd yn destun llog; ond fel arall, byddai aelodau yr effeithir arnynt yn gallu prynu pensiwn ychwanegol yn ôl-weithredol yn eu cynlluniau etifeddol yn yr un ffordd ag y byddent wedi gallu gwneud hynny pe na fyddent wedi gadael y cynlluniau hynny yn 2015.

139. Fel sy’n ofynnol gan adran 25(2) o Ddeddf 2022, bydd rheolau cynlluniau yn cyfyngu ar yr hawl hon i achosion lle mae rheolwr y cynllun yn fodlon y byddai'r aelod dan sylw wedi prynu buddion pensiwn ychwanegol yn ei gynllun etifeddol pe na fyddai byth wedi gadael y cynllun hwnnw. Nid ydym o’r farn bod llawer o werth i ddarpariaeth o’r fath oherwydd, yn y rhan fwyaf o achosion, ni fydd unrhyw dystiolaeth y naill ffordd na’r llall heblaw honiad syml gan yr aelod o’r cynllun, ni fyddai modd i reolwr y cynllun ei wrthbrofi. Ond rydym wedi ein rhwymo gan delerau Deddf 2022.

***Cwestiwn 19 yr ymgynghoriad***

I ba raddau rydych chi'n cytuno â'n cynigion, sef:

- Byddai gan aelodau yr effeithir arnynt hawl ôl-weithredol i brynu buddion pensiwn ychwanegol yn eu cynlluniau etifeddol yn ystod cyfnod y rhwymedi, ar yr un telerau ag a oedd yn gymwys i bryniant o'r fath a chan addasu cost gwneud hynny at ddibenion llog;
- Rhaid gwneud unrhyw ddewis o'r fath o fewn blwyddyn i'r dyddiad y bydd yr aelod yn cael ei ddatganiad gwasanaeth rhwymediadwy cychwynnol.

## 7. Ysgaru a diddymu

140. Pan ddaw priodas i ben drwy ysgariad, neu pan gaiff partneriaeth sifil ei diddymu, mae'n gyffredin i'r llys ystyried hawliau pensiwn yr unigolion sy'n ysgaru neu'n diddymu eu partneriaeth wrth gytuno ar setliad ariannol rhyngddynt. Mae hyn yr un mor wir i ddiffoddwyr tân ag i bob galwedigaeth arall. Mae'r sefyllfa ar gyfer ysgariadau a diddymiadau yn union yr un fath, ac mae ein cynigion yr un mor berthnasol i'r ddwy broses.

141. Cyfeirir at yr unigolyn yr ymdrinnir â'i fuddion pensiwn yn y fath fodd fel yr *aelod debyd pensiwn*; a'r unigolyn arall sy'n rhan o'r ysgariad neu'r diddymiad, a fydd yn derbyn cyfran o fuddion yr aelod debyd pensiwn, yw'r *aelod credyd pensiwn*. Daw aelod credyd pensiwn yn aelod o'r cynllun yn ei rinwedd ei hun. Mae'r penderfyniadau a wneir gan y llys fel arfer yn dibynnu ar gyfrifiad gan reolwr y cynllun o *werth trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod* (CETV), h.y., gwerth cyfredol buddion pensiwn yr aelod wedi'i fynegi ar ffurf arian parod. Unwaith y bydd CETV o'r fath wedi'i gyfrifo a'i ddarparu, gall y llys weithredu mewn tair ffordd:

a. *Gorchymyn atafael pensiwn*, lle y caiff cyfran o fuddion pensiwn yr aelod debyd pensiwn ei dyrannu i'r aelod credyd pensiwn ar yr adeg y daw'r buddion hynny'n daladwy (e.e., pan fydd yr aelod debyd pensiwn yn ymddeol). Mae gorchmynion atafael pensiwn yn gymharol anghyffredin erbyn hyn, gan nad oes modd gwybod gwerth buddion yr aelod debyd pensiwn yn y dyfodol ar adeg yr ysgariad neu'r diddymiad, felly mae risg y bydd y penderfyniad yn annheg i un o'r ddau barti.

b. *Gorchymyn rhannu pensiwn*, sy'n osgoi'r problemau hyn. O dan orchymyn o'r fath, caiff cyfran o fuddion pensiwn yr aelod debyd pensiwn a gronnwyd hyd at adeg dyfarnu'r ysgariad neu'r diddymiad ei dyrannu i'r aelod credyd pensiwn. Ni chaiff buddion a fydd yn cronni yn y dyfodol gan yr aelod debyd pensiwn eu rhannu â'r aelod credyd pensiwn.

c. *Gwrthbwyso pensiwn*, lle caiff gwerth y pensiwn ei netio yn erbyn gwerth asedau eraill a ddelir gan y cwpwl, ac wedyn caiff yr asedau hynny eu dosbarthu rhwng y partïon mewn ffordd briodol. Er enghraifft, gallai'r aelod gadw ei fuddion pensiwn i gyd, ond gael cyfran gymesurol is o'r ecwiti yn y cartref priodasol.

142. Mae'n bosibl iawn y bydd y rhwymedi a gynigir gennym, a'r penderfyniadau y bydd aelodau â hawl yn eu gwneud fel rhan o'r broses, yn newid gwerth terfynol eu buddion pensiwn. Mae hynny'n golygu ei bod hi'n bosibl hefyd y bydd angen newid y gwerthoedd CETV a gyfrifwyd ar eu cyfer fel rhan o ysgariad neu ddiddymiad, a'r buddion sy'n daladwy i'r ddau barti. Fodd bynnag, nid yw aelodau credyd pensiynau eu hunain wedi bod yn destun unrhyw achos o wahaniaethu. Felly nid oes hawl ganddynt eu hunain i rwymedi, nac i wneud unrhyw fath o ddewis uniongyrchol neu ohiriedig. Mae'r cynigion a nodir gennym yma yn anelu at sicrhau bod y system yn parhau i weithredu mewn ffordd deg ar ôl gwneud addasiadau ar gyfer y rhwymedi a roddir i aelodau debyd pensiynau â hawl. Maent yn gweithio drwy addasu buddion pensiwn y ddau barti; ni fyddai angen i'r llys ailarchwilio'r gorchmynion a wnaed ganddo.

## Gorchmynion atafael pensiwn

143. Fel y nodir uchod, mae ansicrwydd yn rhan annatod o orchmynion atafael pensiwn. Onid oedd yr aelod debyd pensiwn eisoes wedi ymddeol ar adeg yr ysgariad neu'r diddymiad, mae'n amhosibl pennu ei union fuddion pensiwn yn y pen draw, gan y bydd hynny'n dibynnu ar ei enillion a'i benderfyniadau gyrfa yn y dyfodol. Felly mae hefyd yn amhosibl gwybod union werth cyfran o'r buddion hynny y mae gorchymyn atafael pensiwn yn berthnasol iddi.

144. Am y rheswm hwnnw, nid ydym yn cynnig y dylid gweithredu mewn unrhyw ffordd mewn perthynas ag aelodau â hawl y mae gorchymyn atafael pensiwn eisoes yn weithredol ar eu cyfer, ond nad yw eu pensiwn wedi dechrau cael ei dalu eto pan ddaw ein rheoliadau i rym ar 1 Hydref 2023. Bydd gan aelodau o'r fath yr hawl i wneud dewis gohiriedig, a gallai'r dewis hwnnw olygu y byddai gwerth eu buddion pensiwn (ac felly y CETV) yn wahanol i'r gwerth a ragwelwyd ar adeg yr ysgariad neu'r diddymiad. Ond mae'n bosibl y bydd y newid mewn buddion i'r aelod credyd pensiwn sy'n deillio o ailgyfrifo'r CETV yn ôl-weithredol mewn sawl achos yn llawer is na'r newid a fyddai'n deillio (er enghraifft) o sefyllfa lle y bydd yr aelod debyd pensiwn yn cael ei ddyrchafu ar ryw adeg yn y dyfodol, neu'n ymddeol ar sail afiechyd.

145. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa yn wahanol mewn achosion lle mae gorchymyn atafael pensiwn yn weithredol, lle bo pensiwn yr aelod debyd pensiwn eisoes yn cael ei dalu. Mewn achosion o'r fath, bydd yr aelod debyd pensiwn yn gwneud dewis uniongyrchol rhwng gosod ei wasanaeth yn ystod cyfnod y rhwymedi yng Nghynllun 2015 neu yn ei gynllun etifeddol. Gallai'r dewis hwnnw leihau ei bensiwn blynyddol, a fyddai'n lleihau gwerth cyfran y pensiwn hwnnw sy'n daladwy i'r aelod credyd pensiwn hefyd. Fel arfer, byddai gostyngiad o'r fath yn cael ei ôl-ddyddio i adeg yr ymddeoliad ac yn cael ei adennill gan yr aelod o'r cynllun. Ond rydym o'r farn y byddai'n annheg cymhwyso'r un rheol i'r aelod credyd pensiwn, na fydd wedi bod yn rhan o'r penderfyniad dewis uniongyrchol o gwbl. Fel gyda'r buddion goroeswr sy'n daladwy i bobl ac eithrio'r unigolyn cymwys sy'n gwneud penderfyniadau (gweler pennod 5), rydym felly yn cynnig y dylai rheolwr y cynllun ddiystyru'r gordaliad hanesyddol a wnaed i'r aelod credyd pensiwn o dan amgylchiadau o'r fath. Yn naturiol, os bydd yr aelod debyd pensiwn yn gwneud dewis uniongyrchol sy'n cynyddu gwerth ei bensiwn, yna bydd gwerth cyfran yr aelod credyd pensiwn yn cynyddu hefyd.

146. Er enghraifft, mae Diffoddwr Tân O yn ysgaru Mr P yn 2018, fel aelod a ddiogelir yn llawn o Gynllun 1992. Fel rhan o setliad yr ysgariad, dyfernir 40% o bensiwn terfynol O i P o dan orchymyn atafael pensiwn; ac wrth i O ymddeol yn 2020, caiff P £8,000 o'i phensiwn blynyddol o £20,000. Nawr, mae O yn gwneud dewis uniongyrchol i osod ei gwasanaeth yn ystod cyfnod y rhwymedi yng Nghynllun 2015, ac mae cyfanswm ei phensiwn yn lleihau o £20,000 i £18,000, felly bydd cyfran P ohono yn lleihau o £8,000 i £7,200. Fodd bynnag, byddai'r swm gormodol a dalwyd yn hanesyddol i P (£800 y flwyddyn, neu £2,400 erbyn 2023) yn cael ei ddiystyru ac ni fyddai'n ofynnol iddo ei ad-dalu.

147. Fodd bynnag, pe byddai'r sefyllfa wedi'i wrthdroi a bod O wedi cael ei throsglwyddo'n amhriodol o Gynllun 1992 yn 2015, yna byddai wedi cael pensiwn o £18,000 adeg

ymddeol a byddai P wedi cael cyfran o £7,200. Pe byddai O wedyn yn gwneud dewis uniongyrchol i osod ei gwasanaeth yn ystod cyfnod y rhwymedi yng Nghynllun 1992, byddai ei phensiwn yn cynyddu i £20,000 a byddai cyfran P ohono yn cynyddu i £8,000, gyda'r ddau gynnydd yn cael eu hôl-ddyddio i ddyddiad ymddeoliad O yn 2020.

148. O ran ysgariadau a diddymiadau sy'n digwydd ar ôl i'n rheoliadau ddod i rym, a lle nad yw'r aelod debyd pensiwn wedi ymddeol a gwneud dewis gohiriedig eto, rydym yn cynnig y dylai'r llys gael dau CETV, un yr un ar gyfer gosod gwasanaeth yr aelod yn ystod cyfnod y rhwymedi yng Nghynllun 2015 ac yn y cynllun etifeddol. Wedyn dylai ddefnyddio'r uchaf o'r ddau fel sail dros wneud gorchymyn atafael pensiwn (os bydd yn dewis gwneud gorchymyn o'r fath).

149. Ar gyfer ysgariadau a diddymiadau yn y dyfodol lle mae'r aelod debyd pensiwn eisoes wedi ymddeol ac wedi gwneud dewis uniongyrchol neu ohiriedig, yna dylai'r CETV (unigol) adlewyrchu'r dewis hwnnw; wedyn gellir gwneud gorchymyn atafael pensiwn yn y ffordd arferol. Nid ydym yn credu bod angen unrhyw ddarpariaeth benodol ar gyfer hyn yn ein rheoliadau.

***Cwestiwn 20 yr ymgynghoriad***

I ba raddau rydych chi'n cytuno â'n cynigion ar gyfer gorchmynion atafael pensiwn, sef:

- Pan fo gorchymyn atafael pensiwn yn weithredol eisoes ond nad yw'r pensiwn wedi dechrau cael ei dalu eto, ni ddylid cymryd unrhyw gamau gweithredu;
- Pan fo gorchymyn atafael pensiwn yn weithredol eisoes a bod y pensiwn eisoes yn cael ei dalu, gall y pensiwn sy'n daladwy i'r aelod credyd pensiwn newid o ganlyniad i ddewis uniongyrchol yr aelod debyd pensiwn, ond caiff unrhyw swm gormodol o bensiwn o'r fath a dalwyd yn hanesyddol o ganlyniad i'r dewis ei ddiystyru;
- Ar gyfer ysgariadau a diddymiadau sy'n digwydd yn y dyfodol ond cyn i'r aelod debyd pensiwn wneud dewis gohiriedig, dylid cyfrifo'r gwerthoedd CETV ar gyfer gosod gwasanaeth yr aelod yn ystod cyfnod y rhwymedi yng Nghynllun 2015 a'r cynllun etifeddol, a dylai'r llys ddefnyddio'r uchaf o'r ddau.

## Gorchmynion rhannu pensiwn

150. Fel y nodir uchod, mae gorchmynion rhannu pensiwn yn ymwneud â'r buddion pensiwn y mae'r aelod debyd pensiwn wedi'u cronni ar adeg yr ysgariad neu'r diddymiad yn unig, fel y'u hadlewyrchir mewn CETV a gyfrifwyd bryd hynny. Mae hyn yn golygu na fydd ein cynigion yn effeithio ar orchmynion rhannu pensiwn a wnaed fel rhan o ysgariadau neu ddiddymiadau a ddigwyddodd cyn cyfnod y rhwymedi (h.y., ar neu cyn 31 Mawrth 2015) o gwbl, gan nad ydynt yn ymwneud â phensiynau a gafodd eu

cronni yn ystod cyfnod y rhwymedi. Mae hefyd yn golygu nad yw'r ansicrwydd sy'n rhan annatod o orchmynion atafael pensiwn a threfniadau gwrthbwyso pensiwn gan nad yw gwerth pensiwn yr aelod debyd yn y dyfodol yn hysbys yn codi. Ond mae cymhlethdodau eraill y mae ein cynigion yn ymdrin â nhw.

*Gorchmynion rhannu pensiwn sydd eisoes ar waith*

151. Lle bo gorchymyn rhannu pensiwn eisoes ar waith pan ddaw ein rheoliadau i rym ar 1 Hydref 2023, byddai ein cynigion yn cael yr effeithiau canlynol. Yn gyntaf, mae’r ffaith bod gan aelodau ddewis o fuddion cynllun etifeddol neu fuddion cynllun newydd ar gyfer cyfnod y rhwymedi yn golygu, yn achos aelodau debyd actif a gohiriedig, bod dau ddebyd pensiwn posibl yn cael eu creu – un yn seiliedig ar osod eu gwasanaeth yn ystod cyfnod y rhwymedi yng Nghynllun 2015 ac un ar osod gwasanaeth o'r fath yn eu cynllun etifeddol, ond mae'r ddau yn seiliedig ar y cyfrannau a bennir yn y gorchymyn rhannu pensiwn. Rydym yn cynnig y bydd angen cyfrifo a dangos y ddau ar ddatganiad gwasanaeth rhwymediadwy pob aelod. Ar gyfer aelodau sydd wedi ymddeol, mae'r un dau ddebyd pensiwn posibl yn berthnasol a bydd angen eu cynnwys yn eu datganiad gwasanaeth rhwymediadwy er mwyn llywio eu dewis uniongyrchol. Yn amlwg, unwaith y bydd yr aelod debyd wedi gwneud dewis uniongyrchol neu ohiriedig, caiff y broses o dalu ei bensiwn ei rhoi ar waith a chaiff y debyd priodol ei ddidynnu.

152. Er enghraifft, gwnaeth Diffoddwr Tân Q ysgaru Ms R yn 2020, ar ôl cael ei drosglwyddo'n amhriodol o Gynllun 1992 yn 2015. Nododd y CETV a gyfrifwyd ar gyfer y llys bryd hynny mai buddion pensiwn cronedig Q hyd at yr adeg honno oedd £10,000, a dyfarnodd y llys 50% ohonynt i R ar ffurf gorchymyn rhannu pensiwn. Ar adeg dychwelyd i Gynllun 1992, caiff y CETV ei ailgyfrifo gan nodi mai gwerth buddion Q ar adeg yr ysgariad yw £12,000. Felly y debydau i'w dangos ar ddatganiad gwasanaeth rhwymediadwy Q, ac i'w cymhwyso pan fydd yn gwneud dewis uniongyrchol neu ohiriedig, yw £5,000 (wrth osod ei gwasanaeth yn ystod cyfnod rhwymedi yng Nghynllun 2015) a £6,000 (wrth osod ei gwasanaeth yn ystod cyfnod y rhwymedi yng Nghynllun 1992).

153. Mae'r sefyllfa mewn achosion o'r fath yn fwy cymhleth o ran aelodau credyd pensiwn. Nid oes ganddynt unrhyw wasanaeth pensiynadwy y gellir ei wrthdroi i mewn i'r cynllun etifeddol. Ond mae ganddynt gyfran o fuddion yr aelod debyd pensiwn fel y'u cronnwyd cyn ac yn ystod cyfnod y rhwymedi h.y., gallai fod ganddynt fuddion credyd pensiwn yng nghynllun etifeddol yr aelod debyd ac yng Nghynllun 2015[18].

154. Er mwyn ymdrin â hyn, rydym yn cynnig ei gwneud yn ofynnol i reolwyr cynlluniau gyfrifo CETV ar gyfer cyfnodau o wasanaeth yn ystod cyfnod y rhwymedi yn y cynllun ac eithrio'r cynllun yr oedd yr aelod debyd yn aelod ohono ar adeg yr ysgariad neu'r diddymiad. Os oedd hynny'n uwch na'r CETV a ddarparwyd i'r llys, yna byddai'r gwahaniaeth yn cael ei ddyfarnu i'r aelod credyd pensiwn ar ffurf credyd pensiwn ychwanegol. Mae'r dull hwn yn rhoi cyfran deg o werth uchaf posibl buddion yr aelod debyd ar adeg yr ysgariad neu'r diddymiad i'r aelod credyd pensiwn. Gan ddefnyddio'r

[18] DS os mai dim ond gwasanaeth yng Nghynllun 2015 neu yn y cynllun etifeddol oedd gan yr aelod debyd pensiwn, ac mai dim ond gwasanaeth o'r fath a allai fod wedi bod ganddo erioed, h.y., dim ond am ei fod wedi dechrau gweithio ar neu ar ôl 1 Ebrill 2012, neu iddo adael ar neu cyn 31 Mawrth 2015 y gallai hynny fod. Mae hynny'n golygu na fyddai'n aelod â hawl, felly ni fyddai unrhyw effaith ar orchymyn rhannu pensiwn.

enghraifft uchod, byddai Ms R yn cael credyd pensiwn ychwanegol o £1,000, sy'n adlewyrchu'r gwahaniaeth rhwng y CETV a ddefnyddiwyd ar adeg ei hysgariad (ac yn seiliedig ar osod gwasanaeth Q yng Nghynllun 2015) a'r CETV uwch yn seiliedig ar osod gwasanaeth Q yng Nghynllun 1992. Nodwch y byddai'r credyd hwn yn annibynnol ac unrhyw ddewis uniongyrchol neu ohiriedig a wnaed gan yr aelod debyd pensiwn, ac na fyddai hynny'n effeithio arno.

155. Wedyn y dull amlwg fyddai cymhwyso'r credyd at fuddion yr aelod credyd pensiwn ym mha un bynnag o'r cynlluniau y cafwyd y CETV uchaf. Fodd bynnag, byddai hefyd yn bosibl rhoi dewis i'r aelod credyd pensiwn o ran a ddylid cymhwyso'r credyd at ei fuddion o dan Gynllun 2015 neu ei fuddion o dan ei gynllun etifeddol. Byddai hynny'n gyson â'r egwyddor gyffredinol lle caiff aelodau (gan gynnwys aelodau credyd pensiwn yn yr achos hwn) benderfynu drostynt eu hunain pa opsiwn fyddai orau iddynt. Ar y llaw arall, gellid dadlau na fu aelodau credyd pensiwn yn destun unrhyw wahaniaethu ac felly na ddylai fod hawl ganddynt i wneud dewis sy'n debyg i'r dewis a fydd ar gael i aelodau llawn o gynlluniau. Byddem yn ddiolchgar i gael sylwadau ynghylch a ellir cyfiawnhau rhoi dewis i aelodau credyd pensiwn o dan yr amgylchiadau hyn.

***Cwestiwn 21 yr ymgynghoriad***

I ba raddau rydych chi'n cytuno â'n cynigion ar gyfer gorchmynion rhannu pensiwn sydd eisoes yn weithredol ar 1 Hydref 2023, sef:

- Dylai datganiadau gwasanaeth rhwymediadwy ar gyfer aelodau debyd pensiwn â hawl gynnwys debydau pensiwn yn seiliedig ar osod eu gwasanaeth yn ystod cyfnod y rhwymedi yn y cynllun etifeddol ac yng Nghynllun 2015 (ac y gwneir dewisiadau uniongyrchol a gohiriedig yn unol â hynny);
- Dylai rheolwyr cynlluniau ailgyfrifo gwerthoedd CETV ar adeg ysgariadau neu ddiddymiadau yn seiliedig ar y cynllun nad oedd yr aelod debyd yn aelod ohono ar y pryd;
- Os bydd y CETV hwnnw yn uwch na'r un a ddefnyddiwyd gan y llys, yna dylai'r aelod credyd pensiwn gael credyd pensiwn am y gwahaniaeth rhyngddynt.

***Cwestiwn 22 yr ymgynghoriad***

A ydych o blaid cymhwyso credyd pensiwn o'r fath yn awtomatig at fuddion yr aelod credyd pensiwn ym mha gynllun bynnag y cafwyd y CETV uwch; neu a ddylid cynnig dewis i aelodau yn hynny o beth?

*Gorchmynion rhannu pensiwn yn y dyfodol*

156. Ar gyfer gorchmynion rhannu pensiwn a gaiff eu gwneud fel rhan o ysgariadau neu ddiddymiadau sy'n digwydd ar ôl i'n rheoliadau ddod i rym, byddai'r weithdrefn yn wahanol. Erbyn hynny, bydd aelodau debyd pensiwn actif a gohiriedig wedi dychwelyd yn awtomatig i'w cynlluniau etifeddol, felly dylai'r CETV a roddir i'r llys (a'r buddion a

gaiff eu darparu i'r aelod credyd pensiwn) adlewyrchu hynny.

157. Pan fydd aelodau o'r fath yn gwneud dewis gohiriedig, bydd angen addasu'r debyd pensiwn os byddant yn dewis gosod eu gwasanaeth yn ystod cyfnod y rhwymedi yng Nghynllun 2015. Ond nid ydym yn rhagweld y bydd angen addasu sefyllfa'r aelod credyd pensiwn: bydd yn dal i gael buddion yn seiliedig ar y pensiwn sydd wedi cronni adeg yr ysgariad neu'r diddymiad.

158. Ar gyfer aelodau sydd wedi ymddeol sy'n ysgaru neu'n diddymu partneriaeth ar ôl gwneud dewis uniongyrchol neu ohiriedig, dylai'r CETV ac unrhyw orchymyn rhannu pensiwn sy'n deillio ohono fod yn amlwg yn seiliedig ar y dewis hwnnw.

***Cwestiwn 23 yr ymgynghoriad***

I ba raddau rydych chi'n cytuno â'n cynigion ar gyfer gorchmynion rhannu pensiwn a gaiff eu gwneud ar neu ar ôl 1 Hydref 2023, sef:

- Ar gyfer aelodau actif a gohiriedig, dylai'r CETV a roddir i'r llys fod yn seiliedig ar osod gwasanaeth yr aelod yn ystod cyfnod y rhwymedi yn y cynllun etifeddol.
- Lle bydd aelodau o'r fath wedyn yn gwneud dewis gohiriedig i osod eu gwasanaeth yn ystod cyfnod y rhwymedi yng Nghynllun 2015, caiff eu debyd pensiwn ei addasu'n unol â hynny (ond ni fydd buddion yr aelod credyd pensiwn yn newid);
- Ar gyfer aelodau sydd wedi ymddeol sy'n ysgaru neu'n diddymu partneriaeth ar ôl gwneud dewis uniongyrchol neu ohiriedig, mae'r CETV a roddir i'r llys yn adlewyrchu'r dewis hwnnw.

## Gwrthbwyso pensiwn

159. Pan fydd llys yn penderfynu gwrthbwyso gwerth pensiwn yn erbyn asedau eraill sy'n rhan o setliad yr ysgariad neu'r diddymiad, mae effaith y rhwymedi a gynigir gennym yn gyfyngedig ac mae'r broses o gyfrifo ar ei gyfer yn gymharol syml. Mae hyn gan mai dim ond i'r aelod o'r cynllun y bydd buddion pensiwn yn parhau'n daladwy, ac nid i'r unigolyn arall sy'n rhan o'r ysgariad neu'r diddymiad; caiff gwerth cyfwerth cyfran ohonynt ei ddyfarnu i'r unigolyn arall hwnnw ar ffurf cyfran uwch o'r asedau eraill hynny. Yr unig fater i'w ystyried yw a yw'r CETV a ddefnyddir i bennu'r gwerth hwnnw yn ddilys o hyd.

160. Ar gyfer ysgariadau neu ddiddymiadau sydd eisoes wedi digwydd pan ddaw ein rheoliadau i rym, ac y defnyddiwyd dull gwrthbwyso pensiwn ar eu cyfer, mae'n bosibl y gallai'r CETV a ddefnyddiwyd gan y llys fod yn anghywir gan ddibynnu ar y dewis uniongyrchol neu ohiriedig a wneir gan yr aelod o'r cynllun dan sylw. Fodd bynnag, ac fel y nodwyd gennym uchod ym mharagraff 141, mae ansicrwydd yn rhan annatod o werth pensiynau yn y dyfodol mewn unrhyw achos; ac nid ydym o'r farn y gellir cyfiawnhau ceisio ailgyfrifo gwerthoedd CETV yn ôl-weithredol. At hynny, gan nad oes

unrhyw aelod credyd pensiwn o dan y trefniadau hyn, ni ellid unioni'r sefyllfa drwy addasu buddion pensiwn. Nid oes modd gwneud cais i'r llys ychwaith i amrywio'r trefniadau gwrthbwyso a wnaed fel rhan o setliad ysgariad neu ddiddymiad.

161. Pan fydd ysgariad neu ddiddymiad yn digwydd ar ôl i'n rheoliadau ddod i rym, ond cyn i'r aelod â hawl wneud dewis uniongyrchol neu ohiriedig, mae'r broses yn debyg i'r broses ar gyfer gorchmynion atafael pensiwn. Dylid cyfrifo dau CETV, yn seiliedig ar osod gwasanaeth yr aelod yn ystod cyfnod y rhwymedi yn y cynllun etifeddol ac yng Nghynllun 2015, a dylai'r llys ddefnyddio'r uchaf o'r ddau fel sail ar gyfer trefniant gwrthbwyso. Unwaith eto, ni fyddai hynny'n newid o ganlyniad i ddewis uniongyrchol neu ohiriedig a wnaed gan yr aelod â hawl.

***Cwestiwn 24 yr ymgynghoriad***

I ba raddau rydych chi'n cytuno â'n cynigion ar gyfer trefniadau gwrthbwyso pensiwn, sef:

- Lle bo trefniadau gwrthbwyso eisoes ar waith pan ddaw ein rheoliadau i rym, ni chaiff unrhyw gamau gweithredu eu cymryd;
- Ar gyfer ysgariadau a diddymiadau sy'n digwydd yn y dyfodol ond cyn i'r aelod debyd pensiwn wneud dewis gohiriedig, dylid cyfrifo'r gwerthoedd CETV ar gyfer gosod gwasanaeth yr aelod yn ystod cyfnod y rhwymedi yng Nghynllun 2015 a'r cynllun etifeddol, a dylai'r llys ddefnyddio'r uchaf o'r ddau.

## 8. Trosglwyddiadau rhwng cynlluniau

162. Pan fydd cyflogeion, gan gynnwys diffoddwyr tân, yn symud rhwng cyflogwyr sy'n cynnig gwahanol gynlluniau pensiwn galwedigaethol, yn gyffredinol byddant yn gallu dewis naill ai:

a. cadw eu pensiwn yn eu hen gyflogaeth, a dod yn aelodau gohiriedig o'u cynllun blaenorol, ac ymuno â chynllun eu cyflogwr newydd o'r newydd; neu

b. trosglwyddo eu pensiwn o'u hen gyflogaeth i mewn i gynllun eu cyflogwr newydd, os mai cynlluniau pensiwn â buddion wedi'u diffinio yw'r ddau gynllun ac os byddant yn caniatáu trosglwyddiadau o'r fath.

163. Mae hyn yn berthnasol i bob achos pan fydd diffoddwyr tân yn newid cyflogwr, gan gynnwys symud rhwng Awdurdodau Tân ac Achub tân rywle arall yn y DU (Awdurdod Tân ac Achub yn Lloegr, Gwasanaeth Tân ac Achub yr Alban neu Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Iwerddon) ac Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru, ac unrhyw symudiad rhwng swydd fel diffoddwr tân a swydd arall. Fodd bynnag, nid yw symudiadau rhwng y tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru, y mae pob un ohonynt yn cynnig yr un cynlluniau ar yr un telerau, yn rhan o'r trefniant hwn.

### Mathau o drosglwyddo

164. Mae sawl gwahanol ffordd o drosglwyddo aelodaeth o un cynllun pensiwn i un arall:

a. Yn gyffredinol, bydd unigolion yn trosglwyddo rhwng cynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus o dan reolau clwb trosglwyddo'r sector cyhoeddus, fel y'i gelwir, a chyfeirir at achosion o'r fath fel "trosglwyddiadau clwb". Mae dau fath o drosglwyddiad clwb:
   - Mae trosglwyddiadau clwb mewnol yn drosglwyddiadau o fuddion cynllun CARE. O dan y trefniadau hyn, mae'r hen gynllun (neu'r "cynllun anfon" fel y'i gelwir weithiau) yn cyfrifo'r taliad trosglwyddo a wneir i'r cynllun newydd (neu'r "cynllun derbyn"). Mae'r cynllun derbyn wedyn yn cyfrifo'r pensiwn credyd trosglwyddo ar sail y pensiwn CARE a gadwyd yr oedd gan yr aelod yn y cynllun anfon, wedi ei uwchraddio yn unol â'r dull uwchraddio yn ystod gwasanaeth a ddefnyddir gan y cynllun anfon, ac wedi'i addasu i ystyried y gwahaniaethau yn y ffordd y mae'r cynlluniau wedi'u dylunio. Mae'r gwaith cyfrifo y mae angen i'r cynlluniau ei wneud yn seiliedig ar gyfres o dablau safonol a ddefnyddir gan pob cynllun clwb fel y cânt eu llunio o bryd i'w gilydd gan Adran Actiwari'r Llywodraeth. Wedyn, mae'r cynllun derbyn yn mynd ati i uwchraddio credyd pensiwn y trosglwyddiadau clwb mewnol pan fydd yr unigolyn yn aelod actif o'i gynllun mewn modd sy'n adlewyrchu'r dull uwchraddio yn ystod gwasanaeth a ddefnyddir gan y cynllun anfon.
   - Mae trosglwyddiadau clwb allanol yn cyfeirio at drosglwyddiadau o fuddion cyflog terfynol rhwng cynlluniau clwb sy'n gweithio ar sail cyflog terfynol – neu sy'n gallu derbyn buddion cyflog terfynol. O dan y trefniadau hyn, caiff y pensiwn sydd wedi cronni a'r gwasanaeth pensiynadwy eu trosglwyddo'n uniongyrchol o'r cynllun anfon i mewn i'r cynllun derbyn ar sail cyflog terfynol yr aelod ar yr adeg y bydd yn gadael, a byddant yn caniatáu ar gyfer cynnydd

yn y pensiwn hyd at ymddeol. Mae’r cynllun derbyn yn cyfrifo’r credyd gwasanaeth gan ddefnyddio cyfres o dablau safonol a ddefnyddir gan pob cynllun Clwb, ac mae’n defnyddio cyflog yr aelod o dan yr hen gynllun wrth gyfrifo’r credyd gwasanaeth, heb ystyried unrhyw gynnydd mewn cyflog yn ei rôl newydd. Oherwydd hyn, mae’r aelod yn cael buddion cyfatebol neu fuddion o’r un gwerth â’r rheini yn ei gynllun blaenorol. Mae'r cynllun anfon yn gwneud taliad i'r cynllun derbyn ar gyfer gwerth y buddion a enillwyd, na fydd angen i'r cynllun anfon eu talu mwyach.

b. Mae trosglwyddiadau eraill, gan gynnwys yn arbennig y rhai hynny rhwng swyddi yn y Gwasanaeth Tân ac Achub a swyddi yn y sector preifat, yn digwydd ar sail gwerth trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod (CETV), a chyfeirir atynt weithiau fel “trosglwyddiadau nad ydynt yn drosglwyddiadau clwb”. Yn unol â'r dull hwn, caiff gwerth sy'n cyfateb i arian parod buddion aelod yn y cynllun blaenorol ei gyfrifo ar yr adeg y bydd yn trosglwyddo, a'i dalu i'r cynllun newydd yn yr un modd ag ar gyfer trosglwyddiad clwb; rhaid i’r cynllun derbyn gynnig buddion o werth cyfatebol, ond mae credyd gwasanaeth yn seiliedig ar gyflog yr aelod yn ei rôl newydd yn yr achos hwn. Hyd yn oed pan fydd dau gynllun yn debyg, y canlyniad fel arfer yw credyd gwasanaeth is yn y cynllun derbyn.

c. Bydd swmp-drosglwyddiad yn digwydd pan gaiff grŵp o aelodau eu trosglwyddo'n orfodol rhwng cyflogwyr sector cyhoeddus â gwahanol gynlluniau pensiwn. Fodd bynnag, ni chafodd y math hwn o drosglwyddiad ei ddefnyddio yn y Gwasanaeth Tân ac Achub yn ddiweddar ac nid yw'n ymddangos yn debygol y caiff ei ddefnyddio yn y dyfodol, felly nid ydym yn cynnig gwneud unrhyw ddarpariaeth yn ei gylch.

165. Nodwch fod cyfyngiadau ar drosglwyddiadau clwb a throsglwyddiadau nad ydynt yn drosglwyddiadau clwb. Er enghraifft, yn gyffredinol, dim ond o fewn 12 mis i'r adeg y bydd yr aelod yn ymuno â'r cynllun derbyn y gall trosglwyddiad clwb ddigwydd. Ac ni fydd rhai cynlluniau pensiwn yn barod i dderbyn unrhyw drosglwyddiadau o gwbl. Er enghraifft, cafodd Cynllun 1992 ei gau i bob aelod newydd, gan gynnwys trosglwyddeion o swyddi eraill, yn 2006, ac eithrio o dan yr amgylchiadau a nodir ym mharagraff 169 isod.

## Trosglwyddiadau cyn 1 Hydref 2023

166. Fel gydag achosion eraill fel ysgaru ac ymddeol ar sail afiechyd, mae dychwelyd aelodau yr effeithir arnynt i'w cynlluniau etifeddol yn golygu y bydd angen ailystyried unrhyw drosglwyddiadau i mewn neu allan o gynllun diffoddwyr tân a ddigwyddodd yn ystod cyfnod y rhwymedi, neu'n wir ar ôl hynny ond cyn i'n rheoliadau ddod i rym ar 1 Hydref 2023. Ar y pryd, byddent wedi cael eu cyfrifo ar y sail bod unrhyw wasanaeth yn ystod cyfnod y rhwymedi yng Nghynllun 2015. Fodd bynnag, mae dychwelyd aelodau yn awtomatig i'w cynlluniau etifeddol yn golygu, yn lle hynny, bod yn rhaid ailgyfrifo trosglwyddiadau o'r fath fel petai'r gwasanaeth yn ystod cyfnod y rhwymedi yn y cynllun etifeddol perthnasol.

## Trosglwyddiadau clwb yn y gorffennol

167. Ar gyfer trosglwyddiadau clwb (h.y., i mewn i gynllun pensiwn arall yn y sector cyhoeddus neu allan o gynllun o'r fath), rydym yn cynnig y dylai hyn olygu y dylid addasu'r buddion a drosglwyddwyd i adlewyrchu'r dychweliad ôl-weithredol. Byddai angen i reolwr y cynllun “anfon” wneud hyn (h.y., ar gyfer y cynllun y gadawodd yr aelod) a chyflwyno'r wybodaeth i reolwr y cynllun “derbyn”, a fyddai yn ei dro yn ei chymhwyso fel trosglwyddiad i mewn i'r cynllun etifeddol perthnasol yn hytrach na Chynllun 2015. Ond nid ydym yn cynnig ei gwneud yn ofynnol ailgyfrifo ac ad-dalu'r taliad rhwng cynlluniau. Mae trosglwyddiadau rhwng cynlluniau yn y sector cyhoeddus yn ddeugyfeiriol ac felly bydd diwygiadau i daliadau o'r fath yn dueddol o ddiddymu ei gilydd. Yr unig eithriad i hynny yw trosglwyddiadau i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) ac ohono, lle y dylid addasu'r taliad rhwng y cynlluniau i ystyried y gwerth trosglwyddo diwygiedig. Mae hyn oherwydd bod y Cynllun hwn yn cael ei gyllido a'i weithredu mewn ffordd sylfaenol wahanol. Caiff y dull o ymdrin â chyfraniadau aelodau mewn cysylltiad â throsglwyddiadau clwb ei drin mewn diwygiadau i Femorandwm y Clwb maes o law.

168. Ar gyfer y rhai hynny a drosglwyddodd i mewn i gyflogaeth fel diffoddwr tân yn ystod cyfnod y rhwymedi, Cynllun 2007 yw eu cynllun etifeddol. Mae hyn gan fod Cynllun 1992 wedi cael ei gau i aelodau newydd (gan gynnwys trosglwyddeion) yn 2006. Fodd bynnag, roedd diffoddwyr tân a oedd yn trosglwyddo rhwng cynlluniau (e.e., rhwng Cymru a Lloegr) ac yr oedd ganddynt gyfnod o wasanaeth di-dor yng Nghynllun 1992, yn gallu trosglwyddo’r gwasanaeth hwnnw i mewn i Gynllun 1992 eu cyflogwr newydd tan i’r Cynllun hwnnw gau’n llwyr yn 2022. Bydd y sefyllfa hon hefyd yn berthnasol bellach i aelodau nad oeddent wedi’u diogelu’n flaenorol sydd bellach â’r hawl i fod yn aelodau o gynllun 1992 ar gyfer cyfnod y rhwymedi.

169. Gallai dwy enghraifft helpu i egluro’r broses hon:

a. Ymunodd Diffoddwr Tân S â’r Gwasanaeth Tân ac Achub yn 2010 a daeth yn aelod o Gynllun 2007. Cafodd ei drosglwyddo’n amhriodol i Gynllun 2015 yn 2015. Yn 2020, gadawodd ei swydd fel diffoddwr tân ac ymunodd â’r Llynges Frenhinol, gan drosglwyddo ei aelodaeth o Gynllun 2015 (erbyn hynny) i Gynllun Pensiwn y Lluoedd Arfog ar sail trosglwyddiad clwb. Nawr bydd yn dychwelyd yn ôl-weithredol i fod yn aelod o Gynllun 2007 o 2015 i 2020, a dylai rheolwr ei gynllun blaenorol ailgyfrifo gwerth y trosglwyddiad ar delerau Cynllun 2007 a chyflwyno’r wybodaeth honno i reolwr y cynllun ar gyfer ei bensiwn milwrol, a fydd yn ei throsi i mewn i wasanaeth yng nghynllun etifeddol perthnasol y lluoedd arfog, y bydd S hefyd yn dychwelyd iddo.

b. Ymunodd Diffoddwr Tân T â’r Gwasanaeth Tân ac Achub yn yr Alban yn 2005, a daeth yn aelod o Gynllun 1992. Cafodd hithau hefyd ei throsglwyddo’n amhriodol i Gynllun 2015 yn 2015. Yn 2017, symudodd i ymuno â Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru, a throsglwyddodd ei haelodaeth o Gynllun 2015 (erbyn hynny) i Gynllun 2015 yng Nghymru ar sail trosglwyddiad clwb. Nawr bydd yn dychwelyd i fod yn aelod o Gynllun 1992, a dylai rheolwr ei chynllun blaenorol yn yr Alban ailgyfrifo gwerth y trosglwyddiad ar delerau Cynllun 1992 a chyflwyno’r wybodaeth honno i reolwr y cynllun yng Nghymru, a fydd yn ei throsi i mewn i wasanaeth yng

Nghynllun 1992 Cymru.

170. Nodwch nad oes angen i’r aelod sy’n trosglwyddo wneud unrhyw benderfyniadau fel rhan o’r broses hon: mae’n broses awtomatig, yn yr un modd ag y mae’n awtomatig ar gyfer aelodau a wasanaethodd fel diffoddwyr tân drwy gydol cyfnod y rhwymedi. Bydd aelodau sy’n trosglwyddo yn gwneud dewisiadau uniongyrchol neu ohiriedig yn yr un ffordd ag aelodau eraill. Dim ond un dewis o’r fath y byddan nhw’n ei wneud hefyd ar gyfer cyfnod cyfan y rhwymedi (er enghraifft, ni fyddai’n rhaid i Ddiffoddwr Tân S uchod wneud un dewis o ran ei wasanaeth fel diffoddwr tân, a dewis arall ar gyfer ei wasanaeth yn y Llynges). Er mwyn gallu cynnig y dewis hwn, bydd rhaid i gynlluniau derbyn gadw cyfrifiadau ar gyfer buddion cynllun etifeddol a buddion cynlluniau CARE mewn cysylltiad â’r trosglwyddiad. Bydd aelodau a ddiogelir yn cael dewis tebyg pan fyddant yn ymddeol. Felly bydd angen i gynlluniau anfon ddarparu’r cyfrifiadau sydd eu hangen ar gyfer y cynllun arall, a bydd angen i’r cynllun derbyn gynnal dwy set o gofnodion ar gyfer y grŵp hwn o aelodau hefyd.

***Cwestiwn 25 yr ymgynghoriad***

I ba raddau rydych chi'n cytuno â'n cynigion ar gyfer trosglwyddiadau clwb yn ystod cyfnod y rhwymedi, sef:

- Dylai rheolwr y cynllun ar gyfer y cynllun anfon gyfrifo'r gyfres amgen o fuddion i aelodau nad ydynt wedi’u diogelu yn seiliedig ar wasanaeth yn y cynllun etifeddol yn ystod cyfnod y rhwymedi, a chyflwyno'r wybodaeth honno i reolwr y cynllun ar gyfer y cynllun derbyn, a ddylai ei throsi i mewn i wasanaeth yn y cynllun etifeddol perthnasol;
- Dylai rheolwr y cynllun ar gyfer y cynllun anfon gyfrifo buddion y cynllun CARE amgen i aelodau a ddiogelir a chyflwyno’r wybodaeth honno i reolwr y cynllun derbyn fel y gellir creu swm amgen y buddion yn y cynllun derbyn; ond
- Ac eithrio ar gyfer trosglwyddiadau i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol neu o'r cynllun hwnnw, nid oes angen diwygio'r taliad gwirioneddol gan y cynllun anfon i'r cynllun derbyn.

## Trosglwyddiadau CETV / trosglwyddiadau nad ydynt yn drosglwyddiadau clwb yn y gorffennol

171. Yn gyffredinol fel rhan o drosglwyddiad nad yw'n drosglwyddiad clwb, bydd aelod yn ymuno â chynllun y tu allan i'r sector cyhoeddus, sy'n golygu nad oes unrhyw rwymedi yn berthnasol i'w wasanaeth ar ôl trosglwyddo; ac ni fydd yn gwneud dewis uniongyrchol neu ohiriedig gan na fydd ganddo unrhyw fuddion mewn cynllun perthnasol i'w talu. Felly mae angen sicrhau ei fod yn cael y canlyniad gorau posibl adeg trosglwyddo.

172. Er mwyn sicrhau hyn ar gyfer trosglwyddiadau yn y gorffennol, rydym yn cynnig y dylid ailarchwilio'r CETV a ddefnyddiwyd i wneud y trosglwyddiad. Dylai rheolwyr

cynlluniau gyfrifo CETV ar gyfer y cynllun nad oedd yr aelod yn aelod ohono adeg trosglwyddo (h.y., y cynllun etifeddol ar gyfer aelodau yr effeithir arnynt, a Chynllun 2015 ar gyfer aelodau yr oeddent wedi'u diogelu). Wedyn dylid addasu'r gwerth hwnnw ar gyfer y dreth a'r cyfraniadau cywir y dylai'r aelod fod wedi'u talu. Os bydd yn uwch na'r CETV a ddefnyddiwyd ar gyfer y trosglwyddiad gwirioneddol, yna dylai rheolwr y cynllun ar gyfer y cynllun anfon wneud taliad ychwanegol i'r cynllun derbyn i wneud iawn am y gwahaniaeth. Ond bydd hyn yn dibynnu a fydd y cynllun derbyn yn derbyn taliad o'r fath; mae'n bosibl y bydd y cynllun wedi cau ers hynny neu wedi newid ei bolisi o ran derbyn taliadau trosglwyddo. Os nad yw'n bosibl gwneud taliad trosglwyddo ychwanegol yn y fath fodd, rydym yn cynnig y dylai rheolwr y cynllun, yn lle hynny, dalu iawndal yn uniongyrchol i'r aelod.

173. Er enghraifft, cafodd Diffoddwr Tân U ei drosglwyddo'n amhriodol o Gynllun 1992 i Gynllun 2015 yn 2015. Yn 2021, gadawodd y Gwasanaeth i weithio i XYZ ccc, sef cwmni ymgynghori ar ddiogelwch tân yn y sector preifat, a throsglwyddodd ei aelodaeth o Gynllun 2015 i gynllun pensiwn galwedigaethol XYZ. Nododd y CETV a gyfrifwyd ar y pryd mai gwerth ei fuddion o dan Gynllun 2015 oedd £10,000. Mae rheolwr y cynllun yn ailgyfrifo'r CETV hwnnw ar sail gosod ei wasanaeth yn ystod cyfnod y rhwymedi yng Nghynllun 1992 yn lle hynny, sy'n rhoi gwerth o £13,000, ond â diffyg cyfraniadau o £2,000 wedi'i gywiro ar gyfer treth, sy'n rhoi gwerth net o £11,000. Felly caiff y gwahaniaeth (£1,000 ynghyd â llog) ei dalu i reolwr cynllun XYZ fel taliad trosglwyddo ategol. Os na all rheolwr cynllun XYZ dderbyn taliad o'r fath, caiff ei dalu'n uniongyrchol i U fel iawndal yn lle hynny.

***Cwestiwn 26 yr ymgynghoriad***

I ba raddau rydych chi'n cytuno â'n cynigion ar gyfer trosglwyddiadau nad ydynt yn drosglwyddiadau clwb / CETV yn ystod cyfnod y rhwymedi a hyd at 30 Medi 2023, sef:

- Dylai rheolwr y cynllun anfon ailgyfrifo'r CETV yn seiliedig ar wasanaeth yn ystod cyfnod y rhwymedi yn y cynllun ac eithrio'r cynllun yr oedd yr aelod wedi trosglwyddo ohono. Dylid didynnu unrhyw ddiffyg cyfraniadau, yn glir o dreth, ohono, a dylid ychwanegu unrhyw warged cyfraniadau, yn glir o dreth, ato.
- Os bydd y canlyniad yn uwch na'r CETV a ddefnyddiwyd ar yr adeg trosglwyddo, dylai rheolwr y cynllun wneud taliad trosglwyddo ategol ar gyfer y gwahaniaeth, ynghyd â llog, i reolwr y cynllun derbyn.
- Os na all y cynllun derbyn dderbyn taliad o'r fath, dylid talu'r aelod yn uniongyrchol yn lle hynny, ar ffurf iawndal.

## Trosglwyddiadau yn y dyfodol

174. Mae trosglwyddiadau a fydd yn digwydd yn y dyfodol yn symlach, yn yr ystyr y byddai pob aelod, ar yr adeg trosglwyddo, wedi bod yn aelodau o Gynllun 2015; ac nid oes angen gwneud unrhyw gywiriadau ôl-weithredol. Fodd bynnag, bydd gwerth y buddion a gaiff eu trosglwyddo – boed ar sail clwb neu CETV – yn amrywio gan ddibynnu p'un a oedd gwasanaeth yr aelod yn ystod cyfnod y rhwymedi yng Nghynllun 2015 neu'r

cynllun etifeddol.

175. Pan fydd aelodau â hawl yn trosglwyddo yn y dyfodol, rydym yn cynnig y dylai rheolwr y cynllun gyfrifo dau werth trosglwyddo clwb neu CETV (pa bynnag un sy'n berthnasol), yn seiliedig ar wasanaeth yn ystod cyfnod y rhwymedi yng Nghynllun 2015 ac yng nghynllun etifeddol yr aelod. Wedyn dylid defnyddio'r gwerth uchaf o'r ddau at ddibenion y trosglwyddiad. Nid oes angen i'r aelod wneud dewis ar yr adeg trosglwyddo. Fel yn achos aelodau a drosglwyddodd yn ystod cyfnod y rhwymedi, bydd aelodau sy'n trosglwyddo ar ôl cyfnod y rhwymedi i gynllun arall yn y sector cyhoeddus yn penderfynu wrth ymddeol a ydynt am i'r trosglwyddiad aros ar delerau cynllun etifeddol neu ar delerau cynllun 2015. Caiff y dull o ymdrin â chyfraniadau aelodau mewn cysylltiad â throsglwyddiadau clwb ei drin mewn diwygiadau i Femorandwm y Clwb maes o law. I aelodau sy'n trosglwyddo i gynllun y tu allan i'r sector cyhoeddus, ni fyddai dewis o'r fath yn arwain at unrhyw ganlyniadau ehangach (fel atebolrwydd dros gyfraniadau uwch, neu newid o ran yr hawl i fuddion goroeswr), a byddai'n rhyfedd peidio â dewis y gwerth uwch.

***Cwestiwn 27 yr ymgynghoriad***

I ba raddau rydych chi'n cytuno â'n cynigion ar gyfer trosglwyddiadau yn y dyfodol, sef:

- Dylai rheolwr y cynllun anfon gyfrifo dau werth trosglwyddo neu CETV, yn seiliedig ar osod gwasanaeth yr aelod yn ystod cyfnod y rhwymedi yng Nghynllun 2015 ac yn ei gynllun etifeddol.
- O ran CETV i gynlluniau y tu allan i'r sector cyhoeddus, os na fydd yr aelod wedi gwneud iawn am unrhyw ddiffyg cyfraniadau eu wedi cael unrhyw warged cyfraniadau eto, dylid tynnu hwnnw o'r gwerth perthnasol neu ei ychwanegu ato.
- Wedyn dylid defnyddio'r gwerth uchaf o'r ddau at ddibenion y trosglwyddiad.

## Ailystyried penderfyniadau trosglwyddo yn ystod cyfnod y rhwymedi

176. Mae'n bosibl y bydd yr achos o wahaniaethu a brofwyd ganddynt wedi dylanwadu ar benderfyniadau aelodau yr effeithir arnynt ynghylch p'un a ddylid trosglwyddo yn ystod cyfnod y rhwymedi ai peidio. Gallai eu dychwelyd yn ôl-weithredol i'w cynlluniau etifeddol olygu y byddent wedi gwneud penderfyniad gwahanol ar y pryd. Yn unol â'n dull ehangach mewn perthynas â chynnig rhwymedi, rydym yn cynnig y dylid caniatáu i aelodau o'r fath ailystyried y penderfyniadau hynny a'u gwrthdroi os byddant am wneud hynny. Gallai hyn gynnwys penderfyniadau i drosglwyddo i mewn neu allan o gynllun diffoddwyr tân, neu benderfyniadau i beidio â gwneud hynny, boed ar sail clwb neu ar sail arall.

177. Fel o'r blaen, bydd hyn yn dibynnu ar sefyllfa lle bydd y ddau gynllun yn barod i wneud a derbyn trosglwyddiad ôl-weithredol, neu i wrthdroi trosglwyddiad o'r fath, a lle y byddant yn gallu gwneud hynny. Os na, ni fyddai sefyllfa'r aelod yn newid. Pe

byddai'r aelod wedi bod yn awyddus i drosglwyddo'n ôl-weithredol, ond nad oedd modd iddo wneud hynny, byddai'n parhau'n aelod gohiriedig o'r cynllun anfon ac yn aelod actif o'r cynllun derbyn; a phe byddai'r aelod wedi bod yn awyddus i wrthdroi trosglwyddiad, byddai'n parhau'n aelod actif o'r cynllun derbyn yn unig. Nid yw'n bosibl talu iawndal mewn achosion o'r fath nawr, gan mai dim ond pan fyddai'r aelod yn ymddeol y byddai modd meintioli unrhyw golled.

178. Fodd bynnag, rydym yn cynnig y dylai'r hawl hon i ailystyried penderfyniad trosglwyddo fod ar gael i bob aelod yr effeithir arno, yn ddiamod. Yn arbennig, nid ydym o'r farn y dylai fod yn ofynnol iddo "brofi" bod ei benderfyniad gwreiddiol yn ymwneud â'r achos o wahaniaethu a brofwyd ganddo. Fel gydag agweddau eraill ar ein cynigion, fel penderfyniadau i optio allan, mewn sawl achos nid ydym o'r farn y byddai unrhyw dystiolaeth y naill ffordd neu'r llall yn hyn o beth, ac eithrio honiad syml gan yr aelod o'r cynllun na allai rheolwr y cynllun ei wrthbrofi.

179. Fel arfer, dim ond o fewn 12 mis i'r adeg y bydd yr aelod yn ymuno â'r cynllun derbyn y gall trosglwyddiad clwb ddigwydd. Ond yn yr achos hwn, rydym yn cynnig y dylid caniatáu cyfnod pellach o 12 mis ar ôl i'r aelod sy'n trosglwyddo gael datganiad gwasanaeth rhwymediadwy yn nodi ei hawliau a'i hawl i ailystyried penderfyniad trosglwyddo. Ond gall fod cyfyngiadau amseru tebyg ar gynlluniau nad ydynt yn gynlluniau clwb yn derbyn trosglwyddiadau; ac ni all ein rheoliadau wneud dim am y cynlluniau hynny.

180. Er enghraifft, cafodd Diffoddwr Tân V ei throsglwyddo'n amhriodol o Gynllun 1992 yn 2015. Yn 2018, gadawodd y Gwasanaeth Tân ac Achub i fod yn athrawes. Ar y pryd, roedd o'r farn bod gwerth trosglwyddo ei gwasanaeth yng Nghynllun 2015 yn rhy isel i fod yn werth ei drosglwyddo, ac roedd hefyd yn anghytuno â thelerau cynllun athrawon 2015, a phenderfynodd optio allan o hwnnw ar unwaith. Gan ei bod bellach wedi dychwelyd yn ôl-weithredol i Gynllun 1992, mae ei gwerth trosglwyddo yn uwch; ac mae hi hefyd yn dewis optio yn ôl i mewn i fod yn aelod o'r cynllun etifeddol perthnasol i athrawon. Os bydd am wneud hynny, gall drosglwyddo ei gwasanaeth yng Nghynllun 1992 yn ôl-weithredol i mewn i'r cynllun athrawon ar sail trosglwyddiad clwb, os gall rheolwr y cynllun hwnnw dderbyn trosglwyddiad o'r fath.

***Cwestiwn 28 yr ymgynghoriad***

I ba raddau rydych chi'n cytuno â'n cynigion i ganiatáu i aelodau yr effeithir arnynt ailystyried a gwrthdroi penderfyniadau trosglwyddo a wnaed yn ystod cyfnod y rhwymedi, ar yr amod y gall y cynllun anfon a'r cynllun derbyn ganiatáu i drosglwyddiad gael ei wneud neu ei wrthdroi yn ôl-weithredol?

## 9. Materion amrywiol

181. Mae sawl mater, sy'n ymwneud yn bennaf â sut y bydd rheolwyr cynlluniau yn gweinyddu'r rhwymedi a gynigir yn yr ymgynghoriad hwn, lle bydd ein rheoliadau yn syml yn dilyn gofynion Deddf 2022 neu gyfarwyddiadau a wnaed gan y Trysorlys oddi tani. Fel y cyfryw, nid oes unrhyw gyfle i ni amrywio'r darpariaethau ac nid ydym yn gofyn am unrhyw sylwadau amdanynt. I ddilyn, ceir amlinelliad i'ch helpu i ddeall sut y bydd y materion hyn yn gweithio, a sut y maent yn rhyngweithio ag agweddau eraill ar y rhwymedi.

### Datganiadau gwasanaeth rhwymediadwy

182. Mae datganiad gwasanaeth rhwymediadwy (RSS) yn nodi'r buddion sydd ar gael i aelod â hawl pe byddai ei wasanaeth yn ystod cyfnod y rhwymedi yn ei gynllun etifeddol neu yng Nghynllun 2015. Yn unol ag adran 29 o Ddeddf 2022, rhaid rhoi RSS i aelodau actif bob blwyddyn, i aelodau gohiriedig ar gais (ond dim ond unwaith yn ystod unrhyw gyfnod o 12 mis), ac ar ffurf "datganiad untro i aelodau sy'n pensiynwyr". Gellir eu cyfuno â'r datganiadau buddion blynyddol y mae eisoes yn ofynnol i gynlluniau eu darparu. Gall aelodau hefyd ddefnyddio datganiadau o'r fath i wneud dewis uniongyrchol neu ohiriedig gwybodus, neu gallant benderfynu a ddylid optio nôl i mewn neu ailystyried penderfyniad trosglwyddo a wnaed yn y gorffennol.

183. Bydd cynnwys RSS fel y dynodir yn adran 29(5) o Ddeddf 2022 a chyfarwyddiadau perthnasol gan y Trysorlys. Rhaid i ni gydymffurfio â nhw. Ond, byddem yn disgwyl i reolwyr cynlluniau ddarparu datganiadau RSS yn Gymraeg ac yn Saesneg, yn unol â Safonau'r Gymraeg ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub.

### Llog

184. Fel y crybwyllwyd gennym sawl gwaith yn ystod yr ymgynghoriad hwn, bydd symiau sy'n ddyledus gan reolwr cynllun i aelod o'r cynllun, neu i'r gwrthwyneb, o ganlyniad i'r rhwymedi yn destun treth. Mae hyn gan eu bod yn ymwneud â digwyddiadau a fydd eisoes wedi digwydd, mewn rhai achosion sawl blwyddyn y y gorffennol, ac er mwyn sicrhau tegwch, dylai'r broses o'u cyfrifo nawr neu yn y dyfodol ystyried chwyddiant.

185. Mae cyfarwyddiadau a wnaed gan y Trysorlys yn nodi'r rheolau ar gyfer cyfrifo a chymhwyso llog yn fanwl. Ond yn gyffredinol, caiff llog ar symiau sy'n ddyledus i aelodau o gynlluniau ei godi ar gyfradd uwch na'r llog a godir ar symiau sy'n ddyledus gan aelodau o gynlluniau i reolwyr cynlluniau.

186. Yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, mae cyfraddau llog yn gymharol uchel. Ond cafodd cyfarwyddiadau'r Trysorlys eu llunio er mwyn sicrhau os bydd gostyngiad, er enghraifft, yn y gyfradd llog gyfredol, y caiff hynny ei adlewyrchu'n awtomatig yn y ffordd y caiff llog ei gymhwyso fel rhan o'n cynigion. Gall y Trysorlys hefyd roi cyfarwyddiadau newydd neu ddiwygiedig hefyd os yw'n briodol.

## Gwneud taliadau

187. Mae sawl agwedd ar ein cynigion yn ymwneud â thaliadau rhwng rheolwyr cynlluniau ac aelodau o gynlluniau mewn perthynas â chyfnod y rhwymedi – er enghraifft, cywiriadau i bensiynau sy'n cael eu talu, cywiriadau i gyfraniadau, taliad am optio yn ôl i mewn i gynllun etifeddol, prynu pensiwn ychwanegol yn ôl-weithredol. Mewn rhai achosion, bydd taliadau o'r fath yn ddyledus tua'r un pryd. Os felly, mae cyfarwyddiadau'r Trysorlys yn caniatáu i'r taliadau hynny gael eu netio yn erbyn ei gilydd, fel mai dim ond un trafodyn fydd ei angen: ni fyddai'n werth i unrhyw aelod (er enghraifft) o gynllun dalu swm mawr o arian i reolwr y cynllun, dim ond i'r rheolwr hwnnw dalu swm mwy byth yn ôl i'r aelod.

188. Lle caiff symiau eu netio, rhaid cymhwyso log (gweler uchod) i bob swm perthnasol cyn iddo gael ei netio.

189. Nid ydym o'r farn bod angen dynodi o dan ba amgylchiadau y gellir netio taliadau; byddem yn disgwyl i reolwyr cynlluniau weithredu mewn ffordd resymol. Ond fel rheol gyffredinol, os gellir cyfrifo pob un o'r symiau dan sylw yn gywir ac yn derfynol, fwy na thebyg byddai'n rhesymol eu netio pe na fyddai gwneud hynny yn achosi anhegwch neu galedi diangen i'r aelod (yn arbennig, oedi diangen wrth dderbyn symiau sy'n ddyledus iddo).

190. Er enghraifft, cafodd Diffoddwr Tân W ei drosglwyddo'n amhriodol o Gynllun 1992 yn 2015. Yn 2021, caniatawyd iddo ymddeol ar sail afiechyd ar delerau Cynllun 2015, gyda phensiwn ar sail afiechyd haen is o £10,000 y flwyddyn. Ar ôl ailarchwilio ei achos, byddai wedi bod ganddo'r hawl i bensiwn haen uwch o £15,000 y flwyddyn o dan Gynllun 1992, er bod ei aelodaeth ôl-weithredol o Gynllun 1992 yn creu diffyg cyfraniadau o £4,000 hefyd. Mae'r ôl-ddyledion pensiwn sy'n ddyledus i W yn cyfateb i £5,000 ar gyfer pob blwyddyn rhwng 2021 a 2023, neu £15,000. Gellir netio hynny yn erbyn ei ddiffyg cyfraniadau o £4,000, a thalu'r £11,000 dilynol sy'n ddyledus iddo ynghyd â llog.

## 10. Casgliad

191. Credwn fod y cynigion hyn yn cynnig ffordd deg a chynhwysfawr o unioni'r achosion o wahaniaethu ar sail oedran a brofwyd gan aelodau cynlluniau, ac sy'n gyson â thelerau Deddf 2022 a'r cyfarwyddiadau a wnaed gan y Trysorlys.

### Materion cydraddoldeb

192. Lluniwyd y cynigion hyn er mwyn cywiro ac unioni'r achosion o wahaniaethu ar sail oedran a nodwyd gan y llysoedd. Credwn eu bod yn gwneud hynny, a hynny mewn ffordd nad yw'n cael effaith andwyol ar bobl oherwydd eu hoedran neu unrhyw nodwedd warchodedig arall. Rydym wedi bod yn arbennig o ofalus wrth geisio sicrhau na roddir hawliau i aelodau yr effeithir arnynt nad ydynt ar gael i aelodau eraill y cynlluniau, gan y gallai hynny arwain at honiadau newydd o wahaniaethu ar sail oedran.

193. Mae asesiad llawn o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer y cynigion hyn wedi'i atodi.

***Cwestiwn 29 yr ymgynghoriad***

Mae diddordeb gennym ddeall p'un a fydd y cynigion yn y ddogfen ymgynghori hon yn cael effaith ar bobl â nodweddion gwarchodedig. Y nodweddion gwarchodedig yw: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Ydych chi'n meddwl y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl â nodweddion gwarchodedig? Os felly, pa rai a pham/pam ddim?

**Y Gymraeg**

194. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â'r broses o weithredu cynlluniau pensiwn diffoddwyr tân a hawliau aelodau sydd wedi profi achos o wahaniaethu ar sail oedran. Fel y cyfryw, nid yw'n effeithio ar ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, nac ar allu pobl i gyfathrebu yn Gymraeg. Ond byddem yn disgwyl i reolwyr cynlluniau gyfathrebu ag aelodau yn Gymraeg ac yn Saesneg, yn unol â Safonau'r Gymraeg ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub. Caiff ein rheoliadau terfynol hefyd eu llunio yn Gymraeg ac yn Saesneg.

***Cwestiwn 30 yr ymgynghoriad***

Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r cynigion uchod yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut mae cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

***Cwestiwn 31 yr ymgynghoriad***

Esboniwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gallai'r polisi arfaethedig gael ei lunio neu ei newid er mwyn sicrhau effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac atal unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

## Materion eraill

195. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, ond mae'n bosibl y bydd ymatebwyr yn awyddus i godi materion eraill hefyd. Mae croeso iddynt wneud hynny, ond dylid nodi na all Gweinidogion Cymru wyro o ofynion Deddf 2022 na'r cyfarwyddiadau a roddwyd oddi tani; felly ni allwn weithredu mewn ymateb i unrhyw sylwadau a gawn i'r perwyl hwnnw. Rydym hefyd wedi anelu cyn belled â phosibl at sicrhau bod ein cynigion yn gymharol gyson â'r cynigion sy'n cael eu cyflwyno ar gyfer diffoddwyr tân mewn rhannau eraill o'r DU.

***Cwestiwn 32 yr ymgynghoriad***

A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar ein cynigion nad ydynt wedi'u cwmpasu gan gwestiynau eraill yn yr ymgynghoriad hwn?

## Rhestr Termau

| Term | Esboniad |
|---|---|
| ***Cynllun 1992*** | Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) fel y'i sefydlwyd gan Orchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992. |
| ***Cynllun 2007*** | Cynllun Pensiwn Newydd y Diffoddwyr Tân (Cymru) fel y'i sefydlwyd gan Orchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007. Cyfeirir ato weithiau (yn gamarweiniol o bosibl) fel "Cynllun Pensiwn Newydd y Diffoddwyr Tân" neu gan ddefnyddio'r talfyriad Saesneg "NFPS". |
| ***Deddf 2013*** | Deddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 |
| ***Cynllun 2015*** | Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015 fel y'i sefydlwyd gan Reoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015. |
| ***Deddf 2022*** | Deddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol 2022 |
| ***Cyfradd gronni*** | Y gyfradd y mae ***aelod actif*** yn cronni pensiwn dros gyfnod penodol. Caiff ei mynegi fel arfer fel ffracsiwn neu ganran o ***dâl pensiynadwy*** blynyddol, ac mae'n amrywio o gynllun i gynllun. Fel egwyddor gyffredinol, caiff pensiwn blynyddol ei gyfrifo drwy luosi tâl pensiynadwy blynyddol (wedi'i gyfrifo ar sail ***CARE*** neu ar sail ***cyflog terfynol***), ***gwasanaeth pensiynadwy*** a'r gyfradd gronni â'i gilydd. |
| ***Aelod actif*** | Aelod o gynllun pensiwn diffoddwyr tân a gaiff ei gyflogi'n weithredol yn ddiffoddwr tân (h.y., nid yw'r aelod wedi ymddeol, wedi ymddiswyddo nac wedi gadael y gyflogaeth honno mewn ffordd arall). |
| ***Gostyngiad actiwaraidd*** | Y gostyngiad yn y pensiwn a delir i rywun sy'n dewis ymddeol cyn cyrraedd ***oedran pensiwn arferol***, er mwyn adlewyrchu'r ymddeoliad hwy y bydd yr unigolyn hwnnw yn ei fwynhau. Mae maint y gostyngiad yn dibynnu ar yr oedran ymddeol a ddewisir, ac mae'n amrywio o gynllun i gynllun. Yn gyffredinol, nid yw gostyngiadau actiwaraidd yn gymwys i'r rhai hynny sy'n ymddeol ar sail ***afiechyd***. |
| ***Pensiwn ychwanegol*** | Buddion pensiwn ychwanegol y gall aelod ddewis eu prynu yn gyfnewid am gyfraniadau ychwanegol. Yng Nghynlluniau ***1992*** a ***2007***, mae'r pensiwn ychwanegol ar ffurf blynyddoedd ychwanegol o ***wasanaeth pensiynadwy*** mewn unedau o chwedegau o'r ***tâl pensiynadwy*** (gan mai 1/60 yw'r ***gyfradd gronni*** ar gyfer y cynlluniau hynny). Yng ***Nghynllun 2015***, mae ar ffurf symiau ychwanegol o bensiwn, ar unrhyw werth hyd at uchafswm y bydd yr aelod yn ei ddewis. Nid oes modd trosi'n uniongyrchol o un ffurf o bensiwn ychwanegol i'r llall. |

| Term | Esboniad |
|---|---|
| ***Aelod yr effeithir arno*** | Aelod o gynllun sydd wedi profi ***gwahaniaethu ar sail oedran***, h.y., unrhyw un a gyflogwyd yn ddiffoddwr tân ar 1 Ebrill 2012 a 1 Ebrill 2015, ond a oedd yn iau na 45 oed ar y dyddiad cyntaf ac, felly, yn rhy ifanc i fod yn gymwys i gael ***diogelwch trosiannol*** llawn. Mae'n cynnwys ***aelodau diogelwch taprog***. |
| ***Gwahaniaethu ar sail oedran*** | Trin cyflogeion neu unrhyw grŵp arall o bobl yn llai ffafriol oherwydd eu hoedran. Mae gwahaniaethu ar sail oedran yn anghyfreithlon oni ellir dangos ei fod yn ffordd gymesur o gyflawni nod dilys. |
| ***Enillion ailbrisiedig cyfartaledd gyrfa (CARE)*** | Ffordd o gyfrifo faint o bensiwn y mae hawl gan aelod ei gael yn seiliedig ar ***dâl pensiynadwy*** blynyddol cyfartalog yr aelod dros gyfnod ei gyflogaeth, wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant. |
| ***Gwerth trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod (CETV)*** | Gwerth cronedig ac amcangyfrifedig buddion pensiwn aelod ar unrhyw adeg benodol. Yn aml, caiff gwerthoedd trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod eu cyfrifo er mwyn galluogi aelod i ***drosglwyddo*** o un cynllun i gynllun arall, neu at ddibenion dyrannu buddion pensiwn fel rhan o setliad ysgaru. |
| ***Trosglwyddiad clwb*** | Trosglwyddo aelodaeth o gynllun pensiwn un sector cyhoeddus i gynllun pensiwn sector cyhoeddus arall, o dan reolau Clwb Trosglwyddo'r Sector Cyhoeddus. Wrth drosglwyddo yn y fath fodd, gwarentir yr un buddion i aelodau yn eu cynllun newydd ag y byddent wedi'u cael yn eu hen gynllun. |
| ***Cyfraniadau*** | Taliadau i mewn i gynllun pensiwn naill ai gan gyflogwr neu gan aelod o'r cynllun. Yn y ddau achos, bydd cyfradd y cyfraniadau yn seiliedig ar ganran o'r ***tâl pensiynadwy***; mae'r gyfradd yn amrywio rhwng cynlluniau, ond ym mhob achos, caiff cyfraniadau cyflogeion eu gosod mewn bandiau sy'n golygu bod unigolion ar gyflogau uwch yn talu cyfran uwch o'u henillion mewn cyfraniadau pensiwn |
| ***Gwyliau rhag cyfraniadau*** | Cyfnod lle nad yw'n ofynnol i ***aelod actif*** dalu ***cyfraniadau*** cyflogeion. Roedd gwyliau o'r fath ar gael i aelodau Cynllun 1992 rhwng cyrraedd 30 o flynyddoedd o ***wasanaeth pensiynadwy*** (yr uchafswm yn y cynllun hwnnw) a'u pen-blwydd yn 50 oed (y dyddiad cynharaf y gallent ymddeol). |
| ***Grant marwolaeth / cyfandaliad marwolaeth*** | Swm o arian sy'n daladwy pan fydd ***aelod actif*** yn marw. Yng ***Nghynllun 1992***, mae ddwywaith cymaint y ***tâl pensiynadwy*** ar adeg y farwolaeth, ac yn daladwy i briod neu bartner sifil yr aelod, neu i ystad yr aelod os nad oes unrhyw unigolyn o'r fath. Yng ***Nghynlluniau 2007*** a ***2015***, mae deirgwaith cymaint y cyflog ac mae'n daladwy i'r unigolyn a enwebwyd gan yr aelod. |

| Term | Esboniad |
|---|---|
| ***Sylfaen dewis gohiriedig (DCU)*** | Y dull y bydd ***aelodau â hawl*** sy'n ***aelodau actif*** neu'n ***aelodau gohiriedig*** ar 1 Hydref 2023 yn ei ddefnyddio i benderfynu a ddylai eu gwasanaeth yn ystod ***cyfnod y rhwymedi*** gael ei drin fel gwasanaeth yn eu ***cynllun etifeddol*** neu ***Gynllun 2015***.  Caiff y dewis hwn ei wneud pan fydd yr aelod yn ymddeol neu pan fydd ei fuddion pensiwn yn cael eu talu gyntaf am reswm arall (e.e., os bydd yn marw cyn ymddeol). |
| ***Aelod gohiriedig*** | Aelod o gynllun pensiwn diffoddwyr tân na chaiff ei gyflogi yn ddiffoddwr tân mwyach ond sydd heb gyrraedd yr oedran pensiwn gohiriedig ar gyfer derbyn ei fuddion pensiwn eto. |
| ***Oedran pensiwn gohiriedig*** | Yr oedran y gall ***aelod gohiriedig*** hawlio pensiwn gohiriedig. Yng ***Nghynllun 1992*** a'r ***cynllun wedi'i addasu***, 60 oed yw'r oedran hwn; yng ***Nghynllun 2007*** mae'n 65 oed; ac yng ***Nghynllun 2015*** mae'n gyfystyr ag ***oedran pensiwn y wladwriaeth***. |
| ***Cronni dwbl*** | Un o nodweddion ***Cynllun 1992*** (yn unig) sy'n golygu bod y ***gyfradd gronni*** ar gyfer ***gwasanaeth pensiynadwy*** pob blwyddyn ar ôl yr 20 mlynedd cyntaf yn dyblu (o 1/60 o'r ***tâl pensiynadwy*** i 1/30). |
| ***Unigolyn cymwys sy'n gwneud penderfyniadau*** | ***Goroeswr aelod â hawl*** sydd wedi marw sy'n gymwys i wneud ***dewis gohiriedig*** neu ***ddewis uniongyrchol*** ar ran yr aelod hwnnw. |
| ***Aelod â hawl*** | Aelod sydd â hawl i'r rhwymedi a gynigir yn yr ymgynghoriad hwn. Mae'n cynnwys ***aelodau yr effeithir arnynt*** ac ***aelodau a ddiogelir yn llawn***, p'un a ydynt yn aelodau ***actif***, yn aelodau ***gohiriedig*** neu'n aelodau sydd ***wedi ymddeol***; a phan fydd aelodau o'r fath wedi marw, mae'n cynnwys eu ***goroeswyr***. Nid yw'n cynnwys ***aelodau nas effeithir arnynt*** nac ***aelodau â chredyd pensiwn***. |
| ***Cyflog terfynol*** | Ffordd o gyfrifo faint o bensiwn y mae hawl gan aelod ei gael ar sail ***tâl pensiynadwy*** blynyddol yr aelod pan fydd yn ymddeol. |
| ***Diffoddwr tân*** | Unrhyw un a gyflogir ym maes diffodd tân gan Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru ac sydd, felly, yn gymwys i fod yn aelod o gynllun pensiwn diffoddwyr tân.  Mae hyn yn cynnwys diffoddwyr tân amser llawn, diffoddwyr tân wrth gefn a staff ystafelloedd rheoli, ond nid y rhai sy'n gwneud gwaith gweinyddol a gwaith arall nad yw'n ymwneud â diffodd tân sydd ar delerau ac amodau'r "Llyfr Gwyrdd" (sydd fel arfer yn aelodau o ***Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol***).  Mae hefyd yn eithrio pobl a gyflogir ym maes diffodd tân gan endid arall heblaw am Awdurdod Tân ac Achub, fel diffoddwyr tân mewn meysydd awyr neu ddiffoddwyr tân y fyddin. |

| Term | Esboniad |
|---|---|
| ***Aelod a ddiogelir yn llawn*** | Aelod o gynllun a gafodd ***ddiogelwch trosiannol*** llawn yn 2015, h.y., unrhyw un a gyflogwyd yn ddiffoddwr tân ar 1 Ebrill 2012 a 1 Ebrill 2015 ac a oedd yn 45 oed neu'n hŷn ar y dyddiad cyntaf. |
| ***Ymddeol ar sail afiechyd*** | Ymddeol cyn cyrraedd ***oedran pensiwn arferol*** ar y sail na all aelod, am resymau iechyd, barhau i ymgymryd â dyletswyddau diffoddwr tân. Mae'r lefel a'r meini prawf ar gyfer pensiwn ar sail afiechyd yn amrywio rhwng y ***Cynllun etifeddol*** a ***Chynllun 2015***, ond maent bob amser yn dibynnu ar raddau'r analluogrwydd y mae'r aelod wedi'i brofi. |
| ***Dewis uniongyrchol*** | Y dull y bydd ***aelodau â hawl*** sy'n ***aelodau sydd wedi ymddeol*** ar 1 Hydref 2023 (neu ***oroeswyr*** aelodau â hawl a fu farw cyn y dyddiad hwnnw) yn ei ddefnyddio i benderfynu a ddylai eu gwasanaeth yn ystod ***cyfnod y rhwymedi*** gael ei drin fel gwasanaeth yn eu ***cynllun etifeddol*** neu ***Gynllun 2015***. Caiff dewis o'r fath ei wneud cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Hydref 2023. |
| ***Ymarferydd meddygol cymwysedig annibynnol (IQMP)*** | Clinigydd, fel arfer meddyg sy'n arbenigo mewn iechyd galwedigaethol, sy'n rhoi cyngor i ***reolwr cynllun*** ar achosion o ***ymddeol ar sail afiechyd***. |
| ***Cynllun etifeddol*** | Y cynllun yr oedd ***aelod yr effeithir arno*** neu ***aelod a ddiogelir yn llawn*** yn perthyn iddo yn union cyn 1 Ebrill 2015 – h.y., ***Cynllun 1992*** neu ***Gynllun 2007***. |
| ***Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS)*** | Cynllun pensiwn ar gyfer gweithwyr llywodraeth leol, ac i gyflogeion Awdurdodau Tân ac Achub nad ydynt yn ***ddiffoddwyr tân***. Yn wahanol i gynlluniau eraill y sector cyhoeddus, caiff ***cyfraniadau*** i mewn i'r LGPS eu buddsoddi, a thelir buddion pensiwn o'r elw ar y buddsoddiadau hynny. |
| ***Cynllun wedi'i addasu*** | Cynllun pensiwn yn benodol ar gyfer diffoddwyr tân wrth gefn ar ddyletswydd ("yn ôl y galw") a ddechreuodd eu swyddi cyn 1 Ebrill 2006.  Mae wedi'i gynnwys yn rheolau ***Cynllun 2007*** ond mae'n debyg i ***Gynllun 1992*** yn gyffredinol. |
| ***Trosglwyddiad nad yw'n drosglwyddiad clwb*** | Trosglwyddiad rhwng cynlluniau nad yw'n ***drosglwyddiad clwb***, er enghraifft trosglwyddiad rhwng cynllun sector cyhoeddus a chynllun sector preifat. Mae trosglwyddiadau nad ydynt yn drosglwyddiadau clwb yn cael eu cynnal ar sail ***CETV***, ac nid oes unrhyw warant y bydd yr aelod yn cael yr un buddion yn y cynllun newydd ag ar gyfer ei wasanaeth cyn trosglwyddo. |
| ***Oedran pensiwn arferol*** | Yr oedran y gall aelod actif ymddeol ar bensiwn llawn.  Fe'i pennir yn rheolau'r cynllun a gall amrywio o gynllun i gynllun.  Er enghraifft, oedran pensiwn arferol ***Cynllun 1992*** |

| Term | Esboniad |
| --- | --- |
| | yw 55 oed ond 60 oed yw oedran pensiwn arferol ***Cynllun 2007*** a ***Chynllun 2015***. |
| ***Aelod sydd wedi optio allan*** | Diffoddwr tân sydd wedi dewis peidio â bod yn aelod o un o gynlluniau pensiwn y diffoddwyr tân, er enghraifft, os yw'r unigolyn yn dymuno cael pensiwn personol gan ddarparwr yn y sector preifat yn lle hynny. |
| ***Aelod â chredyd pensiwn*** | Cyn-briod neu bartner sifil i aelod o gynllun sydd â hawl i gyfran o hawliadau pensiwn yr aelod hwnnw, o dan setliad ysgaru neu ddiddymu. |
| ***Aelod â debyd pensiwn*** | Aelod o gynllun sy'n gyn-briod neu'n bartner sifil i ***aelod â chredyd pensiwn***, y mae rhywfaint o'i fuddion pensiwn yn daladwy i'r aelod â chredyd pensiwn yn lle hynny, o dan setliad ysgaru neu ddiddymu. |
| ***Tâl pensiynadwy*** | Swm y tâl a ddefnyddir i gyfrifo hawliadau pensiwn.  Yn gyffredinol, mae'n cynnwys cyflog rheolaidd unigolyn ac unrhyw lwfansau a gaiff ar sail barhaol neu amhenodol, ond nid taliadau byrdymor fel goramser neu lwfansau dros dro. |
| ***Gwasanaeth pensiynadwy*** | Y cyfnod (a fynegir fel arfer mewn blynyddoedd) y mae aelod cynllun yn cronni pensiwn.  Mae'n cyfateb i hyd cyflogaeth yr aelod fel arfer, gan gynnwys cyfnodau awdurdodedig i ffwrdd o'r gwaith megis cyfnodau mamolaeth, er bod modd prynu blynyddoedd ychwanegol o wasanaeth fel ffurf o ***bensiwn ychwanegol*** fel rhan o ***Gynllun 1992*** a ***Chynllun 2007***. |
| ***Rheoliadau arfaethedig*** | Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Diwygio) 2022, a drosglwyddodd yr holl ***aelodau actif*** a oedd yn weddill o ***Gynllun 1992*** a ***Chynllun 2007*** i ***Gynllun 2015*** o 1 Ebrill 2022. |
| ***Cynllun sy'n derbyn*** | Mewn ***trosglwyddiad***, y cynllun pensiwn y mae'r aelod yn ymuno ag ef, ar ôl dechrau cyflogaeth wahanol i'r gyflogaeth a oedd yn gysylltiedig â'r ***cynllun sy'n anfon***. |
| ***Datganiad gwasanaeth rhwymediadwy (RSS)*** | Datganiad wedi'i baratoi gan ***reolwr cynllun*** ar gyfer aelod sy'n nodi'r buddion y byddai gan yr aelod yr hawl iddynt pe byddai ei wasanaeth yn ystod ***cyfnod y rhwymedi*** wedi'i gynnwys yng ***Nghynllun 2015*** neu yn y ***cynllun etifeddol*** perthnasol. |
| ***Cyfnod y rhwymedi*** | Y cyfnod y bydd y rhwymedi ar gyfer ***gwahaniaethu ar sail oedran*** yn gymwys iddo: 1 Ebrill 2015 i 31 Mawrth 2022, gan gynnwys y dyddiadau hynny. |
| ***Gwasanaeth rhwymediadwy*** | ***Gwasanaeth pensiynadwy diffoddwr tân*** yn ystod ***cyfnod y rhwymedi***. |
| ***Aelod sydd wedi ymddeol*** | Aelod o gynllun sydd wedi ymddeol ac sy'n cael buddion pensiwn. |

| Term | Esboniad |
|---|---|
| ***Cynllun sy'n anfon*** | Mewn ***trosglwyddiad***, y cynllun pensiwn y mae'r aelod yn ei adael er mwyn dechrau cyflogaeth rywle arall, a dod yn aelod o'r ***cynllun sy'n derbyn***. |
| ***Rheolwr y cynllun*** | Yr unigolyn sy'n gyfrifol am reoli cynlluniau pensiwn ar gyfer grŵp o aelodau. Yn achos diffoddwyr tân, rheolwr y cynllun yw'r Awdurdod Tân ac Achub sy'n eu cyflogi. |
| ***Sargeant*** | Achos llys Sargeant ac eraill v Comisiynydd Tân Llundain ac eraill, a sefydlodd fod ***diogelwch trosiannol*** ar sail oedran yn gyfystyr ag achos anghyfreithlon o ***wahaniaethu ar sail oedran***. |
| ***Oedran pensiwn y wladwriaeth*** | Yr oedran y bydd gan unigolyn yr hawl i gael pensiwn ("henaint") y wladwriaeth. Mae'n amrywio yn ôl y flwyddyn geni, ond i'r rhan fwyf o bobl nad ydynt eisoes yn cael pensiwn o'r fath, 67 oed yw'r oedran bellach. Oedran pensiwn y wladwriaeth hefyd yw'r oedran y gall ***aelod gohiriedig*** o gynllun 2015 hawlio pensiwn gohiriedig. |
| ***Goroeswr*** | Perthynas i aelod o gynllun – fel arfer, priod, partner neu blentyn – y mae hawl ganddo i gael buddion o'r cynllun ar ôl i'r aelod hwnnw farw. |
| ***Aelod diogelwch taprog*** | Aelod o gynllun a gafodd gynnig ***diogelwch trosiannol*** taprog yn 2015, h.y., yr hawl i ymuno â Chynllun 2015 yn raddol. Mae hyn yn gymwys i unrhyw un a gyflogwyd yn ddiffoddwr tân ar 1 Ebrill 2012 a 1 Ebrill 2015 ac a oedd rhwng 41 a 44 oed ar y dyddiad cyntaf. Mae aelodau diogelwch taprog hefyd yn ***aelodau yr effeithir arnynt***. |
| ***Trosglwyddiad*** | Symud rhwng un cynllun pensiwn a chynllun pensiwn arall. Bydd hyn yn aml o ganlyniad i newid cyflogwr a/neu fath o gyflogaeth. Fel arfer, bydd angen cyfrifo ***CETV*** neu ddefnyddio dull ***clwb trosglwyddo***. Gall hefyd ddigwydd pan fydd cynllun yn cau ac y bydd aelodau'r cynllun hwnnw yn cael eu symud i gynllun newydd, fel y gwneir o dan y ***rheoliadau arfaethedig***. |
| ***Clwb trosglwyddo*** | Trefniant lle y gall ***aelod actif drosglwyddo*** rhwng aelodaeth gwahanol gynlluniau pensiwn drwy drosglwyddo ei bensiwn cronedig yn yr hen gynllun yn uniongyrchol i'r cynllun newydd, a hynny heb golli parhad ***gwasanaeth pensiynadwy***. Mae trefniadau o'r fath ar waith rhwng y rhan fwyaf o gynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus yn y DU. |
| ***Diogelwch trosiannol*** | Yr hawl i barhau i fod yn aelod o ***gynllun etifeddol*** yn 2015. Mae'r llysoedd wedi dyfarnu bod rhoi'r hawl hon ar sail oedran yn anghyfreithlon. |

| Term | Esboniad |
|---|---|
| ***Aelod nas effeithir arno*** | Aelod o gynllun a ddechreuodd weithio fel diffoddwr tân ar neu ar ôl 1 Ebrill 2012, neu a adawodd ar neu cyn 31 Mawrth 2015, ac nad yw'r diwygiadau arfaethedig yn effeithio arno ac nad oes ganddo'r hawl i'r rhwymedi a gynigir yn yr ymgynghoriad hwn. |
| ***Sylfaen*** | Darpariaeth o fewn rheolau cynlluniau sy'n rhoi dewis i aelod rhwng dwy set bosibl o fuddion cynllun neu fwy. Gweler hefyd ***sylfaen dewis gohiriedig (DCU)***. |